



# Panel Cyflogwr 2005

Canlyniadau o'r don I



## ADRODDIAD CRYNO

Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid – Adroddiad 8



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

## PANEL CYFLOGWR

© Llywodraeth Cynulliad Cymru Ebrill 2006. Fe all detholion o'r cyhoeddiad hwn gael eu hatgynhyrchu at ddibenion anfasnachol, addysgol neu hyfforddiant ar yr amdol bod y ffynhonnell yn cael ei chydabod ac nad yw'r darganfyddion yn cael eu camliwio. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael trwy wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ([www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)).



### GfK NOP

Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd. Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP sydd wedi'i rannu yn adrannau arbenigol.

Mae'r tîm sy'n gweithio ar Panel Cyflogwr yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil i fodlonrwydd cwsmeriaid.

## CYNNWYS

1.0 Cyflwyniad a Methodoleg	1
2.0 Trosolwg o'r Sefydliadau	9
3.0 Gweithgarwch Hyfforddi a Gynhaliwyd	28
4.0 Cymorth Ariannol a Help a Chyngor	74
5.0 Agweddau at Hyfforddiant	100
Atodiad A: Dehongli'r Data a Rhestr Termau	123

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen ymchwil ar gwsmeriaid a gafodd ei chomisiynu'n wreiddiol gan ELWa. ELWa oedd y corff statudol a oedd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido, hyrwyddo ac ehangu mynediad at addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru (ac eithrio Addysg Uwch). Ers Ebrill 2006, cafodd y swyddogaethau hyn eu trosglwyddo i'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau sydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 1.0 CYFLWYNIAD A METHODOLEG



ELWa oedd y Corff Cyhoeddus a Noddwyd gan y Cynulliad, a sefydlwyd yn 2001 o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac roedd yn gyfrifol am gynllunio, cyllido a hyrwyddo darpariaeth dysgu ôl –16 yng Nghymru, ac eithrio Addysg Uwch. Ar 1 Ebrill 2006, unodd ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC). Mae ei weithgareddau ymchwil a gwerthuso wedi mynd i mewn i'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS), a'u hestyn i gwmpasu pob dysgu gydol oes.

Roedd arolwg cyntaf y Panel Cyflogwyr yn rhan o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ELWa, a fu'n rhan o'r ymdrech gyffredinol yn ELWa i:

- Annog polisi ar sail tystiolaeth a chynllunio ar sail galw
- Canolbwyntio ar y cwsmer

Mae'r Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid ei hun yn cwmpasu tair prif elfen weithredu:

- Deall yr hyn sy'n cymhell cwsmeriaid i ddysgu er mwyn ehangu a dwysáu cyfranogiad mewn dysgu
- Deall yr hyn mae cwsmeriaid yn ei feddwl am y gwasanaethau addysg a dysgu a gânt
- Orlhain a deall cyfranogiad o fewn y grwpiau cwsmeriaid (unigolion, busnesau a chymunedau)

Mae arolwg y Panel Cyflogwyr yn ymdrin â'r trydedd o'r elfennau hyn. Mae'r gwaith arall a gynhaliwyd eisoes o dan y Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid, fel yn Tabl 1.

Argymhellodd GfK NOP ddefnyddio Panel o Gyflogwyr fel rhan o Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid er mwyn olrhain barn sefydliadau ar sail hydredol, ac er mwyn darparu ffynhonnell sefydliadau y gall ELWa (LICC bellach) alw arnynt yn rheolaidd er mwyn ymchwilio i faterion amserol sy'n gysylltiedig â dysgu a hyfforddiant.

### 1.1 Nodau

Nodau allweddol y Panel Cyflogwyr yw:

- Ategu'r ymchwil a wnaed gyda chyflogwyr fel rhan o gyfres ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru, a sicrhau y gellir cymharu, lle bo modd, â'r ymchwil hon at ddibenion dadansoddi
- Rhoi prawf ar y teipolegau busnes a nodwyd gan yr ymchwil Astudiaethau Achos Cyflogwyr 2004, er mwyn mireinio hyn ymhellach, yn ôl yr angen
- Gofyn cwestiynau craidd i gyflogwyr ym mhob cam, er mwyn olrhain agweddau/ymddygiad dros amser a chynnwys cyfres o gwestiynau modiwlaid ym mhob cam. Bydd y cwestiynau craidd yn gysylltiedig â:
  - Chymhelliant i ddysgu
  - Ymgysylltu â dysgu
  - Barn am gynhyrchion a chefnogaeth mae'r sector cyhoeddus yn trefnu ei bod ar gael o ran mynediad a lefel ymgysylltu
  - Cynlluniau busnes yn y dyfodol (gyda diddordeb penodol mewn twf)
- Siarad â busnesau ar lefel sefydliadol (h.y. unrhyw safle lle mae gweithwyr wedi'u lleoli, gan gynnwys prif swyddfeydd sefydliadau amlsafle, safleoedd lleol/rhanbarthol a safleoedd mentrau un uned).

### 1.2 Confensiynau adrodd

Drwy gydol yr adroddiad, defnyddir y confensiynau canlynol mewn siartiau a thablau. Mae:

\* yn dynodi ffigurau sy'n llai na 0.5% ond sy'n fwy na sero

\*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli sy'n llai na 100)

– yn dynodi sero

Efallai na fydd rhai ffigurau yn y siartiau a'r tablau yn dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. Lle bydd atebion yn dod i fwy na 100% oherwydd y caniateid atebion lluosog, rhoddwyd nodyn.

Tabl I: Crynodeb o'r Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid

Ymarfer Ymchwil	Nodau
Arolwg Cenedlaethol o Fodddhad Dysgwyr i Gymru 2003	Drwy arolwg ffôn o 6,000 o ddysgwyr mewn Addysg Bellach (AB), Dysgu yn y Gwaith (DYYG) ac Addysg Gymunedol i Oedolion (AGO) achrededig, galluogwyd ELWa i bennu mesurau o fodddhad dysgwyr mewn darpariaeth a gyllidwyd gan ELWa ar draws Cymru, a sefydlu meincnodau a fydd, pan gânt eu holrhain gydag amser, yn dangos patrymau ym modddhad dysgwyr.
Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth i Gymru 2004	Estyniad o'r Arolwg Cenedlaethol o Fodddhad Dysgwyr i Gymru 2003, a archwiliodd farn myfyrwyr chweched dosbarth ysgolion a'u bodlonwydd â'u profiad dysgu. Cynhaliwyd 12 grŵp ffocws mewn 8 ysgol yng Nghymru ac anfonwyd holiaduron i'r myfyrwyr eu llenwi eu hunain i'r holl ysgolion a gymerodd ran i ddeall yr hyn sy'n cymell myfyrwyr chweched dosbarth i ddysgu ac a ydynt yn fodlon ar y broses ddysgu.
Panel Unigolion	Arolwg wyneb-yn-wyneb o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru. Yn y cam cyntaf, cynhaliwyd 2009 o gyfweiliadau. Yng nghanam 2, cyfwelwyd eto â 1309 o'r sampl gwreiddiol. Casglodd yr arolygon hyn wybodaeth am y mathau o ddysgu yr ymgwymerir â nhw, gan olrhain newidiadau dros gyfnod; a chymelliannau ymatebwyr i ddysgu.
Astudiaethau Achos Cyflogwyr	Cynhaliwyd 28 astudiaeth achos unigol mewn amrywiaeth o sefydliadau ar draws Cymru, er mwyn deall: pa ddysgu roedd sefydliadau'n ymgymryd ag ef; a sut i annog sefydliadau i gymryd rhan mewn dysgu, a'i gynnig yn fwy helaeth ar draws eu gweithlu. Cynhaliwyd cyfweiliadau manwl â pherchnogion/cyfarwyddwyr; ac mewn sefydliadau mwy, cynhaliwyd cyfweiliadau â rheolwyr llinell, tra dosbarthwyd holiaduron i'r gweithwyr eu llenwi eu hunain.



**Tabl 2: Dosbarthiad DDS yn erbyn yr arferion enwi yn yr adroddiad hwn**

Dosbarthiad DDS 2003	Enw crynodeb
Amaethyddiaeth, Hela a Choedwigaeth, Pysgota a Chloddio a Chwarela	Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela
Gweithgynhyrchu ac Adeiladu	Gweithgynhyrchu/adeiladu
Cyflenwad Trydan, Nwy a Dŵr, Trafnidiaeth, Storio a Chyfathrebu	Cyfleustodau
Masnach Cyfanwerthu ac Adwerthu, Atgyweirio Cerbydau Modur, Beiciau Modur a Nwyddau Personol a'r Cartref, Gwestai a Bwytai	Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai
Cyfryngu Ariannol, Eiddo Tiriog, Rhentu a Gweithgareddau Busnes	Cyllid/gwasanaethau busnes
Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn, Nawdd Cymdeithasol Gorfodol, Addysg ac Iechyd a Gwaith Cymdeithasol	Gweinyddiaeth gyhoeddus

Mae'r adroddiad yn cyfeirio weithiau at y sectorau diwydiant y mae'r sefydliadau'n gweithredu o'u mewn. Mae'r sectorau wedi'u grwpio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod data pob grŵp yn ddigon cadarn i ganiatáu cynnal dadansoddiad o is-grwpiau. Seiliwyd y grwpiau hyn ar Ddosbarthiadau Diwydiant Safonol a chyfunwyd diwydiannau tebyg. Mae penawdau grwpiau'r Dosbarthiadau Diwydiant Safonol wedi'u talfyrru drwy gydol yr adroddiad hwn er hwylustod. Mae tabl 2 yn dangos y dosbarthiad DDS 2003 yn erbyn yr enw a roddir ar y sector drwy gydol yr adroddiad hwn.


### 1.3 Methodoleg a samplu

#### 1.3.1 Hyd y cyfweiliadau, cymhwyster a'r ymatebwr

Cynhaliwyd Arolwg y Panel Cyflogwyr 2005 drwy gyfweiliadau ffôn â 2,059 o ymatebwyr yn eu gweithle, a barodd 20 munud ar gyfartaledd. O ran cymhwyster, roedd yn rhaid i sefydliadau

fod wedi'u lleoli yng Nghymru (gallent fod naill ai'n safle unigol, yn brif swyddfa neu'n safle unigol i sefydliad amlsafle) ac roedd yn rhaid bod ganddynt ddau weithiwr neu fwy hefyd (gan gynnwys yr ymatebwr). Cytunodd yr holl ymatebwyr fod yn aelod o'r panel cyn i'r cyfweiliad gael ei gynnal. Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng mis March 2005 a mis Mai 2005. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r cyfweilwyr ofyn am siarad â pherchnogion/rheolwyr sefydliadau llai neu reolwyr adnoddau dynol yn y sefydliadau mwy. Cynhaliwyd pob cyfweiliad â rheolwr/cyfarwyddwr ar lefel ganolradd neu uwch a chanddynt gyfrifoldeb dros hyfforddi'r holl staff ar y safle penodol hwnnw. Mae siart 1 yn rhoi'r dadansoddiad llawn o'r ymatebwyr:

## Siart 1: Teitl swydd yr ymatebwr



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (2,059 heb ei phwysoli, 2,059 wedi'i phwysoli).

Cwestiwn un ymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% a mwy. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod'.

Cynhaliwyd cyfran lawer uwch o gyfweiliadau â pherchnogion/rheolwyr ym maes amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (58%) a hefyd ym maes cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (56%). O ran maint, fel y gellid disgwyl, yn y sefydliadau lleiaf roedd y gyfran uchaf o gyfweiliadau â pherchnogion/rheolwyr (44% o'r holl gyfweiliadau yn y band maint 2-9 o weithwyr).

### 1.3.2 Cwotâu

Cytunwyd ar gwothâu cyd-gloi â thîm prosiect ELWa o ran maint a sector (h.y. o fewn sector diwydiant, pennwyd cwotâu ar gyfer cyflawni cyfweiliadau yn ôl gwahanol feintiau sefydliadau, o ran y niferoedd a gyflogir ar y safle hwnnw). Trefnwyd y cwotâu yn ôl y sampl a oedd ar gael gan Experian (y ffrâm samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg) a'r cyfraddau ymateb

a ragwelwyd ar gyfer y cyfweiliadau.

Roedd y cyfraddau ymateb yn is na'r hyn a ddisgwylid o arolwg safonol yn sgil y ffaith bod yn rhaid i'r ymatebwr gytuno i fod yn rhan o'r panel er mwyn cymryd rhan, ac y gellid, felly, gysylltu â nhw mewn camau dilynol. Mae hwn yn ymrwymiad llawer mwy na bod yn rhan o ymarfer ad-hoc. Ni phennwyd unrhyw gwothâu ar gyfer cynrychiolaeth ranbarthol ledled Cymru.

Roedd y data wedi'i bwysoli yn ôl cyfrif y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (Interdepartmental Business Register, IDBR) o'r boblogaeth fusnes yn 2004. Mae tabl 4 yn rhoi nifer y cyfweiliadau yn ôl maint a sector ar sail ffigurau wedi'u pwysoli (addaswyd y data, h.y. ei bwysoli, i sicrhau bod proffil y sefydliadau'n cynrychioli Cymru gyfan).





**Tabl 3: Teitl swydd yr ymatebwyr yn ôl sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/ gwestai/bwytai	Cyllid/ gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	0-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Rheolwr Berchennog	38	58	27	37	56	25	25	44	23	8
RhG/Prif Weithredwr	14	5	20	14	11	24	8	15	14	10
Rheolwr Swyddfa	7	3	10	10	4	13	5	7	8	7
Rheolwr Rhanbarthol/Cangen	7	3	3	9	9	6	7	6	11	10
Cyfarwyddwr Ariannol/ Ysgrifennydd y Cwmni Company Secretary	3	*	7	4	1	3	2	3	3	3
Cyfarwyddwr/ Rheolwr Hyfforddiant/ Gweithrediadau	3	1	2	3	2	4	5	2	5	8
Cyfarwyddwr/ Rheolwr AD/ Personél	2	—	5	1	2	2	2	1	1	13

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 2% a mwy. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'. Mae \* yn dynodi llai na 0.5 ond mwy na sero. Mae — yn dynodi sero.

Tabl 4: Data wedi'i bwysoli: maint o fewn sector

	Cyfanswm	Sector					
		Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adelliadu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/bwytai	Cyllid/ gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr							
Heb ei bwysoli	2,059	196	393	253	446	352	419
Wedi'i bwysoli	2,059	63	312	86	729	386	482
	%	%	%	%	%	%	%
2-4	39	83	42	39	42	48	20
5-9	35	8	29	33	37	36	41
10-24	17	4	14	14	16	12	25
24-59	4	2	6	7	3	2	5
50 neu fwy	5	3	8	8	3	3	8

Yn ôl rhanbarth, cwblhawyd cyfweiliadau fel a ganlyn:

Gogledd Cymru

(489 heb ei bwysoli, 468 wedi'i bwysoli)

Canolbarth Cymru

(280 heb ei bwysoli, 291 wedi'i bwysoli)

De Ddwyrain Cymru

(760 heb ei bwysoli, 797 wedi'i bwysoli)

De Orllewyn Cymru

(441 heb ei bwysoli, 436 wedi'i bwysoli)

Wrth 'heb ei bwysoli' yma, sylwch ein bod yn golygu na addaswyd y data er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli proffil sefydliadau ledled Cymru.

#### 1.4 Arolwg Peilot

Cynhaliwyd arolwg peilot er mwyn rhoi'r

holiadur ar brawf o ran eglurder, llif a hyd. Cynhaliwyd 20 cyfweiliad peilot i gyd. Adroddwyd y sylwadau yn ôl i ELWa, a dim ond newidiadau bychain oedd angen eu gwneud i'r holiadur o ganlyniad.

##### 1.4.1 Cyfweiliadau Cymraeg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ar ddechrau'r cyfweiliad a fyddai'n well ganddynt i'w cyfweiliad gael ei gynnal yn y Gymraeg. Cwblhawyd 12 cyfweiliad i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### 1.5 Cyfraddau ymateb

##### Cyfradd yr ymatebion dilys

Cyfweiliadau a gyflawnwyd (1,226)  $\times$  100 = 50%  
Cyfanswm dilys y sampl





**Tabl 5: Nifer y cyfweiliadau a gyflawnwyd yn ôl sector**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Nifer y gweithwyr	Nifer targed ar gyfer cyfweiliadau	Cyfanswm y cyfweiliadau yn Saesneg	Cyfanswm y cyfweiliadau yn y Gymraeg	Cyfanswm y cyfweiliadau
Amaethyddiaeth, hela a physgota a chloddio a chwarela	2 to 9	180	179	1	180
	10 to 49		16	0	16
	50+	20	4	0	4
Gweithgynhyrchu, Adeiladu	2 to 9	160	163	0	163
	10 to 49	150	166	0	166
	50+	80	78	0	78
Cyflenwi trydan, nwy a dŵr, Trafnidiaeth, storio a chyfathrebu	2 to 9	160	159	2	161
	10 to 49		84	1	85
	50+	120	28	0	28
Cyfanwerthu ac adwerthu, Gwestai a bwytai	2 to 9	160	160	0	160
	10 to 49	150	157	0	157
	50+	80	80	0	80
Cyllid/gwasanaethau busnes	2 to 9	160	162	0	162
	10 to 49	150	150	0	150
	50+	40	43	0	43
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, addysg ac iechyd	2 to 9	160	155	6	161
	10 to 49	150	150	2	152
	50+	80	81	0	81

Tabl 6: Canlyniadau'r sampl

	Nifer	%
<b>Cyfanswm y sampl a dynnwyd</b>	<b>5,472</b>	<b>100</b>
<b>Dilys:</b>		
Cyfanswm y cyfweiliadau a gyflawnwyd	1,226	22
Nifer a wrthododd	268	5
Panelwyr yn gwrthod cymryd rhan eto	93	2
Gwnaed apwyntiad	776	14
Wedi rhoi'r gorau i'r cyfweiliad/eraill yn methu â pharhau	73	1
Wedi cyrraedd nifer fwyaf y galwadau	9	*
Wedi stopio'r cyfweiliadau	2	*
<b>Anghymwys/diangen:</b>		
Ffôn yn brysur	68	1
Dim ateb/peiriant ateb	452	8
Rhif heb ei gydnabod/ddim yn gweithio	285	5
Ddim yn gwybod nifer y gweithwyr/sector	2	*
Cwmni ddim yn bodoli mwyach	26	*
Rhif preswyl	15	*
Ddim ar gael yn ystod cyfnod y gwaith maes	65	1
Rhif dyblyg	19	*
Rhif anghywir	6	*
Panelwr ddim yn gymwys mwyach	1	*
Dim ymatebwr cymwys	156	3
Heb geisio	1930	35
<b>Cyfanswm dilys y sampl:</b>	<b>2,447</b>	<b>%</b>
Cyfweiliadau a gyflawnwyd	1,226	50
Nifer a wrthododd	268	11
Panelwyr yn gwrthod cymryd rhan eto	93	4
Gwnaed apwyntiad	776	32
Wedi rhoi'r gorau i'r cyfweiliad/eraill yn methu â pharhau	73	3
Wedi cyrraedd nifer fwyaf y galwadau	9	*
Wedi stopio'r cyfweiliadau	2	*

## 2.0 TROSOLWG O'R SEFYDLIADAU A GYFWELWYD



### 2.1 Maint a sector sefydliadau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint o weithwyr (amser llawn a rhan-amser) oedd ganddynt ar y safle penodol hwnnw. Roedd gan bron i dri chwarter y sefydliadau y cyfwelwyd â hwy (74%) rhwng 2 a 9 o weithwyr ar y safle. Roedd gan bron i ddau o bob deg (17%) rhwng 10 a 24 o weithwyr ac roedd gan un o bob deg (10%) 25 neu fwy o weithwyr.

Roedd yr holl ranbarthau'n arwyddocaol fwy tebygol na Gogledd Cymru o fod â sefydliadau a chanddynt rhwng 2 a 4 o weithwyr. Roedd y sefydliadau a chanddynt rhwng 2 a 4 o weithwyr yn fwy blaenllaw yn y sector amaethyddiaeth. Sefydliadau'r sector cyhoeddus oedd debycaf o fod â 10 neu fwy o weithwyr. Roedd gan sefydliadau yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus a'r sector gweithgynhyrchu/adeiladu nifer cymedrig arwyddocaol uwch o weithwyr na'r cyfartaledd.

**Tabl 7: Nifer y gweithwyr amser llawn a rhan amser ar y safle yn ôl rhanbarth a sector**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector					
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/ gwestai/ bwytai	Cyllid/ gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
2 to 4	39	30	45	43	41	83	42	39	42	48	20
5 to 9	35	40	36	32	35	8	29	33	37	36	41
10 to 24	17	21	12	16	16	4	14	14	16	12	25
25 to 49	4	5	4	4	3	2	6	7	3	2	5
50 plus	5	5	3	5	4	3	8	8	3	3	8
Nifer cymedrig y gweithwyr	15	16	12	14	13	7	20	16	11	11	21

Nodyn: rhoddwyd diffiniad i'r ymatebwyr o ran-amser, sef rhwng 8 a 31 awr yr wythnos.

Ni chaniatawyd 'Ddim yn gwybod' yn y cyfweliad (rhoddwyd amrediadau ac fe'u derbyniwyd fel ymateb amgen).

Cwestiwn un ymateb.

## 2.2 Natur y sefydliad a'i fath

Roedd ychydig yn llai na dau o bob tri (65%) o'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy yn sefydliadau safle unigol, ac roedd chwarter arall (27%) yn rhan o safleoedd lluosog ond heb fod yn brif swyddfa. Disgrifiodd ychydig yn llai nag un o bob deg (8%) eu hunain fel prif swyddfa sefydliad amlsafle. O ran dadansoddi yn ôl is-grŵp:

- roedd y sefydliadau yng ngogledd Cymru yn arwyddocaol lai tebygol na'r holl ranbarthau

eraill o fod yn safle unigol (57% o'r sefydliadau yng ngogledd Cymru oedd yn rhai safle unigol)

- roedd y sector amaethyddiaeth/cloddio/chwarela, gan mwyaf, yn cynnwys sefydliadau safle unigol, ac roedd yn debycach na'r un sector arall o fod felly (81%)
- roedd sefydliadu a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr yn arwyddocaol lai tebygol o fod yn rhai safle unigol ac yn debycach o fod yn brif swyddfa sefydliadau amlsafle neu'n un o sawl safle

**Tabl 8: Natur y sefydliadau yn ôl rhanbarth, sector a maint**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Un safle	65	57	68	66	73	81	72	62	65	64	60	72	50	34
Prif swyddfa sefydliad amlsafle	8	11	7	9	5	9	15	9	6	7	9	6	13	20
Un o sawl safle ond nid prif swyddfa sefydliad amlsafle	27	32	24	25	22	10	14	29	29	29	31	22	37	45

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.




Roedd y mwyafrif (77%) o'r sefydliadau y cyfwelwyd â hwy yn sefydliadau yn y sector preifat, ond nododd un o bob saith arall (15%) eu bod yn sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Mae'n werth nodi bod sefydliadau yn y sector preifat yn arwyddocaol debycach o fod wedi'u lleoli ar un safle (84%) nag i fod yn un o sawl safle (63%) neu'n brif swyddfa sefydliad amlsafle (73%).

## 2.3 Perchnogaeth


Roedd perchenogaeth bron i ddau o bob tri (64%) o'r sefydliadau sector preifat yn y panel yn seiliedig yng Nghymru, tra bod perchenogaeth dros chwarter (27%) gan sefydliad yn y DU ond y tu allan i Gymru. Roedd cyfanswm o 5% ym mherchenogaeth sefydliadau yn yr UE neu'r tu allan i'r UE.

### Siart 2: Math o sefydliad



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (heb ei phwysoli/wedi'i phwysoli 2,059). Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir yr ymatebion 'Arall' nac 'Ddim yn gwybod'.

### Siart 3: Perchnogaeth sefydliad



Sylfaen: Pob sefydliad yn y sector preifat (1,582 heb ei phwysoli, 1,589 wedi'i phwysoli). Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Heb ei datgan'.

Mae'n werth nodi bod perchnogaeth sefydliadau sector preifat y panel a oedd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru (53%) yn arwyddocaol lai tebygol o fod yng Nghymru na'r rhai ym mhob rhanbarth arall. Sefydliadau

a chanddynt dros 25 o weithwyr oedd leiaf tebygol o fod â'u perchnogaeth yng Nghymru ac roeddent yn arwyddocaol debycach o fod ym mherchnogaeth sefydliadau yn y DU y tu allan i Gymru. O ran sector, roedd

**Tabl 9: Perchnogaeth sefydliadau yn ôl rhanbarth, sector a maint**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cioddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1582	364	216	578	352	191	353	201	363	308	166	829	424	329
Wedi'i phwysoli	1589	339	229	621	346	62	287	69	627	350	194	1248	222	118
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Perchnogion yng Nghymru	64	53	65	66	73	85	71	67	57	67	65	67	62	40
Perchnogion yn y DU ac eithrio Cymru	27	36	31	23	20	13	22	23	32	28	23	26	27	41
Perchnogion yn yr UE ac eithrio'r DU	2	3	1	3	1	-	2	6	4	1	*	2	4	6
Perchnogion allan o'r UE	2	2	*	3	2	2	1	1	3	2	3	2	2	3
'Ddim yn gwybod'/ Heb ei datgan	4	6	2	5	3	1	5	3	5	2	7	3	5	10

Nodyn: Ymateb unigol yn unig. Mae \* yn dynodi llai na 0.5% ond mwy na sero. Mae - yn dynodi sero.






y mwyafrif llethol (85%) o'r sefydliadau mewn amaethyddiaeth/cloddio/chwarela â'u perchnogaeth yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu eu proffil o fod, gan mwyaf, yn sefydliadau un safle a chanddynt lai na 10 o weithwyr.

Roedd cyfran arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd o sefydliadau gweithgynhyrchu ac adeiladu â'u perchnogaeth yng Nghymru (71%). Roedd mynychder uchaf sefydliadau â'u perchnogaeth mewn mannau eraill yn y DU yn y sector adwerthu/cyfanwerthu/gwestai/bwytai (32%) ac yn y sector cyfleustodau (6%) oedd mynychder uchaf perchnogaeth yn y DU.

## 2.4 Gweithgareddau a gynhelir gan sefydliad

Gofynnwyd i'r holl sefydliadau sector preifat pa weithgareddau a gynhaliwyd ar y safle. Nododd bron i wyth ym mhob deg (78%) eu bod yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr, ac roedd ychydig dros bedwar o bob deg (42%) yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n darparu gwasanaethau i sefydliadau eraill. Adroddodd cyfran debyg o sefydliadau eu bod yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n darparu gwasanaethau i rannau eraill o'r sefydliad roeddent yn perthyn iddo (12%), eu bod yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu (12%) neu mai dim ond swyddfa weinyddol oeddent (13%).

### Siart 4: Gweithgaredd a gynhelir mewn sefydliad



Sylfaen: Pob sefydliad sector preifat (1582 heb ei phwysoli, 1589 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.

## 2.5 Ffynhonnell ddaearyddol busnes

Nododd y mwyafrif o sefydliadau a oedd naill ai'n cynhyrchu nwyddau a/neu'n cynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr yn unig fod y mwyafrif o'u cwsmeriaid yn dod o'r tu mewn i Gymru – deuai 81% o'u busnes ar gyfartaledd o'r tu mewn i radiws 25 milltir, a deuai 11% arall o fannau eraill yng Nghymru. Deuai 7% arall o fusnes o'r tu mewn i'r DU. Dim ond cyfartaledd o 1% o'u busnes a ddeuai o'r tu allan i'r DU.

Ymysg sefydliadau a oedd yn cynhyrchu nwyddau a/neu wasanaethau i gwmnïau eraill yn unig, cynhaliwyd llai na hanner (43%) eu busnes

y tu mewn radiws 25 milltir iddynt, a deuai 20% o fannau eraill yng Nghymru. Deuai cyfartaledd o 29% o fusnes o fannau eraill yn y DU. Deuai'r 7% o fusnes sy'n weddill yn y grŵp hwn o sefydliadau o'r tu allan i'r DU.

Yn achos y rhai a oedd yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n cynnig gwasanaethau i gwmnïau a defnyddwyr, deuai cyfran fawr o fusnes o'r tu mewn i radiws 25 milltir o'r safle (67%). Deuai 16% o'u busnes ar gyfartaledd o fannau eraill yng Nghymru neu o fannau eraill yn y DU (14%). Dim ond 2% o'u busnes ddeuai o'r tu allan i'r DU.

**Tabl 10: Yn fras, pa gyfran o'ch busnes sy'n dod o... ?**

Sylfaen: Pawb sy'n gwybod dosbarthiad daearyddol eu sylfaen gwsmeriaid	Sefydliadau sy'n cynhyrchu nwyddau a/n eu'n cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid yn unig	Sefydliadau sy'n cynhyrchu nwyddau a/n eu'n cynnig gwasanaethau i gwmnïau eraill yn unig	Sefydliadau sy'n cynhyrchu nwyddau a/n eu'n cynnig gwasanaethau i gwmnïau eraill a chwsmeriaid
Sylfaen heb ei phwysoli	583	229	493
Sylfaen wedi'i phwysoli	713	182	438
	%	%	%
O fewn radiws 25 milltir	81	43	67
Mannau eraill yng Nghymru	11	20	16
Mannau eraill yn y DU	7	29	14
Mannau eraill yn yr UE	1	4	1
Mannau eraill yn y byd	1	4	1

Nodyn: rhoddir cyfrannau cyfartalog ar gyfer pob ardal. Derbyniwyd amlymateb am bob ardal ddaearyddol.



## 2.6 Sefydliadau sy'n tyfu: twf mewn trosiant/cyllideb ariannol

Gofynnwyd i'r holl sefydliadau y cyfwelwyd â hwy am amcangyfrif o'u trosiant (yn achos sefydliadau sector preifat) neu eu cyllideb ariannol (yn achos sefydliadau sector cyhoeddus) yn y lleoliad penodol hwnnw am y flwyddyn ariannol ddiwethaf (Ebrill 2003 hyd Ebrill 2004). Nododd dros bedwar o bob deg (43%) naill ai nad oeddent yn gwybod (30%) neu roeddent yn gwrthod ateb (13%). Fodd bynnag, amcangyfrifodd traean (33%) o'r sefydliadau fod eu trosiant neu gyllideb ariannol yn llai na £250,000. Nododd bron i un o bob deg (9%) o'r sefydliadau y byddai'n fwy nag £1 miliwn.

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn trosiant/cyllideb ariannol yn ôl rhanbarth.

Roedd gan gyfran lawer uwch o'r holl sefydliadau amaethyddiaeth/cloddio/chwarela drosiant/cyllideb ariannol o lai na £50k na sectorau eraill (22% o'i gymharu â 5% mewn gweithgynhyrchu/adeiladu). Y sectorau a oedd debycaf o nodi £1 miliwn neu fwy o drosiant/cyllideb ariannol oedd y sector gweithgynhyrchu/adeiladu a'r sector cyfleustodau.

Yn ôl y disgwyl, roedd cydberthynas rhwng trosiant/cyllideb ariannol a nifer y gweithwyr.

**Tabl 11: Trosiant/cyllideb ariannol ar gyfer Ebrill 2003 hyd Ebrill 2004 yn ôl rhanbarth, sector a maint**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/ bwyta	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Hyd at £50K	9	11	9	9	8	22	5	12	10	9	9	11	3	1
Dros £50K a hyd at £100K	9	10	9	9	11	17	11	10	8	11	9	12	2	1
Dros £100K a hyd at £250K	15	13	15	14	18	16	15	10	13	15	16	16	13	3

**Tabl 11: Trosiant/cyllideb ariannol ar gyfer Ebrill 2003 hyd Ebrill 2004 yn ôl rhanbarth, sector a maint (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Dros £250K a hyd at £1 miliwn	16	13	18	17	14	8	19	17	15	17	14	14	27	13
Dros £1 miliwn a hyd at £5 miliwn	7	7	5	8	6	3	16	10	6	6	3	4	12	24
Dros £5 miliwn a hyd at £10 miliwn	1	1	1	1	*	1	2	1	1	*	*	-	1	7
Dros £10 miliwn a hyd at £20 miliwn	1	*	*	1	*	-	2	1	*	*	*	*	*	4
Dros £20 miliwn	*	*	-	*	1	-	1	1	*	*	1	*	-	4
Ddim yn gwybod	30	33	30	30	27	23	23	27	32	23	39	30	32	32
Gwrthodwyd	13	12	14	11	15	10	6	12	15	18	9	13	11	12



Yn fwy cadarnhaol, nododd pedwar o bob deg (41%) o sefydliadau fod eu trosiant/cyllideb ariannol yn y lleoliad wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf. Nododd tri o bob deg (31%) arall ei fod ar yr un lefel yn fras. Fodd bynnag, yn achos ychydig dros un o bob deg (11%) roedd wedi gostwng. Mae'n werth nodi bod y rhai mewn cyllid/gwasanaethau busnes a gweinyddiaeth gyhoeddus yn arwyddocaol lai tebygol na'r sectorau eraill o fod wedi nodi gostyngiad

yn eu trosiant/cyllideb ariannol. Y sefydliadau yn y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytaï achanddynt 25 neu fwy o weithwyr a hefyd sefydliadau yn y sector cyllid/gwasanaethau busnes oedd y rhai tebycaf o fod wedi profi twf yn eu trosiant/cyllideb ariannol. Mae siart 6 yn dangos y ganran ym mhob sector a fynegodd rywfaif o dwf yn y flwyddyn ddiwethaf.

**Tabl 12: Newid mewn trosiant/cyllideb ariannol sefydliad rhwng Ebrill 2004 ac Ebrill 2005, yn ôl rhanbarth, sector a maint**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytaï	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Cynnydd	41	43	37	40	45	25	45	39	36	52	41	40	44	46
Gostyngiad	11	8	12	12	10	16	11	16	14	6	8	11	9	9
Yr un lefel yn fras	31	29	40	29	31	50	32	32	33	27	28	32	28	30
Rhy gynnar i wybod	6	6	2	7	7	3	7	4	8	4	4	7	3	2
Ddim yn gwybod	11	14	10	12	7	7	5	10	10	11	19	10	16	13

Nodyn: Cwestiwn un ymateb.

**Tabl 13: Twf mewn trosiant/cyllideb yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl maint a sector**

Maint yn ôl sector	Sylfaen: Heb/wedi'i phwysoli	% a nododd dwf yn eu trosiant / cyllideb ariannol yn y flwyddyn ddiwethaf	
	Nifer	%	
Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (25 neu fwy o weithwyr)	(108/40)	56	↑ Uwch na'r cyfartaledd
Gweithgynhyrchu/adeiladu (10-24 o weithwyr)	(116/45)	53	
Cyllid/gwasanaethau busnes (2-9 o weithwyr)	(162/322)	52	
Cyllid/gwasanaethau busnes (10 neu fwy o weithwyr)	(189/64)	48	
Gweithgynhyrchu/adeiladu (25 neu fwy o weithwyr)	(128/46)	48	
Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (10-24 o weithwyr)	(142/114)	46	
Gweithgynhyrchu/adeiladu (2-9 o weithwyr)	(149/222)	43	
Cyfleustodau (10 neu fwy o weithwyr)	(103/24)	43	
Gweinyddiaeth gyhoeddus (2-9 o weithwyr)	(168/295)	42	
<b>Cyffredinol</b>	<b>(2,059/2,059)</b>	<b>41</b>	
Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (5 neu fwy o weithwyr)	(33/11)	39	↓ Llai na'r cyfartaledd
Gweinyddiaeth gyhoeddus (10-24 o weithwyr)	(136/122)	39	
Gweinyddiaeth gyhoeddus (25 neu fwy o weithwyr)	(115/64)	39	
Cyfleustodau (2-9 o weithwyr)	(150/62)	38	
Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (2-9 o weithwyr)	(196/576)	32	
Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (2-4 o weithwyr)	(163/53)	23	





**Tabl 14: Pa ganran yw'r twf hwn yn ôl eich amcangyfrif chi?**


	Cyfanswm	Sector					
		Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/ gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a brofodd dwf							
Sylfaen heb ei phwysoli	875	**48	191	102	187	177	170
Sylfaen wedi'i phwysoli	849	16	141	34	261	199	197
	%	%	%	%	%	%	%
1-5%	30	29	23	21	27	20	49
6-10%	24	36	25	27	28	28	13
11-15%	10	10	6	9	13	15	2
16-20%	7	4	12	11	5	12	2
Over 20%	17	6	25	17	14	17	15
Don't know	12	16	9	13	10	7	19
Refused	1	-	-	1	2	1	*

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli yn llai na 100). Mae \* yn dynodi llai na 0.5 ond mwy na sero. Mae - yn dynodi sero.

Gofynnwyd i sefydliadau a adroddodd gynnydd yn eu trosiant/cyllideb ariannol o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf roi amcangyfrif o'r twf canrannol. Amcangyfrifodd tri o bob deg (30%) fod y twf rhwng 1 a 5%; bron i chwarter (24%) rhwng 6 a 10%; a chyfran debyg naill ai rhwng 11% ac 20% (17%) neu dros 20% (17%). Roedd sefydliadau ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus yn arwyddocaol debycach o adrodd cynnydd llai (1 i 5%) nag unrhyw sector arall.

Gofynnwyd i sefydliadau a oedd wedi amcangyfrif gostyngiad yn eu trosiant neu gyllideb ariannol roi amcangyfrif hefyd o'r gostyngiad canrannol y byddent yn ei ddisgwyl. Amcangyfrifodd dros chwarter (27%) ostyngiad rhwng 1% a 5%, ac amcangyfrifodd ychydig dros ddau o bob deg (21%) ostyngiad rhwng 6 a 10%. Roedd cyfran debyg yn meddwl y byddai eu trosiant/cyllideb yn gostwng rhwng 11 ac 20% (22%) a thros 20% (20%).

## Siart 5: Pa ganran yw'r gostyngiad hwn, yn ôl eich amcangyfrif chi?



Sylfaen: Pob sefydliad a amcangyfrifodd gostyngiad yn eu trosiant/cyllideb ariannol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (212 heb ei phwysoli, 222 wedi'i phwysoli). Cwestiwn un ymateb.

### 2.7 Sefydliadau sy'n tyfu: twf yn niferoedd y gweithwyr

Yn achos bron i ddau o bob tri (64%) sefydliad, mae nifer y gweithwyr yn y lleoliad wedi aros ar yr un lefel yn fras o'r naill flwyddyn i'r llall. Er y bu cynnydd yn nifer y gweithwyr mewn chwarter o'r achosion bron (24%), bu gostyngiad yn achos un o bob deg (10%). O ran sector diwydiant, amaethyddiaeth/cloddio/chwarela oedd leiaf tebygol o adrodd twf o ran gweithwyr, ac mae'n werth nodi bod sefydliadau ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus yn arwyddocaol debycach na sefydliadau mewn sectorau eraill o adrodd cynnydd mewn staff.

Roedd sefydliadau mwy yn debycach o adrodd twf mewn niferoedd. Yn amlwg, byddai maint a sector wedi gorgyffwrdd; roedd sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn debycach o fod yn sefydliadau mwy (a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr) ac felly'n debycach o fod wedi profi cynnydd mewn niferoedd. Fodd bynnag, roedd sefydliadau eraill mewn gweinyddiaeth gyhoeddus a chanddynt hyd at 24 o weithwyr hefyd yn uwch na'r cyfartaledd o ran twf.



**Tabl 15: Yn y flwyddyn ddiwethaf, a yw nifer y gweithwyr yn y lleoliad hwn wedi cynyddu, gostwng neu wedi aros ar yr un lefel yn fras, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2 - 9	10 - 24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Cynnydd	24	28	21	22	25	7	29	26	15	26	36	21	31	36
Gostyngiad	10	7	7	13	10	8	12	16	9	9	10	10	10	13
Ar yr un lefel yn fras	64	63	71	63	63	84	58	56	74	63	52	67	58	50
Ddim yn gwybod	2	1	1	2	2	1	1	1	2	2	2	2	1	1

Nodyn: Cwestiwn un ymateb.

Roedd yr holl sefydliadau gweithgynhyrchu yn uwch na'r cyfartaledd o ran y gyfran a nododd eu bod wedi tyfu yn y flwyddyn ddiwethaf (y band maint 10-24 yn fwyaf sylweddol). Mae'n ddiddorol nodi, o'r sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr yn y sector

cyllid/gwasanaethau busnes, bod 52% wedi cynyddu eu trosiant (fel y dangosir yn siart 6) ond dim ond chwarter (23%) ohonynt oedd wedi cynyddu nifer eu gweithwyr (fel y mae siart 8 yn dangos isod).

**Tabl 16: Twf yn nifer y gweithwyr yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl maint a sector**

Maint yn ôl sector	Sylfaen: Heb/wedi'i phwysoli	% a nododd dwf yn nifer y gweithwyr yn y flwyddyn ddiwethaf
	Nifer	%
Gweinyddiaeth gyhoeddus (25 neu fwy o weithwyr)	(115/64)	40
Cyllid/gwasanaethau busnes (10 neu fwy o weithwyr)	(189/64)	39
Gweithgynhyrchu/adeiladu (10-24 o weithwyr)	(116/45)	37
Gweinyddiaeth gyhoeddus (2-9 o weithwyr)	(168/295)	36
Gweinyddiaeth gyhoeddus (10-24 o weithwyr)	(136/122)	36
Gweithgynhyrchu/adeiladu (25 neu fwy o weithwyr)	(128/46)	35
Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (25 neu fwy o weithwyr)	(108/40)	34
Cyfleustodau (10 neu fwy o weithwyr)	(103/24)	34
Gweithgynhyrchu/adeiladu (2-9 o weithwyr)	(149/222)	36
<b>Cyffredinol</b>	<b>(2,059/2,059)</b>	<b>24</b>
Cyllid/gwasanaethau busnes (2-9 o weithwyr)	(162/322)	23
Cyfleustodau (2-9 o weithwyr)	(150/62)	23
Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (5 neu fwy o weithwyr)	(33/11)	22
Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (10-24 o weithwyr)	(142/114)	21
Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (2-9 o weithwyr)	(196/576)	13
Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (2-4 o weithwyr)	(163/53)	4


Uwch na'r cyfartaledd

Llai na'r cyfartaledd




O ran y cynnydd canrannol yn nifer y gweithwyr, adroddodd bron i dri o bob deg sefydliad (29%) gynnydd rhwng 1 a 5% ac adroddodd bron i draean (32%) gynnydd dros 20%.

### Siart 6: Pa ganran yw'r cynnydd hwn, yn ôl eich amcangyfrif chi?



Sylfaen: Pob sefydliad lle roedd cynnydd yn nifer eu gweithwyr yn y lleoliad hwn (567 heb ei phwysoli, 503 wedi'i phwysoli). Cwestiwn un ymateb.

### Siart 7: Pa ganran yw'r gostyngiad hwn, yn ôl eich amcangyfrif chi?



Sylfaen: Pob sefydliad lle roedd gostyngiad yn nifer eu gweithwyr yn y lleoliad hwn (222 heb ei phwysoli, 205 wedi'i phwysoli). Cwestiwn un ymateb.

Gofynnwyd i sefydliadau a adroddodd ostyngiad yn nifer y gweithwyr yn eu lleoliad roi amcangyfrif o faint y lleihad hwn. Nododd bron i hanner (46%) fod y gostyngiad yn nifer y staff rhwng 1 a 10%. Nododd dros bedwar o bob deg (43%) fod y gostyngiad dros 20%.


## 2.8 Amcanion y sefydliad dros y flwyddyn nesaf

Ymchwiliodd Arolwg y Panel Cyflogwyr 2005 i amcanion busnes y sefydliad am y flwyddyn nesaf. Dywedodd bron i naw ym mhob deg fod gwella ansawdd y gwasanaeth (gan gynnwys gwasanaeth cwsmeriaid) yn amcan (86%), a dywedodd bron i saith ym mhob deg yr un peth ynghylch cynyddu elw ac ymdrin â lefel sgiliau'r gweithlu (69% yr un). Roedd ychydig yn llai na dau o bob tri wedi gosod yr amcan i gynyddu cynhyrchiant (65%); a phedwar ym mhob saith

i gyflwyno cynhyrchion/ gwasanaethau newydd neu i gyflwyno arferion gwaith newydd (57% yr un). Ac eithrio cyflwyno technoleg newydd (51%), ni phennwyd unrhyw amcan arall gan fwy na dau o bob pump o sefydliadau.

Roedd gosod llawer o amcanion, ar gyfer ystod eang o amcanion, yn awgrymu y cynlluniwyd lefel uchel o weithgaredd am y 12 mis nesaf. Y gwahaniaeth mwyaf cyson rhwng is-grwpiau oedd bod sefydliadau a chanddynt dros 25 o weithwyr yn debycach o fod wedi gosod y rhan fwyaf o'r amcanion (gweler tabl 18).

### Siart 8: Amcanion a bennwyd ar gyfer sefydliadau



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (2059 heb ei bwysoli, 2059 wedi'i bwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 5% a mwy. Ni chynhwyswyd ymateb 'Ddim yn gwybod'.





Roedd y gwahaniaeth yn arbennig o amlwg yn achos lleihau trosiant staff (60%) a chyflwyno arferion gwaith newydd (74%).

Patrwm arall oedd bod y rhai nad oeddent yn darparu unrhyw hyfforddiant yn llai tebygol o fod wedi gosod y rhan fwyaf o'r amcanion uchod i'w hunain. Fodd bynnag, roedd y rhai a oedd yn darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith yn debycach o fod wedi gosod yr amcanion canlynol na'r rhai a oedd yn darparu dim ond un math o hyfforddiant neu ddim un o'r ddau:

- ymdrin â lefelau sgiliau'r gweithlu
- cyflwyno arferion gwaith newydd
- cyflwyno technoleg newydd
- lleihau trosiant staff

Roedd sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus yn llai tebygol o fod wedi gosod yr amcan i gynyddu cynhyrchiant (42% o'r gymharu â 65% yn gyffredinol), ac roeddent yn debycach o fod wedi gosod yr amcan o gyflwyno arferion gwaith newydd (69% o'i gymharu â 57% yn gyffredinol) neu sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol (54% o'i gymharu â 37% yn gyffredinol). Roedd y rhai mewn cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai yn debycach o fod wedi gosod yr amcan i gyflwyno cynhyrchion neu wasanaethau newydd (75% o'i gymharu â 57% yn gyffredinol).

Roedd is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle yn debycach o fod wedi gosod yr amcan i gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd (64%) neu arferion gwaith newydd (66%) a, chydaf phrif swyddfa sefydliadau amlsafle, i leihau trosiant staff (42%).

Roedd sefydliadau a oedd yn gweithredu ers llai na 10 mlynedd (76%), a sefydliadau yn y sector preifat (78%), yn arbennig o debygol o fod am gynyddu elw.

**Tabl 17: Amcanion busnes ar y safle yn ôl maint a hyfforddiant a ddarperir**

	Cyfanswm	Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)			Hyfforddiant a ddarperir			
		2-9	10-24	25 neu fwy	Yn y gwaith	Allan o'r gwaith	Y ddau	Dim un o'r ddau
<b>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr</b>								
Sylfaen heb ei phwysoli	2,059	1,005	583	471	420	232	1,020	381
Sylfaen wedi'i phwysoli	2,059	1,535	342	182	486	238	893	436
	%	%	%	%	%	%	%	%
Gwella ansawdd y gwasanaeth	86	84	91	94	87	83	91	77
Cynyddu elw	69	71	62	69	72	62	67	74
Ymdrin â lefelau sgiliau'r gweithle	69	65	80	83	67	66	80	50
Cynyddu cynhyrchiant	65	64	66	73	69	65	66	58
Cyflwyno cynhyrchion/gwasanaethau newydd	57	56	56	61	64	44	57	56
Cyflwyno arferion gwaith newydd	57	52	69	74	51	52	71	36
Cyflwyno technoleg newydd	51	49	55	62	46	50	60	40
Sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol	37	35	43	50	27	42	46	30
Lleihau trosiant staff	34	29	43	60	32	32	42	22
Eraill	5	5	7	9	4	7	7	3
Ddim yn gwybod	1	1	1	2	2	1	*	1
Dim ateb	*	*	1	*	-	-	*	1
Dim un o'r rhain	5	6	2	1	4	6	3	9

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae \* yn dynodi llai na 0.5 ond mwy na sero. Mae - yn dynodi sero.



## 2.7 Crynodeb

Roedd bron i dri chwarter (74%) y sefydliadau yn y panel yn rhai bach, a chanddynt rhwng 2 a 9 o weithwyr. Roedd dros hanner yr unigolion y cyfwelwyd â hwy naill ai'n berchennog (38%) neu'n Rheolwr-Gyfarwyddwr/Prif Weithredwr (14%).

Roedd ychydig yn llai na dau o bob tri (65%) o'r sefydliadau'n rhai un safle ac roedd y mwyafrif (77%) yn sefydliadau sector preifat. Roedd bron i ddau o bob tri (64%) o'r sefydliadau sector preifat â'u perchnogaeth yng Nghymru. Roedd bron i bob un (91%) â'u perchnogaeth yn y DU.

Holwyd yr holl sefydliadau sector preifat ynghylch y gweithgareddau a gynhelir ar y safle. Roedd y mwyafrif (78%) yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n cynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr, a nododd nifer lai eu bod yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n cynnig gwasanaethau i gwmnïau eraill (42%). Dywedodd nifer sylweddol o sefydliadau mai dim ond rôl weinyddol oedd ganddynt (13%) neu eu bod yn gwasanaethu rhannau eraill o sefydliad ehangach mewn ffyrdd eraill (12%).

O ran dadansoddiad canrannol cyfartalog o ffynhonnell eu busnes, waeth p'un a ydynt yn cynhyrchu nwyddau a/neu'n cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid neu gwmnïau – neu'r ddau o ran hynny – deuai'r gyfran fwyaf o fusnes yr ymatebwyr o'r tu mewn i radiws 25 iddynt. Wedi dweud hynny, roedd sefydliadau sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i gwmnïau eraill yn llai dibynnol ar sylfaen gwsmeriaid leol (radiws 25 milltir) (43% o'i gymharu ag 81% o'r rhai sy'n cynhyrchu nwyddau a/neu'n cynnig gwasanaethau i gwsmeriaid yn unig).

Roedd llawer o'r sefydliadau yn y panel yn tyfu o'r naill flwyddyn i'r llall (naill ai o ran trosiant neu nifer y gweithwyr). Roedd ychydig dros bedwar o bob deg (41%) o'r sefydliadau wedi

gweld peth cynnydd yn eu trosiant/cyllideb ariannol yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn achos dros eu hanner (54%), cynnydd rhwng 1 a 10% oedd hyn.

Dywedodd bron chwarter (24%) ohonynt fod nifer y gweithwyr ar y safle wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall. O'r rhain, dywedodd tri o bob deg (29%) fod y niferoedd wedi cynyddu rhwng 1 a 5% a dywedodd un o bob chwech (16%) fod y niferoedd wedi cynyddu rhwng 6 a 10%.

Er nad oedd cyfran y sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus a oedd yn tyfu o ran cyllideb ariannol yn arbennig o uchel, roedd cyfran y sefydliadau a oedd yn tyfu o ran nifer y gweithwyr yn gymharol uchel. Mae hefyd yn ddi-ddorol nodi bod cyfran ychydig yn uwch, yn y sector preifat, o'r sector cyllid/busnes a hefyd y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytaï a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr wedi dweud bod eu trosiant yn cynyddu. Fodd bynnag, nid oedd gan rai o'r is-grwpiau hyn dwf uwch na'r cyfartaledd o ran nifer eu gweithwyr i gyfateb â hyn.

Ar y cyfan, roedd y sefydliadau'n uchelgeisiol am y dyfodol ac roedd ganddynt amryw amcanion yn y flwyddyn nesaf. Holwyd yr ymatebwyr ynghylch pa amcanion oedd wedi'u pennu ar gyfer eu sefydliad. Ar y cyfan, roedd y mwyafrif o sefydliadau (86%) wedi pennu amcan i wella ansawdd y gwasanaeth. Fodd bynnag, ymhlith yr amcanion eraill a bennwyd gan ddau o bob tri o'r sefydliadau roedd: cynyddu elw (69%); ymdrin â lefelau sgiliau'r gweithlu (69%); a chynyddu cynhyrchiant (65%).

## 3.0 GWEITHGARWCH HYFFORDDI A GYNHALIWYD

### 3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ymchwilio i'r gweithgarwch hyfforddi presennol mewn sefydliadau. Ymhlith y materion a gafodd sylw yn yr arolwg oedd:

- Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf
- Hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf
- Mathau o hyfforddiant a gynlluniwyd am y flwyddyn nesaf
- Anawsterau a gafwyd wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol a chanlyniadau'r anawsterau hynny
- Canran y trosiant a wariwyd ar hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf (yn y gwaith neu allan o'r gwaith)
- Newidiadau i fuddsoddiad mewn hyfforddiant dros y 3 blynedd diwethaf
- Dylanwad prosesau penderfynu ynghylch hyfforddiant

Gofynnwyd i'r sefydliadau a oeddent wedi darparu unrhyw un o'r mathau o hyfforddiant a restrir isod, naill ai yn y gwaith neu allan o'r gwaith.

- Sgiliau rheoli
- Sgiliau cyfathrebu
- Sgiliau technegol/ymarferol eraill
- Sgiliau gweithio mewn tîm
- Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG
- Sgiliau trin cwsmeriaid
- Sgiliau datrys problemau
- Defnyddio rhifau
- Sgiliau TG proffesiynol
- Sgiliau llythrennedd

### 3.2 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

Ymchwiliodd yr adran hon yn yr holiadur i gyfran y sefydliadau a ddarparodd unrhyw

hyfforddiant yn y gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (h.y. hyfforddiant a gynhaliwyd yng ngweithle'r gweithiwr). Atebodd dau o bob tri o'r sefydliadau eu bod wedi gwneud (67%), er bod amrywiadau arwyddocaol yn ôl is-grŵp, fel a ganlyn:

- Darparwyd hyfforddiant yn y gwaith gan gyfran sylweddol uchel o sefydliadau yng ngogledd Cymru (74%)
- Yn ôl sector, roedd mynychder hyfforddiant yn y gwaith ar ei uchaf ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus (79%) ac ar ei isaf ym maes amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (23%)
- Roedd darpariaeth yn arwyddocaol is mewn sefydliadau a chanddynt hyd at 24 o weithwyr, o'i gymharu â'r rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (60% o'r sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr a 86% o'r rhai a chanddynt 10-24 o weithwyr, o'i gymharu â 91% o'r rhai a chanddynt 25 neu fwy)
- Roedd darpariaeth ar ei hisaf mewn gweithrediadau un safle (60% o'i gymharu ag 82% mewn is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle)

O ran y mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd, y categori mwyaf cyffredin oedd 'sgiliau technegol/ymarferol eraill' sy'n gysylltiedig â'r swydd (70%). Roedd y cod sgiliau technegol/ymarferol eraill yn cwmpasu unrhyw hyfforddiant a oedd yn datblygu galluoedd technegol neu sgiliau ymarferol y gweithiwr, ond nad oedd wedi'i gwmpasu gan y sgiliau cyffredinol a restrir yn Siart 12 ac nad oedd yn gysylltiedig â TG. Roedd tri o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau trin cwsmeriaid (60%) neu sgiliau gweithio mewn tîm (59%); ac roedd ychydig dros hanner wedi darparu sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (54%), sgiliau cyfathrebu (53%) neu sgiliau datrys problemau (51%). Y mathau eraill o hyfforddiant a grybwyllwyd gydag unrhyw fynychder oedd sgiliau rheoli (41%), defnyddio rhifau (37%), sgiliau TG proffesiynol (26%)



**Tabl 18: Hyfforddiant yn y gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2 - 9	10 - 24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Do	67	74	64	65	64	23	60	59	65	70	79	60	86	91
Naddo	33	25	36	35	36	77	38	41	35	30	21	40	14	8

Note: Single response question. 'Don't know' not shown.

**Tabl 19: Hyfforddiant yn y gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl y math o sefydliad a'i natur**

	Cyfanswm	Math o sefydliad			Natur y sefydliad		
		Preifat	Cyhoeddus	Arall	Un safle	Prif swyddfa sefydliad amlsafle	Amlsafle (nid prif swyddfa sefydliad amlsafle)
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr							
Heb ei phwysoli	2,059	1,582	346	119	1,205	244	606
Wedi'i phwysoli	2,059	1,589	304	153	1,338	173	546
	%	%	%	%	%	%	%
Do	67	64	79	74	60	73	82
Naddo	33	36	19	26	40	27	17

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod'.

a sgiliau llythrennedd (22%). Ni chrybwyllwyd unrhyw ateb arall gan fwy nag un o bob wyth. Yn achos pob math o hyfforddiant yn y gwaith (ac eithrio defnyddio rhifau, cymorth cyntaf a hylendid/hylendid bwyd) y gwahaniaeth amlycaf rhwng is-grwpiau oedd maint y sefydliad. Mae tabl 21 yn dangos bod y ddarpariaeth ar ei huchaf ymysg sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr. Roedd hyn hefyd yn wir yn y rhan fwyaf o'r sectorau, er nad oedd yn wir, ar y cyfan, yn achos cyfleustodau a chyllid/gwasanaethau busnes. O ran y sector ei hun:

Roedd amrywiaeth o hyfforddiant wedi ei darparu gan gyfran uwch o'r sefydliadau mewn cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai nag yn unrhyw sector arall:

- sgiliau cyfathrebu (64%)

- sgiliau trin cwsmeriaid (83%)
- sgiliau gweithio mewn tîm (68%)
- sgiliau datrys problemau (59%)
- defnyddio rhifau (49%)

Roedd ymatebwyr mewn cyllid/gwasanaethau busnes yn arwyddocaol fwy tebygol nag mewn sectorau eraill o grybwyll:

- sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (77%)
- sgiliau TG proffesiynol (45%)


Roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn arwyddocaol fwy tebygol o grybwyll:

- sgiliau rheoli (53%)
- sgiliau llythrennedd (31%)
- cymorth cyntaf (15%)





## Siart 9: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith (1,440 heb ei phwysoli, 1,380 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion 3% neu fwy. Ni ddangosir yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.

**Tabl 20: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1,440	368	170	545	288	**45	281	158	343	264	349	526	486	428
Wedi'i phwysoli	1,380	349	187	516	280	14	188	51	477	269	380	921	293	165
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau technegol/ ymarferol eraill	70	67	72	70	70	76	88	69	68	75	58	67	69	85
Sgiliau trin cwsmeriaid	60	59	67	59	54	41	45	65	83	51	44	59	59	62
Sgiliau gweithio mewn tîm	59	60	61	59	52	46	53	59	68	44	60	54	65	71
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	54	58	51	49	57	47	47	53	40	77	58	50	56	70
Sgiliau cyfathrebu	53	55	54	54	47	36	35	54	64	44	56	51	55	63
Sgiliau datrys problemau	51	50	48	53	48	38	43	47	59	46	49	49	50	60



**Tabl 20: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adelladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1,440	368	170	545	288	**45	281	158	343	264	349	526	486	428
Wedi'i phwysoli	1,380	349	187	516	280	14	188	51	477	269	380	921	293	165
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau rheoli	41	43	42	41	36	43	33	37	40	32	53	32	52	68
Defnyddio rhifau	37	39	43	38	33	22	34	32	49	36	27	39	34	37
Sgiliau TG proffesiynol	26	24	31	23	31	20	25	16	14	45	30	25	24	35
Sgiliau llythrennedd	22	27	21	20	21	13	15	17	24	12	31	19	27	28
Iechyd a diogelwch	13	17	6	15	8	13	16	10	12	7	16	10	15	22
Cymorth cyntaf	6	8	3	5	5	7	3	5	2	2	15	5	8	8

**Tabl 21: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn ôl y math o sefydliad a'i natur**

	Cyfanswm	Y math o sefydliad			Natur y sefydliad		
		Preifat	Cyhoeddus	Arall	Un safle	Prif swyddfa sefydliad amlsafle	Amlsafle (nid prif swyddfa sefydliad amlsafle)
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith yn y 12 mis diwethaf							
Sylfaen heb ei phwysoli	2,059	1,582	346	119	1,205	244	606
Sylfaen wedi'i phwysoli	2,059	1,589	304	153	1,338	173	546
	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	70	74	61	52	71	66	69
Sgiliau trin cwsmeriaid	60	62	53	49	53	57	72
Sgiliau gweithio mewn tîm	59	56	67	62	52	58	71
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	54	49	69	59	49	60	60
Sgiliau cyfathrebu	53	51	60	59	50	53	60
Sgiliau datrys problemau	51	50	52	51	47	48	58
Sgiliau rheoli	41	36	59	48	32	40	56
Defnyddio rhifau	37	38	39	30	37	36	39
Sgiliau TG proffesiynol	26	23	38	24	25	34	25
Sgiliau llythrennedd	22	19	38	12	23	24	19
Iechyd a diogelwch	13	12	14	17	11	19	15
Cymorth cyntaf	6	5	9	11	5	8	7

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ymatebion cyffredinol 6% neu fwy a ddangosir yn y siart. Ni ddangosir yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100).



Roedd is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle yn debycach o fod wedi darparu sawl math o hyfforddiant hefyd, yn enwedig sgiliau cyfathrebu (60%), sgiliau trin cwsmeriaid (72%) a sgiliau rheoli (56%).

Wedyn, ceisiodd yr holiadur ymchwilio i'r mathau o hyfforddiant yn y gwaith yn ôl gwahanol alwedigaethau o fewn pob sefydliad. Oherwydd cyfyngiadau ar hyd yr holiadur, roedd y rhaglen a sefydlwyd ar gyfer y cyfweiliad yn cyfuno pob categori o alwedigaeth ar bob safle ac wedyn yn dewis ar hap ddwy alwedigaeth i'r ymatebwr gynnig sylwadau arnynt. Wedyn, gofynnodd y cyfwelydd i'r ymatebwr ystyried y rhain, a hefyd pa fathau penodol o hyfforddiant yn y gwaith a gynigiwyd i bob un.

Mae canlyniadau'r cwestiynau hyn i'w gweld yn adrannau 4.2.1 – 4.2.7, sy'n dilyn:

### 3.2.1 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i reolwyr ac uwch-reolwyr yn y 12 mis diwethaf

Mae'r adran hon yn ymchwilio i fathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i reolwyr ac uwch-reolwyr. Roedd oddeutu draean o'r ymatebwyr mewn sefydliadau a oedd yn darparu rhywfaint o hyfforddiant yn y gwaith ac a ddywedodd fod rheolwyr neu uwch-reolwyr ar y safle, wedi darparu'r canlynol iddynt: sgiliau gweithio mewn tîm (36%), sgiliau trin cwsmeriaid (34%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (33%), sgiliau datrys problemau (33%), sgiliau cyfathrebu (31%), sgiliau technegol/ymarferol eraill (31%) a sgiliau rheoli (30%).

Dywedodd tri o bob deg (30%) nad oeddent wedi darparu unrhyw hyfforddiant yn y gwaith i reolwyr ac uwch-reolwyr yn y flwyddyn ddiwethaf. Y mathau o sefydliadau a oedd fwyaf tebygol o fod heb ddarparu hyfforddiant i'r grŵp galwedigaethol hwn oedd:

- y rhai yng ngogledd Cymru (dywedodd 22% eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant o gwbl o'i gymharu â 39% yn ne-orllewin Cymru)
- gweinyddiaeth gyhoeddus (dywedodd 15% eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant o gwbl i'r grŵp galwedigaethol hwn)
- sefydliadau mwy (dywedodd 20% o'r sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant o gwbl yn y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 32% o'r rhai a chanddynt 2-9 o weithwyr)

O edrych ar yr is-grwpiau, yr un mathau o batrymau oedd yn amlwg ag ar gyfer darpariaeth hyfforddiant i staff yn gyffredinol. Roedd y mwyafrif o fathau o hyfforddiant yn fwy tebygol o fod wedi'u darparu yn y sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (o'r rhai a oedd wedi darparu hyfforddiant, roeddent wedi darparu amrywiaeth eang) a chan is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle. Wrth gymharu sectorau, roedd y mwyafrif o fathau o hyfforddiant yn fwy tebygol o gael eu crybwyll gan ymatebwyr mewn cyllid/busnes neu weinyddiaeth gyhoeddus. Crybwyllwyd sawl math o hyfforddiant yn y gwaith yn amlach hefyd gan ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru.

**Tabl 22: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i reolwyr ac uwch-reolwyr yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adelldu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	889	223	106	332	192	**35	152	115	230	164	193	390	288	211
Wedi'i phwysoli	934	233	128	346	200	11	110	38	361	191	222	672	181	81
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau gweithio mewn tîm	36	46	39	34	25	17	21	43	40	29	43	32	43	51
Sgiliau trin cwsmeriaid	34	39	42	31	26	17	18	37	45	31	27	33	38	37
Sgiliau datrys problemau	33	36	31	33	28	16	17	34	37	30	37	31	36	43
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	33	40	25	31	31	28	27	28	26	51	32	31	34	42
Sgiliau technegol/ ymarferol eraill	31	35	28	32	27	24	24	34	32	44	23	29	36	42
Sgiliau cyfathrebu	31	37	29	29	26	20	15	33	33	26	38	28	34	43



**Tabl 22: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i reolwyr ac uwch-reolwyr yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	889	223	106	332	192	**35	152	115	230	164	193	390	288	211
Wedi'i phwysoli	934	233	128	346	200	11	110	38	361	191	222	672	181	81
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau rheoli	30	36	28	28	27	19	17	33	28	24	46	24	42	56
Defnyddio rhifau	24	28	30	23	15	17	17	18	31	20	19	24	24	22
Sgiliau TG proffesiynol	15	17	14	14	17	8	12	8	10	26	18	16	13	18
Sgiliau llythrennedd	14	14	15	14	13	5	11	12	16	6	20	13	17	17
Arall	25	33	16	27	21	25	18	19	20	23	41	22	34	33
Dim hyfforddiant yn y gwaith i'r alwedigaeth hon yn y flwyddyn ddiwethaf	30	22	35	28	39	34	46	33	36	25	15	32	24	20
Ddim yn gwybod	1	*	-	2	-	-	1	2	1	1	2	1	1	2

### 3.2.2 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau proffesiynol

O'r sefydliadau a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith ac a ddywedodd hefyd fod galwedigaethau proffesiynol ar y safle, roedd eu hanner bron wedi darparu hyfforddiant yn y gwaith mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (47%) neu sgiliau technegol/ymarferol eraill (46%); ac roedd dau o bob pump wedi darparu sgiliau gweithio mewn tîm (40%). Roedd rhyw draean wedi darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol mewn sgiliau datrys problemau (35%), sgiliau cyfathrebu (32%) a sgiliau trin cwsmeriaid (31%); dilynwyd hynny gan sgiliau TG proffesiynol (28%) a sgiliau rheoli (25%).

Roedd y meintiau sylfaen (h.y. y nifer y cyfwelwyd â hwy) yn rhy fach i lawer o wahaniaethau rhwng is-grwpiau fod yn ystadegol arwyddocaol, ond roedd y patrymau arferol yn amlwg yn ôl maint y band a natur y sefydliad.

Dywedodd ychydig dros un o bob deg o sefydliadau (12%) a chanddynt alwedigaethau proffesiynol ar y safle, ac a oedd hefyd yn darparu hyfforddiant yn y gwaith, eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant yn y gwaith i'r grŵp penodol hwn yn y flwyddyn ddiwethaf.

### 3.2.3 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau proffesiynol cysylltiol yn y 12 mis diwethaf

Mae galwedigaethau cysylltiol proffesiynol yn cynnwys galwedigaethau fel technegwyr labordy, technegwyr cefnogi defnyddwyr TG, nyrsys, ffisiotherapyddion, swyddogion tai a lles, swyddogion yr heddlu (sarsiant ac is), hyfforddwyr ffitrwydd, rheolwyr traffig awyr, gweithwyr proffesiynol cysylltiol y gyfraith ayb. Un nodwedd o weithwyr y grŵp hwn yw bod ganddynt gymwysterau er mwyn gwneud eu swydd.

Roedd dros hanner y sefydliadau a oedd wedi darparu hyfforddiant a hefyd yn cyflogi gweithwyr proffesiynol cysylltiol ar y safle,

hefyd wedi darparu hyfforddiant yn y gwaith mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill (52%), ac roedd bron i hanner wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (47%). Roedd dau o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu neu sgiliau gweithio mewn tîm (39% yr un) ac roedd ymron i gynifer wedi darparu hyfforddiant sgiliau trin cwsmeriaid (36%) a sgiliau datrys problemau (34%). Roedd rhyw chwarter y sefydliadau'n darparu'r mwyafrif o fathau eraill o hyfforddiant.

Dywedodd ychydig dros un o bob deg (15%) a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt weithwyr proffesiynol cysylltiol ar y safle eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant yn y gwaith i'r grŵp penodol hwn yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y samplau'n rhy fach am unrhyw ddadansoddiad ystyrlon o is-grwpiau.

### 3.2.4 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i staff gweinyddol/ysgrifenyddol yn y 12 mis diwethaf

O'r sefydliadau a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith ac a ddywedodd fod swyddi gweinyddol/ysgrifenyddol ar y safle, dywedodd 52% o'r sampl eu bod yn darparu hyfforddiant sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG iddynt. Roedd rhyw draean wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill neu sgiliau trin cwsmeriaid (36% yr un), sgiliau gweithio mewn tîm (35%), sgiliau cyfathrebu (34%) neu sgiliau datrys problemau (31%).

Roedd sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr yn debycach o ddarparu'r rhan fwyaf o fathau o hyfforddiant i staff gweinyddol/ysgrifenyddol, yn enwedig sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG, sgiliau technegol/ymarferol eraill, sgiliau cyfathrebu, sgiliau gweithio mewn tîm a sgiliau rheoli. Roedd y rhai mewn is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle yn fwy tebygol o ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG, sgiliau trin cwsmeriaid, sgiliau gweithio mewn tîm a sgiliau datrys problemau.






**Tabl 23: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau proffesiynol yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl maint a natur y sefydliad**

	Cyfanswm	Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)			Natur y sefydliad		
		2-9	10-24	25 neu fwy	Un safle	Prif swyddfa sefydliad amlsafle	Amlsafle (nid prif swyddfa sefydliad amlsafle)
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau proffesiynol ar y safle hefyd							
Sylfaen heb ei phwysoli	306	123	**97	**86	173	**39	**93
Sylfaen wedi'i phwysoli	307	212	60	34	196	25	86
	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	47	39	63	68	44	49	51
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	46	44	44	60	44	43	50
Sgiliau gweithio mewn tîm	40	34	50	57	36	31	50
Sgiliau datrys problemau	35	33	36	46	28	26	53
Sgiliau cyfathrebu	32	29	35	45	28	31	41
Sgiliau trin cwsmeriaid	31	31	27	34	25	24	45
Sgiliau TG proffesiynol	28	24	37	42	26	34	31
Sgiliau rheoli	25	18	39	46	20	44	29
Defnyddio rhifau	20	20	18	21	20	15	21
Sgiliau llythrennedd	18	14	26	22	20	10	13
Arall	34	32	36	44	31	34	40
Dim hyfforddiant yn y gwaith i'r alwedigaeth hon yn y flwyddyn ddiwethaf	12	14	8	6	14	14	6
Ddim yn gwybod	3	3	2	4	4	4	1

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100)

### Siart 10: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau proffesiynol cysylltiol yn y flwyddyn ddiwethaf



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaent o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau proffesiynol/technegol ar y safle hefyd (159 heb ei phwysoli, 148 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb.



**Tabl 24: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i staff gweinyddol/ysgrifenyddol yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl maint a natur y sefydliad**

	Cyfanswm	Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)			Natur y sefydliad		
		2-9	10-24	25 neu fwy	Un safle	Prif swyddfa sefydliad amlsafle	Amlsafle (nid prif swyddfa sefydliad amlsafle)
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaent o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau ysgrifenyddol/gweinyddol ar y safle hefyd							
Sylfaen heb ei phwysoli	469	130	169	170	226	**79	163
Sylfaen wedi'i phwysoli	392	237	88	67	231	50	111
	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	52	50	50	64	49	52	58
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	36	35	29	48	33	41	39
Sgiliau trin cwsmeriaid	36	36	34	39	35	24	44
Sgiliau gweithio mewn tîm	35	32	36	44	31	34	43
Sgiliau cyfathrebu	34	32	34	41	34	33	33
Sgiliau datrys problemau	31	31	31	34	29	25	39
Sgiliau TG proffesiynol	23	24	19	23	23	18	23
Defnyddio rhifau	20	24	13	17	25	19	12
Sgiliau rheoli	19	16	17	31	18	19	21
Sgiliau llythrennedd	10	11	7	13	12	10	7
Arall	24	23	19	34	21	27	28
Dim hyfforddiant yn y gwaith i'r alwedigaeth hon yn y flwyddyn ddiwethaf	23	24	23	18	25	27	16
Ddim yn gwybod	2	2	1	2	3	1	1

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100).

### 3.2.5 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau crefft medrus yn y 12 mis diwethaf

Yr hyfforddiant mwyaf tebygol i'w ddarparu i alwedigaethau crefftau medrus oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill sy'n gysylltiedig â'r swydd (46%), a darparodd rhyw draean hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (36%) a sgiliau datrys problemau (33%). Darparodd rhyw chwarter hyfforddiant sgiliau trin cwsmeriaid a sgiliau cyfathrebu (27% a 23%).

Dywedodd ychydig dros un o bob pump (22%) a oedd yn darparu hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau crefftau medrus ar y safle hefyd eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant yn y gwaith i'r grŵp penodol hwn yn y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y samplau'n rhy fach am unrhyw ddadansoddiad ystyrion o is-grwpiau.

### 3.2.6 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau gwasanaeth yn y 12 mis diwethaf (galwedigaethau gwasanaethau personol a gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid)

O'r sefydliadau a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau gwasanaeth personol ar y safle hefyd, roedd dros eu hanner wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau gweithio mewn tîm (55%), ac ychydig yn llai na hanner mewn sgiliau cyfathrebu (49%) a sgiliau trin cwsmeriaid (45%). Roedd ychydig yn llai eto wedi darparu hyfforddiant sgiliau datrys problemau (43%) a sgiliau technegol/ymarferol eraill (39%). Roedd rhyw chwarter o'r ymatebwyr yn darparu'r mwyafrif o'r mathau eraill o hyfforddiant.

Yn achos galwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid, roedd y ffigurau a gofnodwyd yn uwch. O'r sefydliadau a oedd wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid ar y safle hefyd, roedd bron i dri

chwarter wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau trin cwsmeriaid (72%), tri o bob chwech hyfforddiant mewn sgiliau gweithio mewn tîm (59%), and ychydig dros hanner hyfforddiant sgiliau cyfathrebu (52%). Roedd ychydig dan hanner wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau datrys problemau (47%), and dau o bob pump wedi darparu hyfforddiant sgiliau technegol/ymarferol eraill (39%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (39%) a defnyddio rhifau (38%).

Dywedodd ychydig dros un o bob deg (13%) a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith, a chanddynt hefyd naill ai alwedigaethau gwasanaeth personol neu werthu/gwasanaeth cwsmeriaid ar y safle, eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant yn y gwaith i'r grwpiau penodol hyn yn y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y samplau'n rhy fach am unrhyw ddadansoddiad ystyrion o is-grwpiau.


### 3.2.7 Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i weithwyr proses/offer/peiriannau a galwedigaethau elfennol yn y 12 mis diwethaf

Roedd ychydig dros hanner y sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt hefyd weithwyr proses/offer/peiriannau ar y safle wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill ar gyfer prosesau (54%). Roedd traean wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau gweithio mewn tîm (33%) ac ychydig yn llai wedi darparu hyfforddiant sgiliau datrys problemau (29%) a sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (26%).

Yr hyfforddiant a ddarparwyd amlaf ar gyfer galwedigaethau elfennol oedd sgiliau gweithio mewn tîm (45%), ac wedi hynny sgiliau trin cwsmeriaid (42%) a sgiliau technegol/ymarferol eraill (38%). Darparodd traean hyfforddiant mewn sgiliau datrys problemau a sgiliau cyfathrebu (34% yr un) tra bod ychydig yn llai na chwarter yn darparu hyfforddiant mewn defnyddio rhifau (23%).



## Siart 11: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau crefftau medrus yn y flwyddyn ddiwethaf




Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt alwedigaethau crefft medrus ar y safle hefyd (253 heb ei phwysoli, 220 wedi'i phwysoli). Caniatwyd ymatebion lluosog. Dangosir ymatebion cyffredinol a grybwyllwyd gan 2% neu fwy.

Dywedodd bron i un rhan o bump o'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt naill ai weithredwyr offer a pheiriannau neu alwedigaethau elfennol ar y safle eu bod heb ddarparu unrhyw hyfforddiant yn y gwaith i'r grwpiau penodol hyn yn y flwyddyn ddiwethaf (17% a 18% yn y drefn honno).

Roedd y sylfeini'n rhy fach i unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau fod yn arwyddocaol.

**Siart 12: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i alwedigaethau gwasanaeth personol a galwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid yn y flwyddyn ddiwethaf**




■ Gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid  
 ■ Gwasanaeth personol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt hefyd alwedigaethau gwasanaeth personol ar y safle (136 heb ei phwysoli, 135 wedi'i phwysoli) a'r holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaint o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt hefyd alwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid ar y safle (275 heb ei phwysoli, 317 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion 1% a mwy.



### Siart 13: Mathau o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd i weithwyr proses/offer/peiriannau a galwedigaethau elfennol yn y flwyddyn ddiwethaf



- Gweithredw yr offer/peiriannau
- Galwedigaethau elfennol

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaent o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt hefyd weithredwyr offer a pheiriannau ar y safle (113 heb ei phwysoli, 61 wedi'i phwysoli) a'r holl ymatebwyr a ddarparodd rywfaent o hyfforddiant yn y gwaith a chanddynt hefyd alwedigaethau elfennol ar y safle (213 heb ei phwysoli, 152 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol 2% a mwy.

### 3.3 Hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

#### 3.3.1 Mynychder a'r mathau o hyfforddiant a gynigiwyd

Yn ogystal â hyfforddiant yn y gwaith, edrychodd yr holiadur ar ddarpariaeth hyfforddiant allan o'r gwaith hefyd. Roedd dros hanner yr holl sefydliadau y cyfwelwyd â hwy wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith i staff ar eu safle yn y flwyddyn ddiwethaf (55%). Roedd hyn yn is na'r mynychder a gofnodwyd ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith, sef dau o bob tri (67%) o'r holl sefydliadau.

Eto, roedd darparu hyfforddiant allan o'r gwaith yn llawer uwch yn achos sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (84% o'i gymharu â 48% o'r rhai a chanddynt 2-9 o weithwyr). Yn ôl sector, roedd y ddarpariaeth yn arwyddocaol fwy tebygol o fod yn bresennol yn y sector cyllid/gwasanaethau busnes a hefyd yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus (63% ac 81% yn y drefn honno).

Mae'n ddiddorol nodi, er bod darpariaeth hyfforddiant yn y gwaith yn arwyddocaol uwch yng ngogledd Cymru o'i gymharu â'r rhanbarthau eraill, nad oedd cydberthynas ô'r fath mewn perthynas â hyfforddiant allan o'r gwaith (darparodd 55% o'r sefydliadau

**Tabl 25: A gafodd unrhyw aelodau o staff ar y safle unrhyw hyfforddiant allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad?**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Do	55	55	53	53	58	34	47	41	40	63	81	48	72	84
Naddo	44	45	46	46	41	66	52	58	59	37	18	52	27	14

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod'.





yn ngogledd Cymru hyfforddiant allan o'r gwaith, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol). Fel yn achos hyfforddiant yn y gwaith, roedd mynychder hyfforddiant allan o'r gwaith yn uwch mewn is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle (68%).

Y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf yn y flwyddyn ddiwethaf oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (51%), sef y math o hyfforddiant yn y gwaith a grybwyllwyd amlaf hefyd (70%). Roedd rhyw dri ym mhob saith wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli (44%) a rhyw draean wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu (35%), sgiliau gweithio mewn tîm (34%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (33%), sgiliau trin cwsmeriaid (32%) a sgiliau datrys problemau (31%). Roedd rhyw un o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn defnyddio rhifau (22%), sgiliau TG proffesiynol (20%) neu iechyd a diogelwch (19%).

Mae tabl 27 yn dangos yr ymatebion am y mathau o hyfforddiant allan o'r gwaith ac mae hefyd yn cymharu'r ymatebion hyn â'r mathau o hyfforddiant yn y gwaith a grybwyllwyd yn adran 4.2. Mae'n dangos bod hyfforddiant, ar y cyfan, yn debycach o fod wedi'i gyflwyno yn y gwaith. Mae'r tabl yn awgrymu bod y bwch rhwng y gwahanol fathau o ddarparwyr letaf yn achos sgiliau gweithio mewn tîm, sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG, sgiliau trin cwsmeriaid a sgiliau datrys problemau.

Fel yn achos hyfforddiant yn y gwaith, roedd sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr yn fwy tebygol o fod wedi darparu pob math o hyfforddiant allan o'r gwaith oherwydd bod y rhain, yn y mwyafrif o achosion, yn is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle (gweler tabl 28). O ran sector, mae'r canlyniadau'n rhyfeddol o 'wastad', a'r unig faterion i'w codi yw'r canlynol:

Roedd y mwyafrif o fathau o hyfforddiant allan o'r gwaith yn debycach o fod wedi'u cynnig yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus nag yn y mwyafrif o sectorau eraill. Hefyd, gweinyddiaeth gyhoeddus oedd debycaf o lawer o ddarparu hyfforddiant allan o'r gwaith mewn rheoli a sgiliau llythrennedd (58% a 29%), ac roedd ychydig yn fwy tebygol o ddarparu hyfforddiant mewn defnyddio rhifau a chymorth cyntaf (27% a 14%).

Roedd gweithgynhyrchu yn arwyddocaol fwy tebygol na'r mwyafrif o sectorau eraill o ddarparu hyfforddiant iechyd a diogelwch.

Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai oedd fwyaf tebygol o gynnig hyfforddiant hylendid/hylendid bwyd allan o'r gwaith.

Tabl 26: Mathau o hyfforddiant a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd fath penodol o hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf	Cyfanswm y rhai a ddarparodd hyfforddiant allan o'r gwaith	Cyfanswm y rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith
Heb ei phwysoli	1,252	1,440
Wedi'i phwysoli	1,132	1,380
	%	%
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	51	70
Sgiliau rheoli	44	41
Sgiliau cyfathrebu	35	53
Sgiliau gweithio mewn tîm	34	59
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	33	54
Sgiliau trin cwsmeriaid	32	60
Sgiliau datrys problemau	31	51
Defnyddio rhifau	22	37
Sgiliau TG proffesiynol	20	26
Iechyd a diogelwch	19	13
Sgiliau llythrennedd	17	22
Cymorth cyntaf	9	6
Hylendid/hylendid bwyd	5	4
CGC	3	3
Cysylltiedig â/penodol i swydd	3	3
Gofal/amddiffyn plant	3	N/A

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol 3% neu fwy. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.



**Tabl 27: Mathau o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad.**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth					Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adelidau	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy	
Heb ei phwysoli	1,252	293	157	467	270	**67	234	111	236	253	351	446	410	396	
Wedi'i phwysoli	1,132	256	155	423	254	21	148	35	293	242	392	734	245	153	
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	
Sgiliau technegol/ ymarferol eraill	51	46	51	49	59	58	66	48	46	54	47	47	55	64	
Sgiliau rheoli	44	49	37	45	40	25	36	39	37	37	58	36	55	67	
Sgiliau cyfathrebu	35	33	22	41	32	16	30	40	38	27	40	30	41	47	
Sgiliau gweithio mewn tîm	34	34	24	37	35	13	33	36	38	27	38	31	39	43	
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	33	31	31	33	36	40	35	23	23	38	38	30	35	44	
Sgiliau trin cwsmeriaid	32	33	23	38	26	15	25	42	44	31	26	30	33	40	
Sgiliau datrys problemau	31	33	22	34	30	16	29	28	34	27	33	29	32	41	
Defnyddio rhifau	22	24	22	22	22	14	21	15	21	20	27	21	24	24	

**Tabl 27: Mathau o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad. (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1,252	293	157	467	270	**67	234	111	236	253	351	446	410	396
Wedi'i phwysoli	1,132	256	155	423	254	21	148	35	293	242	392	734	245	153
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau TG proffesiynol	20	15	19	22	22	21	17	11	15	22	24	17	23	26
Iechyd a diogelwch	19	23	19	19	17	18	28	16	23	11	19	18	21	21
Sgiliau llythrennedd	17	21	15	16	18	7	16	11	11	7	29	14	23	21
Cymorth cyntaf	9	11	8	10	6	6	8	8	7	3	14	7	14	11
Hylandid/hylandid bwyd	5	5	13	2	4	1	1	-	10	*	6	5	6	4
CGC	3	2	3	2	4	1	3	-	1	1	5	2	2	5
Cysylltiedig â/penodol i swydd	3	4	1	3	2	3	8	2	*	3	4	2	3	6
Gofal/amddiffyn plant	3	4	3	2	3	-	-	1	-	*	8	3	3	1
Arall	11	15	10	11	9	7	9	12	7	10	17	11	12	14



**Tabl 28: Mathau o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd yn ôl y math o sefydliad a'i natur**

	Cyfanswm	Y math o sefydliad			Natur y sefydliad		
		Preifat	Cyhoeddus	Arall	Un safle	Prif swyddfa sefydliad amlsafle	Amlsafle (nid prif swyddfa sefydliad amlsafle)
Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd hyfforddiant allan o'r gwaith yn y 12 mis diwethaf							
Heb ei phwysoli	1,252	886	265	**96	622	169	458
Wedi'i phwysoli	1,132	785	221	124	650	107	373
	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	51	53	48	46	51	61	49
Sgiliau rheoli	44	36	64	60	33	62	57
Sgiliau cyfathrebu	35	30	46	45	26	40	47
Sgiliau gweithio mewn tîm	34	32	41	39	26	39	47
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	33	28	50	36	33	40	32
Sgiliau trin cwsmeriaid	32	32	33	31	23	35	47
Sgiliau datrys problemau	31	29	37	35	26	31	40
Defnyddio rhifau	22	19	39	18	22	20	24
Sgiliau TG proffesiynol	20	16	36	18	22	21	16
Iechyd a diogelwch	19	19	18	22	19	18	21
Sgiliau llythrennedd	17	11	42	11	18	14	17
Cymorth cyntaf	9	9	10	8	8	6	12
Hylendid/hylendid bwyd	5	5	3	5	5	2	5
CGC	3	3	3	*	2	7	3
Cysylltiedig â/penodol i swydd	3	3	4	-	3	6	3
Gofal/amddiffyn plant	3	2	3	9	4	2	2
Arall	11	9	16	17	10	14	13

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100).

### 3.3.2 Mathau o hyfforddiant allan o'r gwaith a gynigiwyd yn ôl grŵp galwedigaethol

Ar ôl ymchwilio i'r mathau o hyfforddiant yn y gwaith yn ôl gwahanol alwedigaethau o fewn pob sefydliad, aeth yr arolwg ymlaen i drafod hyfforddiant allan o'r gwaith. Unwaith eto, oherwydd cyfyngiadau ar hyd yr holiadur, roedd y rhaglen a sefydlwyd ar gyfer y cyfweliad yn cyfuno pob categori o alwedigaeth ar bob safle ac wedyn yn dewis ar hap ddwy alwedigaeth i'r ymatebwr. Wedyn, gofynnodd y cyfwelydd i'r ymatebwr ystyried dau categori galwedigaethol a gofynnodd iddynt ba fathau penodol o hyfforddiant allan o'r gwaith a gynigiwyd i bob un. Mae tabl 29 yn crynhoi'r holl ymatebion am bob grŵp galwedigaethol. Wrth archwilio'r data ar gyfer pob grŵp galwedigaethol, daw'r canlynol yn amlwg:

Yn achos rheolwyr ac uwch-reolwyr yn benodol, sgiliau rheoli oedd y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf (28%), yn ôl y disgwyl. Roedd rhyw un o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill (22%), sgiliau gweithio mewn tîm (21%), sgiliau trin cwsmeriaid (20%), sgiliau datrys problemau (20%) a sgiliau cyfathrebu (19%).

Yn achos galwedigaethau cysylltiol proffesiynol, hyfforddiant sgiliau technegol/ymarferol eraill a ddarparwyd amlaf (35%), ac wedyn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (21%) a sgiliau cyfathrebu (20%). Roedd rhyw un o bob chwech wedi darparu hyfforddiant gweithio mewn tîm (17%), ymdrin â chwsmeriaid (16%) neu sgiliau rheoli (15%). Roedd un o bob wyth wedi darparu hyfforddiant mewn llythrennedd (13%), sgiliau TG proffesiynol (13%) neu ddatrys problemau (12%).

Roedd chwarter wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG i staff gweinyddol/ysgrifenyddol (24%). Llai na dau o bob deg oedd wedi

darparu hyfforddiant mewn sgiliau gweithio mewn tîm (16%), sgiliau technegol/ymarferol eraill (15%), sgiliau cyfathrebu (15%), sgiliau datrys problemau (14%), sgiliau TG proffesiynol (13%) a sgiliau trin cwsmeriaid (13%).

Y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf i alwedigaethau crefft medrus oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (29%). Darparodd un o bob chwech hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (17%) ac roedd ymron i gynifer wedi darparu hyfforddiant cyfathrebu neu sgiliau datrys problemau (15% yr un). Roedd un o bob deg wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (11%) neu sgiliau trin cwsmeriaid (10%).

Yn achos galwedigaethau gwasanaethau personol, roedd y gyfran uchaf o ymatebwyr wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith mewn sgiliau gweithio mewn tîm (28%). Roedd ychydig dros un o bob bump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu (23%), sgiliau llythrennedd (22%) neu sgiliau trin cwsmeriaid (21%). Roedd llai na dau o bob deg wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau datrys problemau (18%), mewn sgiliau technegol neu ymarferol eraill (16%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (14%) ac mewn sgiliau defnyddio rhifau (14%).

Y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf i alwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid oedd sgiliau trin cwsmeriaid (32%). Roedd rhyw chwarter wedi darparu hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (26%), sgiliau cyfathrebu (24%) neu sgiliau datrys problemau (23%). Roedd un o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli (20%) and un o bob saith (15%) mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill.

Dim ond un math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd gydag unrhyw fynychder i weithwyr proses/offer/peiriannau: roedd dros chwarter (27%) y sefydliadau wedi darparu



hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill. Roedd llai nag un o bob deg wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (8%), sgiliau gweithio mewn tîm (7%) ac mewn sgiliau cyfathrebu neu reoli (6%), ac ni chrybwyllwyd yr un ateb arall gan fwy na 5%.

Roedd y sefyllfa'n debyg yn achos galwedigaethau elfennol. Roedd un o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol neu ymarferol eraill (19%) a rhyw un o bob deg wedi darparu hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (12%), sgiliau cyfathrebu (11%) a sgiliau trin cwsmeriaid (10%). Sgiliau datrys problemau (9%) oedd yr unig fath arall o hyfforddiant a ddarparwyd gan fwy na 5%. O gymharu'r data ar draws grwpiau galwedigaethol, daw'r canlynol yn amlwg:

Cafodd gweithwyr proses/offer/peiriannau yn ogystal â galwedigaethau elfennol lai o fathau o hyfforddiant allan o'r gwaith na galwedigaethau eraill. Er bod y cyfrannau yn y ddau grŵp hwn a gafodd ddim hyfforddiant o gwbl yn cymharu â'r galwedigaethau eraill, mae'r mynychder isel ar draws y gwahanol fathau o hyfforddiant yn awgrymu mai dim ond un neu ddau o fathau o hyfforddiant a oedd ar gael ar y cyfan.

Staff gweinyddol/ysgrifenyddol a galwedigaethau crefft medrus hefyd oedd fwyaf tebygol o fod heb gael dim hyfforddiant allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (dywedodd 47% o'r sefydliadau fod hyn yn wir i'r ddwy alwedigaeth).

Cynigiwyd hyfforddiant sgiliau rheoli allan o'r gwaith gan gyfran uwch o'r sefydliadau i'w rheolwyr/uwch-reolwyr, gweithwyr proffesiynol cysylltiol a galwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid hefyd na grwpiau galwedigaethol eraill.

Cynigiwyd hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill sy'n gysylltiedig â'r swydd i weithwyr proffesiynol and

gweithwyr proffesiynol cysylltiol mewn mwy o sefydliadau nag unrhyw grŵp galwedigaethol arall.

Mae tabl 30 yn dangos data tabl 30 mewn ffordd wahanol. Mae'n canolbwyntio ar bum prif ymateb pob grŵp galwedigaethol yn unig. Ar bob math o hyfforddiant mae'r label dwysedd uchel (20% o'r ymatebwyr o leiaf yn ei grybwyll), dwysedd canolig (rhwng 10 ac 20% o'r ymatebwyr yn ei grybwyll) neu ddwysedd isel (llai na 10% o'r ymatebwyr yn ei grybwyll). Mae'r tabl hwn yn caniatáu i ni ganolbwyntio ar a) beth yw'r ffurfiau mwyaf cyffredin o hyfforddiant ym mhob galwedigaeth; a b) o ystyried ei fod yn un o'r prif bump, pa gyfran o sefydliadau sy'n ei ddarparu.

Mae tabl 30 yn dangos, er enghraifft, mai'r pum prif fath o hyfforddiant i reolwyr ac uwchreolwyr yw; sgiliau technegol/ymarferol eraill; sgiliau rheoli; sgiliau gweithio mewn tîm; sgiliau trin cwsmeriaid a sgiliau datrys problemau; ac maent oll yn rhai dwysedd uchel (h.y. cânt eu darparu i reolwyr mewn 20% o'r sefydliadau o leiaf). Fodd bynnag, os edrychwn ar grŵp galwedigaethau crefft medrus, mae'r tabl yn dangos y pum prif fath o hyfforddiant a grybwyllwyd, ond gallwn weld mai dim ond un (sgiliau technegol/ymarferol) a nodwyd fel dwysedd uchel (ei ddarparu gan 20% o'r sefydliadau o leiaf).



**Tabl 29: Mathau o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd, yn ôl dosbarthiad galwedigaethol**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddarparodd hyfforddiant allan o'r gwaith yn y 12 mis diwethaf a chanddynt bob math o alwedigaeth ar y safle	Galwedigaeth								
	Rheolwyr/ uwchreolwyr	Galwedigaethau proffesiynol	Proffesiynol cysylltiol	Gweinyddol/ ysgrifenyddol	Crefft medrus	Galwedigaethau gwasanaethau personol	Galwedigaethau gwerthu/ gwasanaeth cwsmeriaid	Gweithwyr proses/offer/peiriannau	Galwedigaethau elfennol
Heb ei phwysoli	763	291	156	427	226	128	180	**91	171
Wedi'i phwysoli	760	277	129	346	200	132	167	59	112
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	22	30	35	15	29	16	15	27	19
Sgiliau rheoli	28	23	15	10	6	12	20	6	3
Sgiliau cyfathrebu	19	21	20	15	15	23	24	6	11
Sgiliau gweithio mewn tîm	21	21	17	16	17	28	26	7	12
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	17	19	21	24	11	14	10	8	4
Sgiliau trin cwsmeriaid	20	14	16	13	10	21	32	4	10
Sgiliau datrys problemau	20	23	12	14	15	18	23	5	9
Defnyddio rhifau	13	14	11	8	8	14	12	5	5
Sgiliau TG proffesiynol	9	16	13	13	5	11	2	3	1
Sgiliau llythrennedd	8	15	13	4	6	22	6	5	4
Arall	34	44	35	20	30	47	27	40	29
Dim hyfforddiant allan o'r gwaith wedi'i ddarparu i'r grŵp hwn yn y flwyddyn ddiwethaf	31	18	28	47	37	29	44	38	38

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ni ddangosir yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100).





**Tabl 30: Blaenoriaethau a mynychder hyfforddiant allan o'r gwaith pob dosbarthiad galwedigaethol**

Grŵp galwedigaethol	Pum prif fath o hyfforddiant a ddarperir	% y sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant
Rheolwyr/uwchreolwyr	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau rheoli Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau trin cwsmeriaid Sgiliau datrys problemau	Uchel Uchel Uchel Uchel Uchel
Galwedigaethau proffesiynol	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau cyfathrebu Sgiliau rheoli Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau datrys problemau	Uchel Uchel Uchel Uchel Uchel
Proffesiynol cysylltiol	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau cyfathrebu Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau trin cwsmeriaid Sgiliau defnyddwyr TG	Uchel Uchel Canolig Uchel Uchel
Gweinyddol/ysgrifenyddol	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau cyfathrebu Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau defnyddwyr TG Sgiliau datrys problemau	Canolig Canolig Canolig Uchel Canolig
Crefft medrus	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau cyfathrebu Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau defnyddwyr TG Sgiliau datrys problemau	Uchel Canolig Canolig Canolig Canolig
Galwedigaethau gwasanaethau personol	Sgiliau cyfathrebu Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau trin cwsmeriaid Sgiliau datrys problemau Sgiliau llythrennedd	Uchel Uchel Uchel Canolig Uchel
Galwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid	Sgiliau cyfathrebu Sgiliau rheoli Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau trin cwsmeriaid Sgiliau datrys problema	Uchel Uchel Canolig Uchel Uchel

**Tabl 30: Blaenoriaethau a mynychder hyfforddiant allan o'r gwaith pob dosbarthiad galwedigaethol (Parhad)**

Grŵp galwedigaethol	Pum prif fath o hyfforddiant a ddarperir	% y sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant
Gweithwyr proses/offer/peiriannau**	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau cyfathrebu Sgiliau rheoli Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau defnyddwyr TG	Uchel Isel Isel Isel Isel
Elementary occupations	Sgiliau technegol/ymarferol eraill Sgiliau cyfathrebu Sgiliau gweithio mewn tîm Sgiliau trin cwsmeriaid Sgiliau datrys problemau	Canolig Canolig Canolig Canolig Isel


### 3.4 Mathau o hyfforddiant a gynllunnir ar gyfer y flwyddyn nesaf

Archwiliodd y cyfweiliadau â'r ymatebwyr fanylion ynghylch pa hyfforddiant roedd y sefydliad yn bwriadu ei ddarparu i weithwyr yn y flwyddyn nesaf. O'r mathau gwahanol o hyfforddiant – gan gynnwys yn y gwaith ac allan o'r gwaith – yr hyfforddiant a grybwyllwyd amlaf oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (45%). Crybwyllodd ychydig yn llai o'r ymatebwyr hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (43%), sgiliau trin cwsmeriaid (41%) neu sgiliau cyfathrebu (39%); ac roedd ychydig dros draean yn bwriadu darparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli (37%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (36%) neu sgiliau datrys problemau (36% yr un). Crybwyllodd ychydig yn llai na chwarter hyfforddiant defnyddio rhifau (23%) neu sgiliau TG proffesiynol (22%), ac ni chrybwyllwyd yr un ateb arall gan fwy nag un o bob pump.

Fel yn achos cymaint o feysydd yn yr arolwg, dangosodd nifer y gweithwyr mewn sefydliad wahaniaeth cyson rhwng is-grwpiau yn y mathau o hyfforddiant a gynllunnir ar gyfer y 12 mis nesaf: roedd sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr yn debycach o fwriadu darparu pob math o hyfforddiant (gweler tabl 32). Eto, roedd sector yn newidyn gwahaniaethol ynddo'i hun: roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn debycach o fod yn cynllunio hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (61%), sgiliau cyfathrebu (52%), sgiliau rheoli (57%), sgiliau datrys problemau (46%) a sgiliau llythrennedd (28%). Roeddent hefyd ymysg y mwyaf tebygol o sôn am hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill (50%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (48%) a sgiliau TG proffesiynol (34%). Roedd sefydliadau a oedd yn ymwneud â chyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytaï yn fwy tebygol o fod yn cynllunio hyfforddiant mewn sgiliau trin cwsmeriaid (48%).



## Siart 14: Mathau o hyfforddiant a gynllunnir ar gyfer y flwyddyn nesaf



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (2,059 heb ei phwysoli, 2,059 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy ar y siart.

**Tabl 31: Mathau o hyfforddiant a gynllunnir am y flwyddyn nesaf yn ôl sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/ gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	0-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	45	34	54	37	37	52	50	40	55	72
Sgiliau gweithio mewn tîm	43	14	37	35	41	36	61	37	58	68
Sgiliau trin cwsmeriaid	41	12	32	39	48	39	42	37	50	58
Sgiliau cyfathrebu	39	13	28	31	41	33	52	34	48	64
Sgiliau rheoli	37	16	28	26	32	35	57	29	54	69
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	36	24	30	32	25	52	48	32	44	57
Sgiliau datrys problemau	36	11	29	28	35	36	46	31	44	58
Defnyddio rhifau	23	7	21	16	24	17	29	20	27	34
Sgiliau TG proffesiynol	22	12	18	13	11	32	34	19	24	35
Sgiliau llythrennedd	17	5	14	12	16	11	28	14	22	32
Iechyd a diogelwch	7	4	11	3	6	4	8	6	7	13
Cymorth cyntaf	3	1	2	2	3	1	4	3	3	3
Arall	7	2	5	7	4	7	15	7	9	11
Dim un o'r rhain	17	39	22	26	23	12	4	20	8	4
Ddim yn gwybod	8	8	7	9	9	6	8	9	6	5

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol 3% neu fwy yn y siart.



Roedd sefydliadau amlsafle yn debycach o grybwyll sgiliau gweithio mewn tîm (58%), sgiliau datrys problemau (49%), ymdrin â chwsmeriaid (53%) neu sgiliau cyfathrebu (53%), ac roedd prif swyddfeydd sefydliadau amlsafle yn benodol yn debycach o gynllunio i ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill (61%), sgiliau TG proffesiynol (34%) ac iechyd a diogelwch (12%). Roedd is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle yn debycach o gynllunio i ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli (51%).

Caiff hyfforddiant a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf effaith ar yr hyfforddiant a gynllunnir am y 12 mis nesaf. Roedd sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith yn arwyddocaol fwy tebygol o fod yn cynllunio pob un o'r gwahanol fathau o hyfforddiant. Roedd sefydliadau a oedd heb gynllunio unrhyw hyfforddiant yn y gwaith nac allan o'r gwaith o'r blaen yn arwyddocaol lai tebygol o fod yn cynnig unrhyw beth yn y dyfodol: mewn gwirionedd, dywedodd pedwar o bob deg (41%) o'r grŵp hwn nad oeddent yn cynllunio unrhyw beth ar gyfer y 12 mis nesaf (o'i gymharu â dim ond 8% o'r sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith). Eglurodd adrannau 4.2 a 4.3 broffil y sefydliadau sydd leiaf tebygol o fod yn cynnig unrhyw hyfforddiant o gwbl.

### 3.5 Anawsterau a gafwyd wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol

Dangosodd yr ymatebion i'r holiadur mewn perthynas ag anawsterau wrth ddarparu hyfforddiant y dywedodd bron i un o bob deg (9%) o'r sefydliadau yn y panel eu bod wedi cael peth anhawster dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd dros ddau o bob tri na chawsant unrhyw anhawster (68%), tra dywedodd dros ddau o bob deg (22%) nad oeddent wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf yr oedd angen asiantaeth neu ddarparwr allanol ar ei gyfer.

Unwaith eto, un gwahaniaeth amlwg rhwng is-grwpiau oedd yn ôl nifer y gweithwyr: roedd un o bob wyth (12%) o gwmnïau a chanddynt 10 neu fwy o staff wedi cael anawsterau, o'u cymharu ag un o bob pedwar ar ddeg (7%) o'r sefydliadau a chanddynt hyd at 9 o weithwyr. Y sefydliadau llai oedd fwyaf tebygol o beidio â bod angen darparwyr hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf (27%). Sefydliadau mewn gweinyddiaeth gyhoeddus oedd debycaf o fod wedi cael anawsterau (15%).

**Tabl 32: Mathau o hyfforddiant a gynllunnir yn y flwyddyn nesaf yn ôl yr hyfforddiant a ddarparwyd yn y flwyddyn ddiwethaf**

Sylfaen:Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd yn y 12 mis diwethaf	Hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd yn y 12 mis diwethaf	Hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith a ddarparwyd yn y 12 mis diwethaf	Ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant o gwbl yn y 12 mis diwethaf
Heb ei phwysoli	2,059	420	232	1,020	381
Wedi'i phwysoli	2,059	486	238	893	436
	%	%	%	%	%
Sgiliau technegol/ymarferol eraill	45	40	41	60	24
Sgiliau gweithio mewn tîm	43	46	38	56	16
Sgiliau trin cwsmeriaid	41	48	29	50	23
Sgiliau cyfathrebu	39	41	33	50	16
Sgiliau rheoli	37	33	30	52	14
Sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG	36	33	37	47	18
Sgiliau datrys problemau	36	36	30	47	15
Defnyddio rhifau	23	26	24	26	12
Sgiliau TG proffesiynol	22	18	22	28	12
Sgiliau llythrennedd	17	20	16	20	8
Iechyd a diogelwch	7	7	9	7	5
Cymorth cyntaf	3	1	4	3	2
Arall	7	7	5	11	2
Dim un o'r rhain	17	15	14	8	41
Ddim yn gwybod	8	10	8	5	12

Nodyn: Cwestiwn amlymateb.



**Tabl 33: Anhawster i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl maint a natur y sefydliad**

	Cyfanswm	Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)			Natur y sefydliad		
		2-9	10-24	25 neu fwy	Un safle	Prif swyddfa sefydliad amlsafle	Amlsafle (nid prif swyddfa sefydliad amlsafle)
<b>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr</b>							
Sylfaen heb ei phwysoli	2,059	1,005	583	471	1,205	244	606
Sylfaen wedi'i phwysoli	2,059	1,535	342	182	1,338	173	546
	%	%	%	%	%	%	%
Do, wedi cael anhawster	9	7	12	12	8	17	8
Naddo, heb gael unrhyw anhawster	68	64	78	82	63	69	79
Naddo, heb gynllunio unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf	22	27	9	5	29	13	10
Ddim yn gwybod	1	2	1	1	1	2	3

**Tabl 34: Anhawster i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl sector**

	Cyfanswm	Sector					
		Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/ gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus
<b>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr</b>							
Sylfaen heb ei phwysoli	2,059	196	393	253	446	352	419
Sylfaen wedi'i phwysoli	2,059	63	312	86	729	386	482
	%	%	%	%	%	%	%
Do, wedi cael anhawster	9	5	10	6	4	9	15
Naddo, heb gael anhawster	68	47	59	64	65	73	76
Naddo, heb gynllunio unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf	22	48	29	30	29	17	7
Ddim yn gwybod	1	-	2	1	1	1	2

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Mae - yn dynodi sero.






Gofynnwyd wedyn i'r nifer fechan o sefydliadau a gafodd beth anhawster yn y flwyddyn ddiwethaf wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol pa fath o anghenion hyfforddi y cawsant anhawster yn eu bodloni. Cwestiwn ymateb agored oedd hwn, ac mae siart 18 yn rhoi crynodeb o'r ymatebion air am air gan ddefnyddio ffrâm cod a luniwyd o atebion y cyflogwyr. Yr ateb a roddwyd amlaf oedd TG/cyfrifiaduraeth (14%). Dywedodd un

o bob deg arall (11%) eu bod wedi cael peth anhawster naill ai gydag CGC a/neu hyfforddiant cysylltiedig â swydd neu benodol i swydd. Crybwyllodd un o bob deuddeg hyfforddiant technegol/ymarferol neu gyllid/cyfrifyddu (8% yr un) a chrybwyllodd un o bob dau ar bymtheg (6%) iechyd a diogelwch.

Roedd y sampl yn rhy fach i unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau fod yn arwyddocaol.

### Siart 15: Anghenion hyfforddi y cafwyd anhawster i'w bodloni drwy ddarparwyr allanol




Sylfaen: Pawb a gafodd anhawster wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol (189 heb ei phwysoli, 175 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlmateb. Dangosir ymatebion cyffredinol 3% neu fwy.

Gofynnwyd i'r un ymatebwyr hefyd beth ddigwyddodd o ganlyniad i'w hanawsterau wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol. Rhoddwyd un ateb yn llawer amlach nag unrhyw un arall: dywedodd dros bedwar o bob deg (43%) iddynt beidio ag ymgymryd â'r math hwnnw o hyfforddiant o ganlyniad. Dywedodd chwarter eu bod wedi ceisio darparwr hyfforddiant arall y tu allan i'r ardal (24%) ac roedd un o bob chwech wedi rheoli a gweinyddu'r hyfforddiant yn fewnol (17%).

Eto, roedd y sylfaen yn rhy fach i unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau fod yn arwyddocaol.

### Siart 16: Beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r anawsterau?



Sylfaen: Pawb a gafodd anhawster wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol (189 heb ei phwysoli, 175 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlmateb. Dangosir ymatebion cyffredinol 4% a mwy.



### 3.6 Canran y trosiant/cyllideb ariannol a wariwyd ar hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf

Gofynnwyd i'r sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant naill ai yn y gwaith neu allan o'r gwaith pa ganran o'u trosiant/cyllideb ariannol a wariwyd, yn ôl eu hamcangyfrif nhw, ar hyfforddiant naill ai yn y gwaith neu allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd bron i hanner (47%) y gwariwyd 1-5% o'u trosiant/cyllideb ariannol, roedd llai nag un o bob deg (8%) wedi gwario rhwng 6 a 10%; a dim ond 3% a wariodd fwy na hyn. Dywedodd un o bob chwech eu bod heb wario dim ar hyfforddiant (18%) a dywedodd dros ddau o bob deg (22%) nad oedden nhw'n gwybod.

Roedd y gyfran a wariwyd ar hyfforddiant ar eu huchaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus: dywedodd un o bob ugain (5%) ei bod dros 10% a dywedodd un o bob deg (12%) arall ei bod rhwng 6-10%. Serch hynny, yr ymatebwyr yn y sector hwn oedd fwyaf tebygol o beidio â gwybod (32%). Roedd yr un peth yn wir am y sector cyhoeddus yn gyffredinol, gydag un o bob saith (14%) yn dweud ei bod dros 5% a thros draean (36%) ddim yn gwybod.

Yn achos prif swyddfeydd sefydliadau amlsafle, dywedodd 7% ei bod yn 11% neu'n fwy a dywedodd un o bob deg (11%) ei bod rhwng 6 a 10% – ond y rhai mewn is-swyddfeydd oedd debycach o beidio â gwybod (36%).

Roedd y rhai mewn amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (26%), cyfleustodau (26%) a chyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (29%) yn fwy tebygol o ddweud na wariwyd dim o'u trosiant/cyllideb ariannol ar hyfforddiant, fel yr oedd sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr (23%) a'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith yn unig (30%).

### 4.7 Newidiadau mewn buddsoddiad mewn hyfforddiant dros y tair blynedd diwethaf

Gofynnwyd hefyd i sefydliadau a ddarparai naill ai hyfforddiant yn y gwaith neu allan o'r gwaith a oeddent yn buddsoddi mwy neu lai y pen nag a wnaethant dair blynedd yn ôl, neu tua'r un faint. Dywedodd y gyfran fwyaf eu bod yn gwario mwy (37%), a dywedodd bron i gynifer eu bod yn gwario tua'r un peth (34%). Dim ond 6% a ddywedodd eu bod yn gwario llai a dywedodd un o bob deg (10%) nad oeddent wedi bod yn weithredol am 3 blynedd.

Roedd y gyfran a ddywedodd fod canran eu trosiant/cyllideb ariannol a wariwyd ar hyfforddiant yn uwch nag yr oedd dair blynedd yn ôl yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd yng ngogledd Cymru (44%) a de-ddwyrain Cymru (40%). Wrth gymharu sectorau, roedd y ganran hon ar ei huchaf ymysg cyllid/gwasanaethau busnes (47%) ac, o lawer mwy, ymysg sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (54%) neu'r rhai wedi'u lleoli ym mhrif swyddfa sefydliad amlsafle (55%). Roedd hefyd yn uwch ymysg sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (45%).

Gweinyddiaeth gyhoeddus oedd y sector a oedd fwyaf tebygol o ddweud bod buddsoddiad mewn hyfforddiant wedi gostwng (11%), yn ogystal â'r sector cyhoeddus yn gyffredinol (15%). Roedd hefyd ychydig yn uwch ymysg sefydliadau a sefydlwyd dros 10 mlynedd yn ôl (9%).

**Tabl 35: Canran y trosiant/cyllideb ariannol (amcangyfrif) a wariwyd ar hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1,672	409	202	623	356	**85	319	184	374	312	398	668	545	459
Wedi'i phwysoli	1,618	381	218	614	346	27	219	60	547	317	448	1,117	323	178
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Dim	18	14	19	22	17	26	19	26	29	9	11	23	11	6
1-5%	47	44	49	44	54	50	62	46	41	58	39	47	46	44
6-10%	8	9	9	8	5	5	5	7	6	10	12	8	9	11
11% neu fwy	3	4	2	4	3	3	3	2	4	2	5	3	3	6
Ddim yn gwybod	22	28	18	20	19	16	13	16	19	21	32	18	29	30
Gwrthodwyd	1	1	2	2	1	-	-	3	2	1	2	1	2	3

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100). Mae - yn dynodi sero.



**Tabl 36: A fuddsoddwyd mwy neu lai y pen ar hyfforddiant na thair blynedd yn ôl, neu tua'r un faint, yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1,672	409	202	623	356	85	319	184	374	312	398	668	545	459
Wedi'i phwysoli	1,618	381	218	614	346	27	219	60	547	317	448	1,117	323	178
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Mwy	37	44	28	40	30	32	43	37	28	47	40	33	42	54
Llai	6	7	7	5	8	4	5	3	3	6	11	5	9	7
Tua'r un faint	34	26	38	35	41	54	35	41	41	29	27	37	31	27
Heb fod yn weithredol am 3 blynedd	10	8	8	11	11	4	9	6	12	10	8	12	6	3
Ddim yn gwybod	12	15	19	9	11	6	8	13	15	9	14	13	13	9


Nodyn: Cwestiwn un ymateb.

### 3.8 Dylanwad prif swyddfa sefydliadau amlsafle ar benderfyniadau ynghylch hyfforddiant

Gofynnwyd i sefydliadau o nodwyd fel is-swyyddfeydd sefydliadau amlsafle i ba raddau roedd eu prif swyddfa'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch hyfforddiant ar eu safle. Dywedodd y mwyafrif llethol o is-swyyddfeydd fod eu prif swyddfa'n dylanwadu arnynt naill ai'n 'gyfan gwbl' (38%) neu'n 'rhannol' (42%).

Roedd y tebygolrwydd y byddai prif swyddfa sefydliad amlsafle yn ei reoli'n gyfan gwbl yn llawer mwy yn y sector cyhoeddus (44%) o'i gymharu â'r sector preifat (38%). Roedd rheolaeth o brif swyddfa sefydliad amlsafle yn arwyddocaol is ymysg sefydliadau a chanddynt o leiaf 25 o weithwyr (29% o'i gymharu â 40% o'r band maint 2-9 o weithwyr).


**Siart 17: Dylanwad prif swyyddfeydd sefydliadau amlsafle ar benderfyniadau ynghylch hyfforddiant ar safle yn ôl y math o sefydliad**



Sylfaen: Pawb y mae eu sefydliad yn un amlsafle (606 heb ei phwysoli, a 546 wedi'i phwysoli). Cwestiwn un ymateb.



**Siart 18: I ba raddau y mae prif swyddfa sefydliad amlsafle yn dylanwadu ar benderfyniadau mewn perthynas â hyfforddiant ar y safle, yn ôl band maint**



Sylfaen: Pawb y mae eu sefydliad yn un amlsafle (606 heb ei phwysoli, a 546 wedi'i phwysoli). Cwestiwn un ymateb.

### 3.9 Crynodeb

Roedd dau o bob tri o'r sefydliadau yn y panel wedi darparu hyfforddiant yn y gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf (67%). Y rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (91%), mewn is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle (82%) a gweinyddiaeth gyhoeddus (79%) neu'r sector cyhoeddus (79%) oedd y mwyaf tebygol o roi'r ateb hwn.

Y math mwyaf cyffredin o hyfforddiant yn y gwaith a ddarparwyd oedd hyfforddiant sgiliau technegol/ymarferol eraill (70%). Roedd tri o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau trin cwsmeriaid (60%) neu sgiliau gweithio mewn tîm (59%) ac ychydig dros hanner mewn sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (54%), sgiliau cyfathrebu (53%) neu sgiliau datrys problemau (51%). I'r mwyafrif o'r rhain, roedd sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr, is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle neu'r sector cyhoeddus yn debycach o fod wedi darparu hyfforddiant. Yn achos hyfforddiant mewn cyfathrebu, ymdrin â chwsmeriaid, gweithio mewn tîm, datrys problemau a defnyddio rhifau, roedd hyfforddiant yn fwy tebygol o fod wedi'i ddarparu gan y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai. Roedd ymatebwyr ym maes cyllid/gwasanaethau busnes yn fwy tebygol o fod wedi darparu sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG a sgiliau TG proffesiynol; roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy tebygol o fod wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli, sgiliau llythrennedd a chymorth cyntaf.

Y math o hyfforddiant yn y gwaith a oedd fwyaf tebygol o gael ei ddarparu i reolwyr ac uwchreolwyr oedd sgiliau gweithio mewn tîm (36%), ac wedi hynny ymdrin â chwsmeriaid (34%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (33%) a sgiliau datrys problemau (33%).

Yn achos galwedigaethau proffesiynol, sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (47%) neu sgiliau technegol/ymarferol eraill (46%) oedd debycaf,

ac wedi hynny sgiliau gweithio mewn tîm (40%). Yn achos galwedigaethau cysylltiol proffesiynol, sgiliau technegol/ymarferol eraill (52%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (47%), sgiliau cyfathrebu neu sgiliau gweithio mewn tîm (39% yr un) oedd fwyaf tebygol o gael ei ddarparu.

Yn achos staff gweinyddol/ysgrifenyddol, y math o hyfforddiant a ddarparwyd amlaf oedd sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (52%), ac wedi hynny sgiliau technegol/ymarferol eraill neu sgiliau trin cwsmeriaid (36% yr un). Yr hyfforddiant a oedd fwyaf tebygol o gael ei ddarparu i alwedigaethau crefftau medrus oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (46%), gyda rhyw draean yn darparu hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (36%) a sgiliau datrys problemau (33%). Roedd dros hanner wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau gweithio mewn tîm i alwedigaethau gwasanaeth personol (55%) ac ychydig dan hanner, sgiliau cyfathrebu (49%) a sgiliau trin cwsmeriaid (45%). Yn achos galwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid, roedd bron i dri chwarter wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau trin cwsmeriaid (72%) a thros hanner wedi darparu hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (59%) a sgiliau cyfathrebu (52%).

Sgiliau technegol/ymarferol eraill oedd y math mwyaf cyffredin o hyfforddiant i weithwyr proses/offer/peiriannau (54%), ac wedi hynny sgiliau gweithio mewn tîm (33%). Yn achos galwedigaethau elfennol, yr hyfforddiant mwyaf cyffredin oedd sgiliau gweithio mewn tîm (45%), ac yna ymdrin â chwsmeriaid (42%) a sgiliau technegol/ymarferol eraill (38%).

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55%) wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r tabl nesaf, tabl 38, yn dangos sut mae darpariaeth hyfforddiant allan o'r gwaith yn cymharu â darpariaeth hyfforddiant yn y gwaith yn ôl y prif newidynnau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.





**Tabl 37: Cymharu mathau o hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Darparu hyfforddiant yn y gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf	67	74	64	65	64	23	60	59	65	70	79	60	86	91
Darparu hyfforddiant allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf	55	55	53	53	58	34	47	41	40	63	81	48	72	84

Y canlynol yw'r prif bwyntiau i'w nodi:

- roedd bron cymaint o sefydliadau yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith ag a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith
- mae darpariaeth y ddau fath o hyfforddiant yn isel iawn yn y sector amaethyddiaeth/cloddio/chwarela
- roedd nifer y sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr sy'n darparu'r ddau fath o hyfforddiant yn drawiadol o wahanol i'r rhai a gyflogai 9 o weithwyr neu lai.
- roedd sefydliadau yng ngogledd Cymru yn arwyddocaol fwy tebygol o gynnig hyfforddiant yn y gwaith ond nid oeddent mor debygol o ddarparu hyfforddiant allan o'r gwaith.

Yn gyffredinol, y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (51%). Roedd rhyw dri ym mhob saith wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli (44%); a rhyw draean wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu (35%), sgiliau gweithio mewn tîm (34%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (33%) a sgiliau trin cwsmeriaid (32%). Yn achos hyfforddiant yn y gwaith, roedd sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr, is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle, a'r sector cyhoeddus hefyd, yn debycach o fod wedi darparu'r mwyafrif o fathau o hyfforddiant.

Yn achos rheolwyr ac uwchreolwyr yn benodol, sgiliau rheoli oedd y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf (28%), yn ôl y disgwyl, ac wedi hynny sgiliau technegol/ymarferol eraill (22%) a sgiliau gweithio mewn tîm (21%). Staff mewn galwedigaethau proffesiynol oedd debycaf o fod wedi cael hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill (30%), ac roedd chwarter (23%) wedi cael hyfforddiant mewn datrys problemau a sgiliau rheoli. Yn achos galwedigaethau cysylltiol proffesiynol, sgiliau technegol/ymarferol eraill a ddarparwyd amlaf (35%), ac wedi hynny sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG (21%) a sgiliau cyfathrebu (20%).

Roedd chwarter y sampl o sefydliadau wedi darparu hyfforddiant sgiliau TG defnyddwyr cyffredinol i staff gweinyddol/ysgrifenyddol (24%). Roedd cyfrannau sylweddol hefyd wedi darparu hyfforddiant gweithio mewn tîm (16%) cyfathrebu a sgiliau technegol/ymarferol eraill (15% yr un). Y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf i alwedigaethau crefft medrus oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (29%), ac wedi hynny sgiliau gweithio mewn tîm (17%), cyfathrebu neu sgiliau datrys problemau (15% yr un).

Yn achos galwedigaethau gwasanaethau personol, roedd y gyfran uchaf o ymatebwyr wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith mewn sgiliau gweithio mewn tîm (28%). Roedd ychydig dros un o bob pump wedi darparu hyfforddiant allan o'r gwaith mewn sgiliau cyfathrebu (23%), sgiliau llythrennedd (22%) neu sgiliau trin cwsmeriaid (21%). Y math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd amlaf i alwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid oedd sgiliau trin cwsmeriaid (32%). Roedd rhyw chwarter wedi darparu hyfforddiant sgiliau gweithio mewn tîm (26%), sgiliau cyfathrebu (24%) neu sgiliau datrys problemau (23%).

Dim ond un math o hyfforddiant allan o'r gwaith a ddarparwyd gydag unrhyw fynychder i weithwyr proses/offer/peiriannau: roedd dros chwarter (27%) wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol/ymarferol eraill. Yn achos galwedigaethau elfennol, roedd un o bob pump wedi darparu hyfforddiant mewn sgiliau technegol neu ymarferol eraill (19%), tra bod rhyw un o bob deg naill ai wedi darparu hyfforddiant gweithio mewn tîm (12%), sgiliau cyfathrebu (11%) neu sgiliau trin cwsmeriaid (10%).

Roedd y mwyafrif o sefydliadau (83%) yn cynllunio rhyw fath o hyfforddiant yn y flwyddyn nesaf. Y math o hyfforddiant a grybwyllwyd amlaf roedd sefydliadau yn cynllunio'i ddarparu i weithwyr yn y flwyddyn nesaf oedd sgiliau technegol/ymarferol eraill (45%). Crybwyllodd ychydig



yn llai sgiliau gweithio mewn tîm (43%), sgiliau trin cwsmeriaid (41%) neu sgiliau cyfathrebu (39%), ac roedd ychydig dros draean yn bwriadu darparu hyfforddiant mewn sgiliau rheoli (37%), sgiliau cyffredinol defnyddwyr TG neu sgiliau datrys problemau (36% yr un).

Caiff ymddygiad yn y gorffennol effaith ar fuddsoddiad mewn hyfforddiant yn y dyfodol. Roedd sefydliadau a ddarparai hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith yn debycach o gynllunio i ddarparu hyfforddiant yn y dyfodol. O ran proffiliau'r sefydliadau hyn, mae'r data'n dangos mai'r sefydliadau mwy sydd fwyaf tebygol o fod yn darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith.

Dyweddod bron i un o bob deg (9%) o'r sampl eu bod wedi cael anhawster dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol i fodloni eu hanghenion. Roedd hyn ychydig yn uwch i sefydliadau a chanddynt 10 neu fwy o staff, y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, prif swyddfeydd sefydliadau amlsafle, a'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith ill dau.

Yr angen am hyfforddiant yr effeithiwyd arno fwyaf gan anawsterau wrth ddod o hyd i ddarparwr oedd TG/cyfrifiaduraeth (14%), ac wedi hynny CGC a hyfforddiant cysylltiedig â/penodol i swydd (11% yr un). Y canlyniad mwyaf cyffredin oedd i'r ymatebwr beidio ag ymgymryd â'r math hwnnw o hyfforddiant (43%), iddynt chwilio am ddarparwr hyfforddiant arall y tu allan i'r ardal (24%), neu iddynt reoli a gweinyddu'r hyfforddiant yn fewnol (17%).

Amcangyfrifodd bron i hanner yr ymatebwyr eu bod wedi gwario rhwng 1% a 5% o'u trosiant/cyllideb ariannol ar hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf (47%), a dywedodd bron i un o bob deg (8%) fod y gwariant rhwng 6% a 10%; a dim ond 3% ei fod yn fwy na hynny. Roedd gweddill yr ymatebwyr heb wario unrhyw beth ar hyfforddiant (18%) neu ddim yn gwybod (22%). Roedd cyfran y gyllideb a

wariwyd ar hyfforddiant ar ei huchaf ym mhrif swyddfeydd sefydliadau amlsafle, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol; ond roedd yr olaf o'r rhain hefyd yn fwy tebygol o beidio â gwybod.

Roedd y rhai mewn amaethyddiaeth/cloddio/chwarela, cyfleustodau neu gyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai yn fwy tebygol o fod wedi gwario dim – fel yr oedd sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr, neu'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith yn unig.

Dyweddod dros draean o'r rhai a ddarparai hyfforddiant eu bod yn buddsoddi mwy mewn hyfforddiant na thair blynedd yn ôl (37%). Dywedodd bron gynifer eu bod yn buddsoddi tua'r un faint (34%) a dim ond 6% a ddywedodd eu bod yn gwario llai. Roedd y gyfran a ddywedodd eu bod yn gwario mwy yn arwyddocaol uwch:

- yng ngogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru
- ym maes cyllid/gwasanaethau busnes
- mewn sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr, a oedd yn brif swyddfa sefydliadau amlsafle, neu a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith ill dau.

Y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, neu'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, oedd fwyaf tebygol o ddweud bod eu buddsoddiad mewn hyfforddiant wedi gostwng.

Dyweddod y mwyafrif helaeth o'r rhai a weithiai mewn is-swyddfa i sefydliad amlsafle fod eu prif swyddfa'n dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch hyfforddiant ar eu safle – naill ai'n gyfan gwbl (38%) neu'n rhannol (42%). Roedd hyn yn debycach o fod yn gyfan gwbl yn y sector cyhoeddus ac mewn sefydliadau nad oeddent yn darparu hyfforddiant allan o'r gwaith ac yn llai tebygol o fod yn gyfan gwbl yn achos y rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr.

## 4.0 CYMORTH ARIANNOL A HELP A CHYNGOR A GAFWYD

### 4.1 Cyflwyniad

Ymchwiliodd yr arolwg i'r mathau gwahanol o gymorth ariannol a help a chyngor yr oedd sefydliadau wedi'u cael gyda hyfforddiant.

Ymdriniwyd â'r materion canlynol:

- cymorth ariannol a gafwyd ar gyfer hyfforddiant a ffynonellau a natur y cymorth hwnnw
- y mathau o gymorth ariannol a gafwyd ar gyfer hyfforddiant yn y 12 mis diwethaf
- help a chyngor a gafwyd ynghylch mynediad at hyfforddiant
- defnyddioldeb y cyngor a'r rhesymau dros unrhyw ddiffyg defnyddioldeb
- cyswllt presennol â darparwyr hyfforddiant yn yr ardal leol

### 4.2 Cymorth ariannol a gafwyd ar gyfer hyfforddiant, ffynonellau a natur y cymorth hwnnw

Mae'r adran hon yn trafod cymorth ariannol a gafwyd ar gyfer unrhyw fathau o hyfforddiant a gyflwynodd sefydliadau yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd cymorth ariannol yn cynnwys yma unrhyw gyllid o'r tu allan i'r sefydliad, gan gynnwys nawdd, hyfforddiant dan gymhorthdal neu grantiau gan y llywodraeth a gyflwynwyd drwy un o asiantaethau'r llywodraeth. Dim ond i'r sefydliadau hynny a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith neu allan o'r gwaith y gofynnwyd y cwestiynau yn yr adran hon.

Mae tabl 39 yn dangos bod ychydig dros chwarter y sefydliadau a ddarparodd naill ai hyfforddiant yn y gwaith neu allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cael cymorth ariannol ar gyfer yr hyfforddiant hwn (27%), tra bod dau o bob tri (66%) yn sicr nad oeddent wedi cael a bod 7% yn adrodd nad oeddent yn gwybod. Yn y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (14%) a chyfleustodau (18%) oedd y gyfran isaf o sefydliadau a gafodd gymorth ariannol, ac roedd yr uchaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (46%). Roedd y ffigur

olaf ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus yn gyson â'r canfyddiadau yn ôl 'y math o sefydliad', lle roedd ychydig dros draean (35%) o sefydliadau sector cyhoeddus wedi cael cymorth ariannol, o'i gymharu â bron i chwarter (24%) o'r rhai yn y sector preifat.

Gan edrych ar is-grwpiau eraill, roedd cael cymorth ariannol yn amlwg yn uwch ymysg sefydliadau mwy (roedd 41% o'r rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr wedi cael help o'r fath, o'i gymharu â 23% o'r rhai a chanddynt 2-9 o weithwyr). Ond dim ond os nodwyd bod y sefydliad yn brif swyddfa sefydliad amlsafle roedd hyn yn debygol o fod yn wir: dywedodd bron i bedwar o bob deg (37%) o ymatebwyr o'r fath eu bod wedi cael cymorth ariannol, o'i gymharu â bron i chwarter (23%) o'r rhai mewn is-swyddfeydd. O fewn sectorau, roedd yn fwy tebygol i sefydliadau mwy gael cymorth ariannol ym maes gweithgynhyrchu/adeiladu, cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai a gweinyddiaeth gyhoeddus.

Roedd bron i dri ym mhob deg o'r rhai a oedd wedi'u sefydlu ar y safle hwnnw ers pedair blynedd neu fwy wedi cael cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant a gyflwynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf (29%), o'i gymharu ag un o bob chwech (18%) o'r rhai a oedd wedi'u sefydlu ers llai na blwyddyn.

Yn nhermau newidynnau eraill:

- roedd cyfran arwyddocaol uwch o'r sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith wedi cael cymorth ariannol (36%) na'r rhai a ddarparodd naill ai dim ond hyfforddiant yn y gwaith neu dim ond hyfforddiant allan o'r gwaith (11% a 27% yn y drefn honno)
- wrth gymharu rhanbarthau, roedd sefydliadau yn ne-orllewin (32%) a gogledd Cymru (30%) yn fwy tebygol o fod wedi cael cymorth ariannol na'r rhai yng nghanolbarth Cymru (21%)



**Tabl 38:A gafwyd cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant a gyflwynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Rhanbarth					Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
	Cyfanswm	Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	1,672	409	202	623	356	**85	319	184	374	312	398	668	545	459
Wedi'i phwysoli	1,618	391	218	614	346	27	219	60	547	317	448	1,117	323	178
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Do	27	30	21	26	32	33	36	18	14	20	46	23	34	41
Naddo	66	61	72	67	65	62	62	78	79	72	47	70	58	53
Ddim yn gwybod	7	8	7	7	3	5	2	4	8	8	8	7	7	6

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100).

### 4.3 Mathau o gymorth ariannol a gafwyd ar gyfer hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf

Gofynnwyd i'r rhai a gafodd gymorth ariannol pa fathau o hyfforddiant y cawsant gymorth ariannol ar ei gyfer (cwestiwn ymateb agored oedd hwn a defnyddiwyd sylwadau gair am air i greu ffrâm cod ar gyfer siart 22).

Dylid cymryd i ystyriaeth na fydd y data hwn o reidrwydd yn adlewyrchu gwybodaeth reoli sy'n ymwneud â buddiolwyr cymorth. Yn hytrach, bydd y data hwn yn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei gofio neu ei ddeall yn y sefydliad am ffynonellau cymorth.

Y math o gymorth ariannol mwyaf cyffredin a grybwyllwyd oedd cyrsiau hyfforddi/hyfforddiant am ddim neu dan gymhorthdal oddi wrth ffynonellau heb eu pennu (24%) ac mae'n werth nodi bod cyflogwyr yn ystyried hyfforddiant 'am ddim' yn fath o gymorth ariannol. Roedd hanner cymaint wedi cael cymorth gan ELWa (12%); a rhyw un o bob un ar ddeg wedi cael cyllid neu grantiau o ffynonellau eraill (10%), ffynonellau heb eu pennu (9%), neu gyllid gan y Llywodraeth/Cyngor (8%). Yr unig ffynonellau a grybwyllwyd gan fwy na 5% oedd cymorth neu gyllid drwy

**Tabl 39: Cymorth ariannol a gafwyd ar gyfer hyfforddiant a gyflwynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl y math o sefydliad a'r amser ers ei sefydlu**

	Cyfanswm	Y math o sefydliad			Amser ers sefydlu ar y safle hwnnw				
		Preifat	Cyhoeddus	Arall	Llai nag 1 flwyddyn	1-2 flynedd	Dros 2/llai na 4	Dros 4 llai na 10	10 mlynedd neu fwy
Sylfaen: Pawb y cafodd eu staff hyfforddiant naill ai yn y gwaith neu allan o'r gwaith									
Heb ei phwysoli	1,672	1228	325	109	105	112	178	339	924
Wedi'i phwysoli	1,618	1186	283	138	127	147	203	329	796
	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Do	27	24	35	42	18	24	26	29	29
Naddo	66	71	55	43	77	73	67	62	64
Ddim yn gwybod	7	5	9	15	5	3	7	9	7

Nodyn: Cwestiwn un ymateb.


grant Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (7%), Awdurdod Addysg Lleol/Gwasanaethau Cymdeithasol neu Awdurdod Iechyd (7%), Awdurdod Datblygu Cymru (6%) neu Lywodraeth Cynulliad Cymru (6%). Mae'r arolwg yn dangos bod sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr a'r rhai sydd mewn sefydliad un safle yn fwy tebygol o fod wedi cael cyrsiau hyfforddi/hyfforddiant am

ddim neu dan gymhorthdal (27% yr un). Roedd hyn hefyd yn wir am y rhai sy'n gweithio ym maes cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwyta (36%). Roedd sefydliadau a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus (18%) neu yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol (9%) yn llawer llai tebygol o fod wedi cael unrhyw gyrsiau hyfforddi/hyfforddiant am ddim neu dan gymhorthdal.





## Siart 19: Mathau o gymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf



Sylfaen: Pawb a gafodd gymorth ariannol am unrhyw fathau o hyfforddiant a gyflwynont yn y flwyddyn ddiwethaf (517 heb ei phwysoli, 442 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion o 3% neu fwy.

Mewn cyferbyniad, roedd y rhai mewn sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (30%), a'r rhai a weithiai mewn sefydliad amlsafle (22%) yn fwy tebygol o fod wedi cael cymorth gan ELWa.

Roedd yn amlwg bod sefydliadau sector preifat (11%), y rhai ar un safle (10%) a'r rhai sy'n sefydledig ers deng mlynedd neu fwy (9%) wedi cael mwy o grantiau gan Fwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu. Roedd y rhai a weithiai yn y sector cyhoeddus (13%) yn debycach o fod wedi cael cyllid gan y Llywodraeth neu Gyngor.

Roedd sefydliadau yng nghanolbarth Cymru (18%) a'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith yn unig yn arbennig o debygol o fod wedi cael help gan Awdurdod Datblygu Cymru (16%). Roedd y sefydliadau a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus (14%) neu â 10-24 o weithwyr (11%) wedi cael mwy o gymorth a hyfforddiant gan Awdurdodau Addysg Lleol, gwasanaethau cymdeithasol neu awdurdodau iechyd. Yn yr un modd, roedd y sefydliadau a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus wedi cael help gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (10%). Roedd y rhai yng ngogledd Cymru (10%) â 25 neu fwy o weithwyr (10%) hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cael hyfforddiant neu gyllid drwy goleg neu brifysgol leol.

#### 4.4 Help a chyngor a gafwyd ynghylch mynediad at hyfforddiant

Pan ofynnwyd ble roedd sefydliadau wedi cael help a chyngor ynghylch sut i fynd at hyfforddiant i staff, crybwyllodd dau o bob pump gysylltiadau mewn busnesau eraill neu gyflenwyr (40%). Dywedodd un o bob tri eu bod wedi cael help a chyngor gan gynrychiolydd mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant (35%) ac roedd ychydig yn llai na chwarter wedi cael help a chyngor gan Awdurdod Datblygu Cymru (23%). Roedd un o bob pump wedi cael help gan ELWa (20%), ac ychydig yn llai gan reolwr banc neu gyfrifydd (18%) neu gyrff cynrychioladol fel Cyngorau Sgiliau Sector/ Cydffederasiwn Diwydiant Prydain/Ffederasiwn y Busnesau Bychain/Siambrau Masnach (19%). Crybwyllodd un o bob saith Lywodraeth Cynulliad Cymru (15%) a Llygad Busnes (12%). Ni roddwyd unrhyw ateb arall gydag unrhyw fynychder.

Roedd cydberthynas amlwg rhwng maint y sefydliad a'r tebygolrwydd ei fod wedi defnyddio cysylltiadau mewn busnesau eraill a chyflenwyr: roedd sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr yn llawer mwy tebygol o fod wedi gwneud (51%). Roedd hyn hefyd yn wir yn achos y rhai a weithiai ym mhrif swyddfa sefydliad amlsafle (51%). Roedd y rhai a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael help a chyngor gan gynrychiolydd mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant (55%), fel yr oedd sefydliadau mwy (53%) a'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (51%).





**Tabl 40: Mathau o gymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl y math o sefydliad a'i natur**

	Cyfanswm	Math o sefydliad			Natur y sefydliad	
		Preifat	Cyhoeddus	Arall	Un safle	Amsafle ond nid y brif swyddfa
Sylfaen: Pawb y cafodd eu staff hyfforddiant naill ai yn y gwaith neu allan o'r gwaith a gafodd gymorth						
Heb ei phwysoli	517	355	144	**47	286	146
Wedi'i phwysoli	442	285	100	58	274	112
	%	%	%	%	%	%
Cyrsiau hyfforddi/am ddim/dan gymhorthdal	24	31	9	18	27	17
Cymorth/cyllid gan ELWa	12	15	8	7	7	22
Ffynonellau eraill grantiau cyllido	10	6	12	30	8	13
Cyllid/grantiau (heb eu pennu)	9	7	12	13	9	9
Cyllid y Llywodraeth/Cyngor	8	7	13	6	7	12
Grant Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu	7	11	*	-	10	1
Cymorth/hyfforddiant gan Awdurdod Addysg Lleol/gwasanaethau cymdeithasol/awdurdod iechyd	7	4	16	5	6	9
Cymorth/cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	6	3	13	10	5	7
Cymorth/cyllid gan Awdurdod Datblygu Cymru	6	7	4	5	6	3

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'. Dangosir ymatebion cyffredinol o 6% a mwy. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100). Mae \* yn dynodi llai na 0.5 ond mwy na sero. Mae - yn dynodi sero.

**Tabl 4I: Mathau o gymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth a maint**

	Cyfanswm	Rhanbarth				Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	2 - 9	10 - 24	25 neu fwy
Sylfaen: Pawb y cafodd eu staff hyfforddiant naill ai yn y gwaith neu allan o'r gwaith a gafodd gymorth								
Heb ei phwysoli	517	146	**57	182	113	168	170	179
Wedi'i phwysoli	442	116	45	159	110	258	111	74
	%	%	%	%	%	%	%	%
Cyrsiau hyfforddi/am ddim/dan gymhorthdal	24	22	25	23	25	27	23	15
Cymorth/cyllid gan ELWa	12	16	11	11	12	8	10	30
Ffynonellau eraill grantiau cyllido	10	10	8	12	11	12	6	12
Cyllid/grantiau (heb eu pennu)	9	9	5	9	10	7	15	5
Cyllid y Llywodraeth/gan Gyngor	8	9	11	7	9	7	11	7
Grant Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu	7	7	1	7	7	9	5	4
Cymorth/hyfforddiant gan Awdurdod Addysg Lleol/gwasanaethau cymdeithasol/awdurdod iechyd	7	6	3	9	4	6	11	2
Cymorth/cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	6	6	10	5	6	5	7	7
Cymorth/cyllid gan Awdurdod Datblygu Cymru	6	5	18	6	1	7	5	4

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'. Dangosir ymatebion cyffredinol o 6% a mwy. Mae \*\* yn dynodi sylfaen fach (sylfaen heb ei phwysoli llai na 100).



**Tabl 42: Ffynonellau help a chyngor yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2 - 9	10 - 24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Cysylltiadau mewn busnesau eraill neu gyflenwyr	40	40	35	40	42	29	43	36	34	47	43	37	46	51
Cynrychiolw- yr mewn sefydliad addysg/ hyfforddiant	35	41	35	31	35	26	34	26	23	34	55	30	46	53
Awdurdod Datblygu Cymru	23	28	24	21	21	24	24	19	19	25	28	22	25	29
ELWa	20	25	23	18	17	26	17	12	11	18	39	16	29	39
Cyrff cynrychiola- dol	19	21	17	18	22	10	18	13	12	23	31	18	22	28

**Tabl 42: Ffynonellau help a chyngor yn y flwyddyn ddiwethaf yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Rheolwr banc/cyfrifydd	40	40	35	40	42	29	43	36	34	47	43	37	46	51
Llywodraeth Cynulliad Cymru	35	41	35	31	35	26	34	26	23	34	55	30	46	53
Llygad Busnes	23	28	24	21	21	24	24	19	19	25	28	22	25	29
Corff llywodraethu diwydiant/sector	20	25	23	18	17	26	17	12	11	18	39	16	29	39

Nodyn: Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% a mwy. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.



Roedd sefydliadau yng ngogledd Cymru (28%), y rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (29%) a'r rhai a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus (28%) yn debycach o fod wedi cael help gan Awdurdod Datblygu Cymru. Roedd patrwm tebyg yn wir yn achos help a chyngor gan ELWa, gyda 25% o'r sefydliadau yng ngogledd Cymru a 39% o'r rhai mewn sefydliadau mwy a gweinyddiaeth gyhoeddus yn rhoi'r ateb hwn (39% hefyd). Nodwyd ELWa hefyd gan ychydig yn fwy ymysg sefydliadau a ddarparai hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (31%) a'r rhai wedi'u lleoli ym mhrif swyddfa sefydliad amlsafle (29%). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod ELWa yn arwyddocaol lai tebygol o fod wedi'i ddefnyddio am help a chyngor gan sefydliadau a sefydlwyd 2 flynedd neu lai yn ôl (12%).

Y mwyaf tebygol o nodi eu bod wedi mynd i'r rheolwr banc neu gyfrifydd am help oedd sefydliadau a chanddynt hyd at 9 o weithwyr (19%); y rhai yn y sector preifat (20%); ac, yn enwedig, y rhai a sefydlwyd lai na blwyddyn yn ôl (26%) neu a ddarparodd dim hyfforddiant (24%).

O'r ffynonellau help a chyngor sy'n weddill:

- y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (31%), ym mhrif swyddfa sefydliad amlsafle (33%), sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (28%) neu'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (28%) oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael help gan gyrff cynrychioladol
- Llywodraeth Cynulliad Cymru a grybwyllwyd amlaf fel ffynhonnell help a chyngor gan ymatebwyr sector cyhoeddus (31%), y rhai mewn amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (20%), y rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (21%) a'r rhai yng ngogledd Cymru (21%)
- Llygad Busnes a grybwyllwyd amlaf gan sefydliadau a sefydlwyd lai na blwyddyn yn ôl (23%) neu rhwng 2 a 4 blynedd (23% hefyd)

#### 4.5 Defnyddioldeb help a chyngor a'r rhesymau dros unrhyw ddiffyg defnyddioldeb

Y ffynhonnell fwyaf defnyddiol o help a chyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant oedd rheolwr banc/cyfrifydd (64% o'r defnyddwyr yn eu cael yn ddefnyddiol iawn ac 88% yn eu cael yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol).


Y ffynonellau help a chyngor yr oedd rhwng tri a phedwar o bob deg o'u defnyddwyr yn eu cael yn ddefnyddiol iawn oedd:

- ELWa (cafodd 49% o'r defnyddwyr yr help a'r cyngor yn ddefnyddiol iawn)
- cysylltiadau mewn busnesau eraill neu gyflenwyr (48% yn nodi defnyddiol iawn)
- cyrff cynrychioladol (48% yn nodi defnyddiol iawn)
- cynrychiolwyr mewn sefydliadau addysg neu hyfforddiant (44% yn nodi defnyddiol iawn)

Nododd llai na phedwar o bob deg o'r defnyddwyr fod y ffynonellau canlynol o help a chyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant yn ddefnyddiol iawn:

- Awdurdod Datblygu Cymru (37% yn nodi defnyddiol iawn)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (37% yn nodi defnyddiol iawn)
- Llygad Busnes (33% yn nodi defnyddiol iawn)

### Siart 20: Defnyddioldeb help a chyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a ddefnyddiodd bob ffynhonnell yn y flwyddyn ddiwethaf (sylfeini'n amrywio). Un ymateb (sgôr defnyddioldeb) am bob ffynhonnell. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod'. Dim ond endidau a rag-godiwyd a gyflwynir yn y siart uchod oherwydd dim ond nifer fach o bethau eraill a grybwyllwyd.

Nid oedd dadansoddiad cadarn o is-grwpiau'n bosibl am fod y sylfeini, ar y cyfan, yn rhy fach i'r gwahaniaethau fod yn arwyddocaol. Fodd bynnag, drwy roi sgôr o 0 i ddim yn ddefnyddiol o gwbl a 3 i defnyddiol iawn, roedd sgôr cymedrig (o sgôr cyfan o 3) ar gyfer defnyddioldeb cyngor gan gynrychiolydd mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant ychydig yn uwch i'r rhai ym mhrif swyddfa sefydliadau amlsafle (2.54), y sector cyhoeddus (2.42) a'r rhai a ddarparodd hyfforddiant allan o'r gwaith (2.42). Roedd y rhai yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru ychydig yn fwy tebygol o gael y cyngor gan fusnesau eraill a chyflenwyr yn ddefnyddiol (2.49 a 2.50). Yn y de-ddwyrain oedd y sgôr uchaf i ELWa (2.46).

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a roddodd unrhyw sgôr ac eithrio defnyddiol iawn i bob ffynhonnell help a chyngor pam eu bod wedi rhoi'r sgôr hon. Cwestiwn agored oedd hwn ac mae'r holl ymatebion wedi'u codio. Mae'r adrannau canlynol ar ffynonellau help a chyngor yn dangos rhai o'r ymatebion a godiwyd sy'n gymharol gadarnhaol. Er enghraifft, er na fydd rhai ymatebwyr wedi nodi bod y gwasanaeth yn ddefnyddiol iawn, dywedodd cyfran uchel y cawsant wasanaeth da. Er hynny, nid oedd cyngor da na defnyddiol wedi'u hysgogi i roi'r sgôr uchaf, sef defnyddiol iawn.



#### 4.5.1 Defnyddioldeb cyngor gan reolwr banc/cyfrifydd

Enwyd rheolwyr banc a chyfrifywyr yn amlach nag unrhyw gorff arall gan yr holl ymatebwyr fel rhai a ddarparai help a chyngor defnyddiol iawn (64%) ynghylch mynediad at hyfforddiant. Roedd chwarter (24%) wedi cael cyngor eithaf defnyddiol tra bod 6% wedi cael nad oedd y cyngor neu'r help yn ddefnyddiol iawn a 2% heb ei gael yn ddefnyddiol o gwbl.

Y sylw negyddol mwyaf cyffredin gan yr ymatebwyr a roddodd unrhyw sgôr ac eithrio defnyddiol iawn i'r cyngor gan reolwr banc/cyfrifydd oedd nad oedd yn berthnasol (14%). Ar wahân i hynny, dywedodd un o bob pump ar hugain (4%) nad oedd gan eu rheolwr

banc/cyfrifydd ddidiordeb mewn helpu, a dywedodd un o bob tri deg tri (3%) nad oedd dewis ganddynt ond eu defnyddio a bod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn wael.

Dyma rai dyfyniadau nodweddiadol gan ymatebwyr a nododd fod cyngor yn unrhyw beth ond defnyddiol:

“Oherwydd y gallant ddangos gwahanol opsiynau i mi a'm galluogi i ddewis”

“Wnaethan nhw dynnu sylw at bethau gwahanol na fydden ni wedi meddwl amdany'n nhw o'r blaen”

“Roedden nhw'n methu rhoi gwybodaeth berthnasol i mi.”

**Tabl 43: Rhesymau pam roedd help/cyngor gan reolwr banc/cyfrifydd yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhoddyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	18
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	14
Profiadol/yn gwybod am beth maen nhw'n siarad/yn deall ein cwmni	9
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	6
Dim diddordeb yn eich helpu/diddordeb mewn arian/elw/gwerthiannau yn unig	4
Wedi rhoi i ni'r hyn roedden ni'n gofyn amdano/roedd ei angen arnon ni	3
Cwrs hyfforddi gwael/ddim wir yn berthnasol i'n hanghenion	3
Dim dewis/gorfod eu defnyddio nhw/nid fy mhenderfyniad i	3
Ddim yn gwybod/dim ateb	14

Sylfaen: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (125 heb ei phwysoli, 118 wedi'i phwysoli). Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy. Ni ddangosir 'Arall'. Mae'r sylwadau negyddol wedi'u lliwio'n llwyd.

#### 4.5.2 Defnyddioldeb cyngor gan ELWa

Nododd y mwyafrif o'r holl ymatebwyr a gafodd gyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant gan ELWa ei fod naill ai'n ddefnyddiol iawn (49%) neu'n eithaf defnyddiol (32%). Fodd bynnag, nododd un o bob deg ei fod naill ai ddim yn ddefnyddiol iawn (7%) neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl (4%). Gofynnwyd i'r pedwar o bob deg (43%) o ymatebwyr a oedd wedi defnyddio ELWa am gyngor neu help ac a roddodd sgôr llai na defnyddiol iawn pam hynny.

ELWa oedd leiaf tebygol o'r holl ffynonellau help a chyngor a ddefnyddiwyd o gael sylwadau negyddol neu feirniadaeth gan y rhai a nododd fod eu cyngor yn unrhyw beth ond defnyddiol iawn. Dim ond 4% o'r ymatebwyr hyn a ddywedodd nad oedd y wybodaeth a'r cyngor a gafwyd gan ELWa yn berthnasol. Dywedodd un o bob pump ar hugain arall (4%) eu bod eisoes yn gwybod yr hyn a ddywedwyd wrthynt, tra dywedodd un o bob tri deg tri (3%) fod yn rhaid iddynt bwysu arnynt neu fynd ar eu holau am wybodaeth, nad oedd unrhyw gyrsiau hyfforddi da neu briodol ar gael, na allant helpu, eu bod yn cyfathrebu'n wael neu nad oeddent yn deall eu busnes.

“Pan ddaethann nhw atom yn gyntaf, roedd ganddyn nhw ddiddordeb mawr mewn cofrestru'n staff a oedd am fynd ar brentisiaethau. Daethon nhw â'r holl wybodaeth gyda nhw gan ei hesbonio i gyd i ni ac roedden nhw'n ddefnyddiol iawn, ond dydyn nhw ddim yn ymateb mor gyflym nawr ag yr oedden nhw yn y gorffennol.”

“Mae lefel y sgiliau y mae eu hangen yn eithaf uchel, felly mae'n rhaid i lefel yr hyfforddiant fod wedi'i deilwra'n fawr. Nid yw hyfforddiant cyffredinol yn ddefnyddiol iawn i ni, mae angen hyfforddiant arbenigol arnom sy'n dod o'r tu mewn i'r grŵp.”

#### 4.5.3 Defnyddioldeb cyngor gan gysylltiadau mewn busnesau eraill/cyflenwyr

Ar y cyfan, teimlai'r holl ymatebwyr a gafodd gyngor gan gysylltiadau mewn busnesau eraill/cyflenwyr fod y cyngor o'r ffynhonnell hon yn ddefnyddiol. Nododd hanner (48%) ei fod yn ddefnyddiol iawn a nododd pedwar o bob deg arall (41%) ei fod yn eithaf defnyddiol; dim ond un o bob pedwar ar ddeg (7%) a nododd ei fod naill ai ddim yn ddefnyddiol iawn (6%) neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl (1%).

O hanner (48%) yr ymatebwyr a nododd fod yr help a'r cyngor a gafwyd yn unrhyw beth ond defnyddiol iawn – ac y gofynnwyd iddynt pam y rhoesant yr ateb hwn – roedd 6% yn teimlo nad oedd y wybodaeth a'r cyngor a gawsant yn berthnasol iddynt, ei fod yn rhy gyffredinol. Ymhlith y beirniadaethau eraill a grybwyllwyd gan o leiaf 2% roedd:

- eisoes yn gwybod yr hyn a ddywedon nhw/ddim yn wybodaeth newydd (3%)
- dim cyrsiau hyfforddi da neu briodol (2%)
- heb roi digon o wybodaeth/ddim yn gynhwysfawr (2%)





**Tabl 44:Y rhesymau pam roedd help/cyngor gan ELWa yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhoddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	13
Cwrs hyfforddi da/wedi dod o hyd i'r cwrs cywir/perthnasol	10
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	9
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	4
Wedi'n helpu i gael cyllid/wedi rhoi cyllid i ni	4
Eisoes yn gwybod yr hyn dywedon nhw wrthon ni/ddim yn wybodaeth newydd	4
Wedi rhoi i ni'r hyn roeddem yn gofyn amdano/roedd ei angen arnon ni	4
Profiadol/yn gwybod am beth maen nhw'n siarad/yn deall ein cwmni	3
Dim cyrsiau hyfforddi da/priodol/perthnasol ar gael	3
Cyfathrebu gwael/anodd i gysylltu â nhw/ddim yn dod yn ôl aton ni	3
Methu â helpu/heb roi unrhyw wybodaeth/cyngor	3
Amhrofiadol/ddim yn gwybod am beth maen nhw'n sôn/ddim yn deall ein busnes	3
Wedi gorfod pwysu arnyn nhw/mynd ar eu holau am help/gwybodaeth	3
Ddim yn gwybod/Dim ateb	13

Sylfaen: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (219 heb ei phwysoli, 181 wedi'i phwysoli).  
 Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy. Ni ddangosir ymatebion 'Arall'.  
 Mae'r sylwadau negyddol wedi'u lliwio'n llwyd.

**Tabl 45: Y rhesymau pam roedd help/cyngor gan gysylltiadau mewn busnesau eraill/cyflenwyr yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhoddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	17
Profiadol/yn gwybod am beth maen nhw'n siarad/yn deall ein cwmni	15
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	7
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	6
Wedi rhoi i ni'r hyn roeddem yn gofyn amdano/roedd ei angen arnon ni	4
Eisoes yn gwybod yr hyn a ddywedon nhw/ddim yn wybodaeth newydd	3
Ddim yn gwybod/Dim ateb	15

Sylfaen: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (391 heb ei phwysoli, 380 wedi'i phwysoli).  
Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Ni ddangosir 'Arall'. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy.  
Mae'r sylwadau negyddol wedi'u lliwio'n llwyd.

#### 4.5.4 Defnyddioldeb cyrff cynrychioladol

Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr hynny a ddefnyddiodd gorff cynrychioladol am help neu gyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant ar y cyfan yn ei gael naill ai'n ddefnyddiol iawn (48%) neu'n eithaf defnyddiol (31%). Nododd ychydig dros un o bob deg ei fod naill ai ddim yn ddefnyddiol iawn (7%) neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl (5%).

O'r ymatebwyr hynny a nododd fod yr help a'r cyngor a gawsant yn unrhyw beth ond defnyddiol iawn, y sylw mwyaf negyddol a wnaed oedd eu bod yn methu helpu neu ddarparu unrhyw wybodaeth neu gyngor i'r rhai a gysylltodd â nhw (7%). Nododd un o bob dau ar bymtheg (6%) arall nad oedd y cyngor neu'r wybodaeth a roddwyd yn berthnasol – roedd naill ai'n rhy benodol neu'n rhy gyffredinol.

Dyma rai dyfyniadau nodweddiadol gan y sampl hwn o ymatebwyr:

“Maen nhw'n tueddu i fod yn ddiystyriol ac nid ydyn nhw'n rhoi mwy o help i chi nag y mae'n rhaid”

“Doedd e jyst ddim yn berthnasol i beth roedden ni'n chwilio amdano, nid nhw oedd ar fai, jyst bod y cyngor ddim yn berthnasol i beth roedd ei angen arnon ni...dyna i gyd”



**Tabl 46: Y rhesymau pam fod help/cyngor gan gyrrff cynrychioladol yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhodddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	21
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	9
Profiadol/yn gwybod am beth maen nhw'n siarad/yn deall ein cwmni	7
Methu â helpu/heb roi unrhyw wybodaeth/cyngor	7
Cyfathrebu da/hawdd i gysylltu â nhw/rhoi gwybodaeth gyson i ni	6
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	6
Cwrs hyfforddi da/wedi dod o hyd i'r cwrs cywir/perthnasol	4
Da/bodlon/wedi eu cael yn ddefnyddiol (heb fanylu)	3
Dim ateb	11

Sylfaen: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (156 heb ei phwysoli, 153 wedi'i phwysoli).  
 Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Ni ddangosir 'Arall'. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy.  
 Mae'r sylwadau negyddol wedi'u lliwio'n llwyd.

#### 4.5.5 Defnyddioldeb cyngor gan gynrychiolwyr mewn sefydliad addysg/hyfforddiant

O'r ymatebwyr a gafodd help a chyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant gan gynrychiolwyr mewn sefydliadau addysg/hyfforddiant, nododd dros bedwar o bob deg (44%) eu bod yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol (43%). Dywedodd un o bob deg eu bod naill ai ddim yn ddefnyddiol iawn (5%) neu ddim yn ddefnyddiol o gwbl (4%).

O'r ymatebwyr a nododd unrhyw beth ond defnyddiol iawn, ac y gofynnwyd iddynt pam y rhodddwyd yr ateb hwn ganddynt, y rheswm negyddol a roddwyd amlaf oedd bod y cyngor yn rhy gyffredinol/ddim yn berthnasol (8%).

Dyma rai dyfyniadau nodweddiadol gan yr un o bob tri ar ddeg (8%) o ymatebwyr a wnaeth y sylw negyddol hwn:

“Am nad ydyn nhw'n datrys ein problemau neu anghenion unigol. Ar y cyfan, maen nhw'n rhoi cyngor cyffredinol a dydyn nhw ddim yn mynd ymhellach na hynny. Mae'n ymddangos bod nodweddion gyda nhw sy'n eu rhwystro nhw rhag rhoi cyngor penodol.”

“Achos pan gysylltes i â nhw, doedd dim syniad gyda nhw am beth ro'n i'n sôn.”

“Cymerodd e fwy o alwadau ffôn nag roedd ei angen arnon ni ... roedd trio cael gafael ar rywun... yn cymryd cryn dipyn o amser/ond yn eithaf defnyddiol.”

“Dywedon nhw ba gwrs roedd angen i ni ei wneud ond ni roddon nhw ddigon o wybodaeth i ni amdano.”

**Tabl 47:Y rhesymau pam roedd help/cyngor gan sefydliadau addysg neu hyfforddiant yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhodddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	22
Cwrs hyfforddi da/wedi dod o hyd i'r cyrsiau cywir/perthnasol	13
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	8
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	8
Wedi rhoi i ni'r hyn roeddem yn gofyn amdano/roedd ei angen arnon ni	5
Sylwadau cadarnhaol eraill	5
Profiadol/yn gwybod am beth maen nhw'n siarad/yn deall ein cwmni	4
Sylwadau negyddol eraill	4
Cyfathrebu da/hawdd i gysylltu â nhw/rhoi gwybodaeth gyson i ni	3
Wedi rhoi llawer o wybodaeth/wedi dysgu gwybodaeth ychwanegol	3
Dim cyrsiau hyfforddi da/priodol/perthnasol ar gael	3
Ddim yn gwybod/Dim ateb	9

Sylfaen: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (384 heb ei phwysoli, 354 wedi'i phwysoli).  
 Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Ni ddangosir 'Arall'. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy.  
 Mae'r sylwadau negyddol wedi'u lliwio'n llwyd.

#### 4.5.6 Defnyddioldeb cyngor gan Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)

Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr a ddefnyddiodd y WDA am help a chyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant fod yr help naill ai'n ddefnyddiol iawn (37%) neu'n eithaf defnyddiol (38%). Fodd bynnag, nododd un o bob pedwar ar ddeg (7%) fod y cyngor ddim yn ddefnyddiol iawn, a nododd un o bob tri ar ddeg (8%) arall ei fod ddim yn ddefnyddiol o gwbl.

Gofynnwyd i ymatebwyr a sgoriodd y cyngor fel heb fod yn ddefnyddiol iawn esbonio pam. Y feirniadaeth fwyaf oedd nad oedd y wybodaeth a'r cyngor yn berthnasol (9%). Gwnaed y sylw nad oedd y WDA yn delio â'u sector nhw gan un o bob dau ar bymtheg (6%) o'r ymatebwyr, a dywedodd un o bob ugain (5%) eu bod yn methu helpu. Gwnaed sylwadau bod y WDA yn rhy araf neu eu bod yn cyfathrebu'n wael gan un o bob pump ar hugain (4%).



Dyma rai dyfyniadau nodweddiadol gan y sampl hwn o ymatebwyr:

“Ddim yn berthnasol iawn i’n hanghenion ni – nid oedd yn gyngor defnyddiol. Byddai wedi golygu gwario arian nad oedd gennym ni.”

“Rhy fiwrocraataidd.”

“Ceisiais gael gafael ar rywun – byddai mynediad gwell at ymgynghorwyr yn dda.”

### Tabl 48: Y rhesymau pam roedd help/cyngor gan Awdurdod Datblygu Cymru yn llai na defnyddiol iawn

	%
Rhoddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	24
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi’n rhoi ar y trywydd iawn	11
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i’n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	9
Wedi rhoi i ni’r hyn roedden yn gofyn amdano	6
Dydyn nhw ddim yn delio â’n sector ni/cwmnïau fel ni/wedi’n gwrthod	6
Methu â helpu/heb roi unrhyw wybodaeth/cyngor	5
Cwrs hyfforddi da/wedi dod o hyd i’r cwrs cywir/perthnasol	5
Profiadol/yn gwybod am beth maen nhw’n siarad/yn deall ein cwmni	4
Cyfathrebu gwael/anodd i gysylltu â nhw/ddim yn dod yn ôl aton ni	4
Rhy araf/cymryd gormod o amser	3
Cyfathrebu da/hawdd i gysylltu â nhw/rhoi gwybodaeth gyson i ni	3
Ddim yn gwybod/Dim ateb	10

Sylfaen: Pawb a oedd o’r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (251 heb ei phwysoli, 253 wedi’i phwysoli). Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy. Ni ddangosir ‘Arall’. Mae’r sylwadau negyddol wedi’u lliwio’n llwyd.

#### 4.5.7 Defnyddioldeb cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)

Roedd bron i dri chwarter y rhai a ddefnyddiodd LICC am gyngor neu help ynghylch mynediad at hyfforddiant wedi eu cael naill ai'n ddefnyddiol iawn (37%) neu'n eithaf defnyddiol (36%). Fodd bynnag, dywedodd ychydig yn llai nag un o bob deg (9%) nad oeddent yn ddefnyddiol iawn, a dywedodd un o bob pump ar hugain (4%) arall eu bod ddim yn ddefnyddiol o gwbl. O'r hanner (49%) a nododd eu bod yn llai na defnyddiol iawn, dywedodd un o bob wyth o'r ymatebwyr nad oedd y wybodaeth neu'r cyngor a ddarparwyd gan LICC yn berthnasol (13%). Dywedodd tua hanner hynny na allai LICC helpu (7%) a dywedodd 3% eu bod naill ai'n rhy araf, nad oeddent yn gwybod am beth roedden nhw'n sôn, nad oedden nhw'n deall busnes yr

ymatebwr, neu fod peth o'r help yn ddefnyddiol a pheth ohono'n andefnyddiol.

Dyma rai dyfyniadau nodweddiadol gan y sampl hwn o ymatebwyr:

"Mae llawer o brofiad ganddyn nhw ac maen nhw'n cynnig cymorth da"

"Ddim yn berthnasol iawn i'n hanghenion...doedd y cyngor ddim yn ddefnyddiol...roedd angen gwario arian nad oedd gennym ni"

"Gwnaethon nhw'n cyfeirio ni i'r lle defnyddiol cywir.../dwedon nhw wrthyn ni hefyd am gyllid a oedd ar gael"

**Tabl 49: Y rhesymau pam roedd help/cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhodddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	19
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	13
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	7
Methu â helpu/heb roi unrhyw wybodaeth/cyngor	7
Wedi rhoi i ni'r hyn roeddem yn gofyn amdano/roedd ei angen arnon ni	6
Wedi'n helpu i gael cyllid/wedi rhoi cyllid i ni	6
Cyfathrebu da/hawdd i gysylltu â nhw/rhoi gwybodaeth gyson i ni	4
Rhy araf/cymryd gormod o amser	3
Amhrofiadol/ddim yn gwybod am beth maen nhw'n sôn/ddim yn deall ein busnes	3
Mae peth o'r wybodaeth yn ddefnyddiol, peth yn andefnyddiol	3
Ddim yn gwybod/Dim ateb	14

Sylfaen: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (152 heb ei phwysoli, 149 wedi'i phwysoli). Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy. Ni ddangosir ymatebion 'Arall'.



#### 4.5.8 Defnyddioldeb cyngor gan Lygad Busnes

Nododd ychydig yn llai na saith ym mhob deg o'r rhai a geisiodd gyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant neu help gan Llygad Busnes ei fod naill ai'n ddefnyddiol iawn (33%) neu'n eithaf defnyddiol (36%). Fodd bynnag, dywedodd un o bob deg (11%) ei fod ddim yn ddefnyddiol iawn tra bod un o bob ugain (5%) arall wedi cael bod y cyngor neu'r help ddim yn ddefnyddiol o gwbl.

O'r rhai a nododd fod yr help a'r cyngor yn unrhyw beth ond defnyddiol iawn, y sylw a wnaed amlaf am Lygad Busnes oedd nad oedd y wybodaeth yn berthnasol (17%). Roedd yr ymatebion eraill a feirniadau Lygad Busnes yn gysylltiedig â: pherthnasedd; nad oeddent yn cynnig y cyrsiau hyfforddi roedd eu hangen; nad oeddent yn ymwneud â sector yr ymatebwyr; ac nad oeddent yn deall eu busnes.

Dyma rai dyfyniadau nodweddiadol gan y sampl hwn o ymatebwyr:

"...am nad oedden ni'n ffitio'n berffaith i adwerthu nac amaethyddiaeth. Ni allai Llygad Busnes ein helpu ni – maen nhw'n ymwneud yn fwy ag adwerthu."

"Dydyn nhw ddim wir yn deall ein busnes ni."

"Wel, yn y pen draw roedden nhw'n gymwynasgar iawn, ond allan nhw ddim helpu'n cwmni ni – roedden nhw'n methu'n helpu ni yn syml oherwydd y math o fusnes sydd gennym."

"Dim ond nad ydyn nhw'n cynnig beth sydd ei angen arnon ni... hyfforddiant mewn cadw cyfrifon a marchnata... dim byd roedd ei eisiau arnon ni."

#### 4.6 Cyswllt presennol â darparwyr hyfforddiant yn yr ardal leol

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr pa gyswllt, os o gwbl, a oedd ganddynt â darparwyr yn eu hardal leol yn y flwyddyn ddiwethaf. Y math mwyaf cyffredin o lawer o gyswllt oedd drwy wybodaeth a anfonir yn y post, galwadau ffôn neu e-bost (63%). Crybwyllodd rhyw draean y canlynol:

- roeddent wedi cael ymweliadau gan gynrychiolwyr (35%)
- roedd darparwyr wedi trefnu lleoliadau yn eu sefydliad (35%)
- fel cyflogwyr, roeddent wedi anfon staff ar gyrsiau hyfforddi gyda darparwr (34%)
- roeddent wedi darparu adborth ar gynnwys cwrs hyfforddi lle roedd staff wedi defnyddio gwasanaethau (33%)

Roedd tri o bob deg wedi mynychu digwyddiadau rhwydweithio a drefnwyd gan y darparwr (29%) ac roedd 6% wedi eistedd ar Fwrdd coleg lleol.



**Tabl 50: Y rhesymau pam roedd help/cyngor gan Lygad Busnes yn llai na defnyddiol iawn**

	%
Rhoddwyd cyngor/gwybodaeth da/defnyddiol/perthnasol	18
Y wybodaeth/cyngor ddim yn berthnasol/benodol i'n cwmni/y cyngor yn rhy gyffredinol	17
Wedi dweud ble i edrych/â phwy i gysylltu/wedi'n rhoi ar y trywydd iawn	15
Da/bodlon/wedi'u cael yn ddefnyddiol (heb fanlyu)	5
Dydyn nhw ddim yn delio â'n sector ni/cwmnïau fel ni/wedi'n gwrthod	5
Dim cyrsiau hyfforddi da/priodol/perthnasol ar gael	5
Wedi rhoi llawer o wybodaeth/wedi dysgu gwybodaeth ychwanegol	4
Amhrofiadol/ddim yn gwybod am beth maen nhw'n sôn/ddim yn deall ein busnes	4
Wedi cynnig safbwynt/mewnwelediad allanol	3
Eisoes yn gwybod y wybodaeth a roddwyd i ni/ddim yn wybodaeth newydd	3
Methu â helpu/heb roi unrhyw wybodaeth/cyngor	3
Ddim yn gwybod/Dim ateb	14

Base: Pawb a oedd o'r farn bod y cyngor yn llai na defnyddiol iawn (133 heb ei phwysoli, 128 wedi'i phwysoli).  
 Nodyn: Cwestiwn agored/amlymateb. Ni ddangosir 'Arall'. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy.  
 Mae'r sylwadau negyddol wedi'u lliwio'n llwyd.

Roedd gwahaniaethau trawiadol rhwng sectorau cyflogaeth. Roedd diffyg cyswllt cymharol â sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr, ac â'r rhai yn y sector preifat. Roedd y rhai a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus yn llawer mwy tebygol o anfon staff ar gyrsiau hyfforddi gyda'r darparwr (62%), o fynd i ddigwyddiadau rhwydweithio a drefnwyd gan y darparwr (53%), o gael gwybodaeth yn y post neu drwy alwadau ffôn ac e-bost (81%), ac o gael ymweliadau gan gynrychiolwyr (49%). Yn yr un modd, roedd y rhai mewn sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr yn llawer mwy tebygol o fod â phob un o'r mathau hyn o gyswllt. Ac eithrio yn achos cyfleustodau, roedd hyn hefyd yn wir o fewn pob sector.


Roedd ymatebwyr a oedd wedi'u lleoli ym mhrif swyddfa sefydliad amlsafle ychydig yn debychach o fod â phob un o'r mathau o gyswllt yn yr un modd, yn y rhan fwyaf o achosion, â'r rhai ddarparai hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith. Roedd y sefydliadau mwy hir-sefydledig yn debychach o gael gwybodaeth (drwy'r post, dros y ffôn neu e-bost) gan ddarparwyr neu o drefnu lleoliadau i fyfyrwyr o golegau lleoli.

Roedd gwahaniaethau bychain yn ôl rhanbarth, gyda'r rhai yng ngogledd Cymru fwyaf tebygol o anfon staff ar gyrsiau hyfforddi gyda'r darparwr (40%), o gael ymweliadau gan gynrychiolwyr (41%) ac o roi adborth am hyfforddiant/ cynnwys cwrs (39%).





## Siart 21: Mathau presennol o gyswilt â darparwyr hyfforddiant yn yr ardal lleol



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (2059 heb ei phwysoli, 2059 wedi'i phwysoli). Cwestiwn amlymateb. Dangosir ymatebion cyffredinol o 3% neu fwy. Ni ddangosir ymatebion 'Arall'.

**Tabl 5 I: Mathau presennol o gyswllt â darparwyr hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Cael gwybodaeth gan y darparwr drwy'r post/ffôn/ e-bost	63	65	60	64	60	58	58	53	52	65	81	58	73	78
Cael ymweliadau gan gynrychiolwyr	35	41	27	38	31	29	34	27	32	28	49	30	48	55
Trefnu lleoliadau yn ein sefydliad i fyfyrwyr o golegau lleol	35	41	33	32	35	18	27	21	27	29	60	29	48	58
Anfon staff ar gyrsiau hyfforddi gyda'r darparwr	34	40	32	32	28	22	27	23	21	31	62	27	50	60



**Tabl 5 I: Mathau presennol o gyswllt â darparwyr hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Rhoi adborth am hyfforddiant/ cynnwys cwrs	33	39	25	31	31	21	27	24	22	30	58	27	49	53
Mynd i ddiwyddia- dau rhwydweithio a drefnwyd gan y darparwr	29	32	28	28	29	22	15	22	18	34	53	26	36	44
Dim un o'r rhain	21	17	20	22	24	26	25	29	27	19	8	25	10	7

## 4.7 Crynodeb

Roedd ychydig dros chwarter o'r sefydliadau a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith neu allan o'r gwaith yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cael cymorth ariannol (27%). Roedd y ffigur ar ei isaf yn y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai (14%) ac ar ei uchaf yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus (46%). Roedd hefyd ar ei uchaf mewn sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (41%) a'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (36%).

Y math o gymorth ariannol a gafwyd fwyaf oedd â chyrсияu hyfforddi/hyfforddiant am ddim/dan gymhorthdal (24% o'r rhai a gafodd gymorth ariannol). Crybwyllwyd hefyd gymorth gan ELWa (12%), cyllid neu grantiau o ffynonellau eraill (10%), cyllid grant na nodwyd (9%), grantiau Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (7%), Cyllid y Llywodraeth/gan Gyngor (8%), cymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru (6%) a chymorth gan Awdurdod Addysg Lleol/gwasanaethau cymdeithasol/awdurdod iechyd (7%).

Roedd cyrsiau hyfforddi/hyfforddiant am ddim/dan gymhorthdal yn fwy tebygol o fod wedi'u darparu i sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr (27%). Roedd cymorth gan ELWa yn fwy tebygol o fod wedi'i roi i'r rhai yn y sefydliadau mwyaf (30%), sefydliadau amlsafle (22%) a'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (15%).

Sefydliadau nad oeddent yn y grŵp sector cyhoeddus na sector preifat oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael cyllid neu grantiau o ffynonellau eraill (30%). Y mwyaf tebygol o fod wedi cael grant gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu oedd y rhai yn y sector preifat (11%), sefydliadau un safle (10%) ac ym maes gweithgynhyrchu/adeiladu (37%).

Roedd sefydliadau yng nghanolbarth Cymru (18%) neu rai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith yn unig (16%) yn arbennig o debygol o fod wedi cael cymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru. Sefydliadau sy'n darparu gweinyddiaeth gyhoeddus a (14%) gâi fwyaf o gymorth ariannol neu hyfforddiant gan Awdurdodau Addysg Lleol/gwasanaethau cymdeithasol/awdurdodau iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Y ffynhonnell fwyaf cyffredin o help a chyngor ynghylch mynediad at hyfforddiant i staff oedd cysylltiadau mewn busnesau eraill neu gyflenwyr (40%). Dywedodd un o bob tri eu bod wedi cael help a chyngor gan gynrychiolydd mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant (35%) ac ychydig yn llai na chwarter wedi cael gan Awdurdod Datblygu Cymru (23%). Roedd rhyw un o bob chwech wedi cael help gan ELWa (20%), cyrff cynrychioladol fel Cyngorau Sgiliau Sector, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn y Busnesau Bychain neu Siambrau Masnach (19%) neu gan reolwr banc/cyfrifydd (18%).

Roedd sefydliadau a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr yn llawer mwy tebygol o fod wedi cael help a chyngor drwy gysylltiadau mewn busnesau eraill a chyflenwyr (48%) a chan gynrychiolydd mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant (49%) nag oedd sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr. Yn yr un modd, adroddodd y rhai yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus (55%) a'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (51%) eu bod wedi cael help a chyngor gan gynrychiolwyr mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant. Cafodd sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus (39%) ac amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (26%) fwy o help gan ELWa, fel y gwnaeth y rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (39%) a'r rhai a oedd wedi'u lleoli yng nngogledd Cymru (25%). Roedd patrwm tebyg yn amlwg yn achos help a chyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.



Sefydliadau a chanddynt hyd at 9 o weithwyr (19%) a'r rhai yn y sector preifat (20%) oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi mynd i'w rheolwr banc/cyfrifydd am help a chyngor. Y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, prif swyddfa sefydliad amlsafle (33%), rhai a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr (24%) neu a ddarparai'r ddau fath o hyfforddiant oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael help gan gyrff cynrychioladol (28%). Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y ffynhonnell help a chyngor a enwyd amlaf i sefydliadau yn y sector cyhoeddus neu sector arall (31% yr un); mewn amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (20%); mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (38%) a'r rhai a ddarparai'r ddau fath o hyfforddiant (21%).

Y ffynhonnell fwyaf defnyddiol o help neu gyngor oedd rheolwr banc/cyfrifydd (nododd 64% o'r defnyddwyr eu bod yn ddefnyddiol iawn). Dilynwyd hyn gan: gysylltiadau mewn busnesau eraill/cyflenwyr (y nododd 48% o'r defnyddwyr eu bod yn ddefnyddiol iawn), ac ELWa (49%); cyrff cynrychioladol (48%); a chynrychiolwyr mewn sefydliad addysg neu hyfforddiant (44%). Y feirniadaeth fwyaf cyffredin o'r holl ffynonellau help a chyngor oedd diffyg perthnasedd.

Y math mwyaf cyffredin o lawer o gyswllt presennol â darparwyr hyfforddiant yn yr ardal leol oedd gwybodaeth a anfonwyd drwy'r post/ffôn/e-bost (63%). Dywedodd rhyw draean eu bod wedi cael ymweliadau gan gynrychiolwyr darparwr (35%), wedi trefnu lleoliadau yn eu sefydliad i fyfyrwyr o golegau lleol (35%), wedi anfon staff ar gysiau hyfforddi gyda'r darparwr (34%), neu wedi rhoi adborth ar gynnwys cwrs hyfforddi lle roedd staff wedi defnyddio gwasanaethau (33%).

Roedd sefydliadau a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus, rhai a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr, rhai sy'n brif swyddfa sefydliad amlsafle, a rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith, yn fwy tebygol o fod â phob un o'r mathau hyn o gyswllt â darparwyr hyfforddiant.

## 5.0 AGWEDDAU AT HYFFORDDIANT

### 5.1 Cyflwyniad

Holodd yr adran hon i ba raddau y cytunir â chyfres o ddatganiadau yn ymchwilio i agwedd y sefydliad tuag at hyfforddiant. Ymhlith y materion yr ymdriniwyd â hwy roedd:

- A ddarperir digon o hyfforddiant ar gyfer rolau staff
- Chwilio am wybodaeth am hyfforddiant ac asesu sgiliau staff
- Effaith cyfyngiadau amser ac anhawster cyflenwi staff ar ddarparu hyfforddiant
- Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant
- Hyfforddiant gorfodol yn y gyllideb hyfforddiant
- Y flaenoriaeth a roddir i hyfforddiant
- Effaith hyfforddiant ar hyder staff
- Anogaeth i staff fynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn diwydiant
- Problem diffyg diddordeb staff mewn hyfforddiant
- Y gwerth a roddir ar staff
- Rôl hyfforddiant mewn parhau'n gystadleuol

### 5.2 Agweddau presennol tuag at hyfforddiant yn y gwaith

Ymchwiliwyd i agweddau at hyfforddiant yn y lle cyntaf mewn cwestiwn sy'n cofnodi i ba raddau y cytunir neu yr anghytunir â datganiadau am hyfforddiant yn lleoliad yr ymatebwr (roedd y raddfa gytuno'n mynd o cytuno'n gryf i anghytuno'n gryf). Darllenwyd naw datganiad a dangosir lefel y cytundeb yn ôl eu trefn yn y tabl nesaf.

Cytunwyd ar y lefel uchaf â'r datganiad bod 'ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau' (roedd 79% yn cytuno, ac roedd 44% o'r rheiny'n cytuno'n gryf). Roedd ychydig dros saith o bob deg yn cytuno: 'rydym yn mynd ati i geisio cyngor neu wybodaeth ynghylch hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant/proffesiwn' (roedd 73% yn cytuno, yr oedd 42% ohonynt yn cytuno'n gryf); ac roeddent yn cytuno hefyd eu bod 'yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd' (72% yn cytuno, yr oedd 42% ohonynt yn cytuno'n gryf).

Roedd dau o bob tri yn cytuno bod 'cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddiant i staff' (66% yn cytuno, yr oedd 36% ohonynt yn cytuno'n gryf), tra bod ychydig dros ddau o bob deg (22%) yn anghytuno. Roedd pedwar ym mhob saith yn cytuno ei bod yn 'anodd trefnu staff cyflenwi tra bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant' (58%), gyda thri o bob deg yn anghytuno (29%).

Roedd llai na hanner y sampl yn cytuno â phedwar datganiad. Roedd ychydig dan hanner yn cytuno eu bod 'yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain' ac 'nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant' (47% yr un). Fodd bynnag, roedd un o bob tri yn anghytuno â'r datganiad cyntaf (32%), ac roedd cymaint â 45% yn anghytuno â'r ail.

Roedd 40% yn cytuno y 'caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol', gyda thros (36%) yn anghytuno. 'Nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau' oedd yr unig ddatganiad lle roedd mwy'n anghytuno nag yn cytuno (66% o'i gymharu â 27%), ac roedd dros bedwar o bob deg (44%) yn anghytuno'n gryf.



**Tabl 52: Cyfraddau cytuno â datganiadau ynghylch hyfforddiant yn y lleoliad**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Pawb sy'n cytuno	Cytuno'n gryf	Pawb sy'n anghytuno	Anghytuno'n gryf
	%	%	%	%
Mae ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau	79	44	11	2
Rydym yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant/proffesiwn	73	42	12	5
Rydym yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd	72	42	17	6
Mae cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddiant i staff	66	36	22	9
Mae'n anodd trefnu staff cyflenwi tra bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant	58	36	29	14
Rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain	47	22	32	15
Nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant	47	26	45	26
Caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol	40	20	36	16
Nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau	27	14	66	44

Nodyn: un ymateb (graddau y cytunir) i bob datganiad.



Er mwyn archwilio'r datganiadau'n hawdd, mae'r rhestr uchod wedi'i rhannu'n isadrannau:

Datganiadau sy'n ymwneud â blaenoriaeth/darpariaeth hyfforddiant:

- Mae ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau
- Mae cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddiant i staff
- Nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant
- Caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol
- Nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau

Datganiadau sy'n ymwneud â chynllunio hyfforddiant:

- Rydym yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant/proffesiwn
- Rydym yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd
- Mae'n anodd trefnu staff cyflenwi tra bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant
- Rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain

### 5.1.1 Blaenoriaeth/darpariaeth hyfforddiant

O edrych ar y datganiadau'n fanwl, sylwyd ar y pwyntiau canlynol:

- amaethyddiaeth/cloddio/chwarela fel sector oedd leiaf tebygol o gytuno'n gryf bod staff yn cael yr hyfforddiant sy'n briodol, neu y caiff y rhan fwyaf o'u cyllideb ei gwario ar hyfforddiant gorfodol. I'r gwrthwyneb, nhw sydd fwyaf tebygol o gytuno nad yw hyfforddiant yn un o'u blaenoriaethau.

- y sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr oedd leiaf tebygol o gytuno'n gryf bod cyfyngiadau amser yn creu problemau, ac nad oes angen mawr am hyfforddiant ac eithrio i hyfforddi staff newydd.
- y sector cyfleustodau oedd leiaf tebygol o gytuno'n gryf bod cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddi staff.

### 5.1.2 Cynllunio hyfforddiant

Y canlynol yw'r pwyntiau sy'n codi o archwilio'r atebion:

Roedd gan y mwyafrif o sectorau lefelau is na'r cyfartaledd o ymatebwyr a gytunodd yn gryf (o'i gymharu â'r cyfartaledd) iddynt chwilio am gyngor am hyfforddiant sy'n berthnasol; mewn cyferbyniad, roedd lefelau cytuno'n gryf yn arbennig o uchel ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus

Y sector gweinyddiaeth gyhoeddus a'r sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf iddynt asesu sgiliau pobl yn ffurfiol

Y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf bod cyflenwi staff ar hyfforddiant yn broblem

Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela a hefyd cyllid/gwasanaethau busnes oedd leiaf tebygol o gytuno'n gryf bod cyflenwi staff ar hyfforddiant yn broblem a'u bod yn gweithio gyda darparwyr i ddatblygu rhaglen i gyd-fynd â'u hanghenion.





**Tabl 53: Blaenoriaeth/darpariaeth hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (grwpiau sy'n cytuno'n gryf i raddau mwy neu lai na'r cyfartaledd)**

	Cytuno'n gryf i raddau helaeth (o leiaf 5 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd)	Cytuno'n gryf i raddau llai (o leiaf 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd)
Mae ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau	Sector: Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai	Maint: 10-24 Rhanbarth: DO Cymru Sector: Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela
Mae cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddiant i staff	Rhanbarth: Canolbarth Cymru	Maint: 25 neu fwy Sector: Cyfleustodau
Nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant	Sector: Cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai Sector: Cyfleustodau Sector: Gweithgynhyrchu/adeiladu Rhanbarth: Canolbarth Cymru	Sector: Cyllid/gwasanaethau busnes Sector: Gweinyddiaeth gyhoeddus Maint: 10-24 Maint: 25 neu fwy
Caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol		Sector: Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela
Nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau	Sector: Amaethyddiaeth/cloddio/chwarela	Sector: Gweinyddiaeth gyhoeddus Maint: 10-24 Maint: 25 neu fwy

**Table 54: Cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â blaenoriaeth/darpariaeth hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
<b>Mae ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau</b>														
Cytuno'n gryf	44	45	45	46	39	33	42	44	51	38	40	45	39	41
Tueddol o gytuno	35	29	37	35	39	35	36	37	32	38	35	33	39	41
Tueddol o anghytuno	9	12	8	8	10	6	10	5	8	12	11	9	12	10
Anghytuno'n gryf	2	2	2	2	3	4	2	2	1	2	4	2	3	3
<b>Mae cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddiant i staff</b>														
Cytuno'n gryf	38	35	44	39	35	36	41	33	39	35	36	39	37	29
Tueddol o gytuno	28	27	26	28	31	20	28	30	26	31	29	27	32	34
Tueddol o anghytuno	13	15	12	13	14	11	11	18	14	10	16	13	15	17
Anghytuno'n gryf	9	10	11	8	8	8	8	6	9	12	8	9	7	11



**Table 54: Cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â blaenoriaeth/ darpariaeth hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl ymatebwyr	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant														
Cytuno'n gryf	26	22	31	28	24	30	35	32	33	21	10	30	14	9
Tueddol o gytuno	21	18	23	20	23	30	26	29	25	17	11	24	13	10
Tueddol o anghytuno	19	20	13	19	23	14	14	16	16	26	24	17	25	27
Anghytuno'n gryf	26	30	24	26	21	13	18	15	17	28	46	20	41	48
Caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol														
Cytuno'n gryf	20	20	17	22	22	15	23	22	21	21	19	20	20	22
Tueddol o gytuno	20	24	29	16	18	21	24	28	22	12	20	19	25	23
Tueddol o anghytuno	20	23	16	19	20	16	18	14	16	26	22	18	23	26
Anghytuno'n gryf	16	11	14	20	16	17	14	10	15	20	18	17	13	14

**Table 54: Cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â blaenoriaeth/ darpariaeth hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
<b>Nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau</b>														
Cytuno'n gryf	14	11	17	15	15	25	18	14	18	12	5	17	7	5
Tueddol o gytuno	13	10	18	12	17	24	16	22	16	9	9	16	7	5
Tueddol o anghytuno	22	23	20	22	21	20	20	22	22	30	15	22	21	19
Anghytuno'n gryf	44	48	38	44	41	21	35	33	35	43	68	37	60	67

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir yr ymatebion 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.



**Tabl 55: Trosolwg o gynllunio hyfforddiant yn ôl rhanbarth/sector a maint y sefydliad**

	Lefelau uwch o gytuno'n gryf (o leiaf 5 pwynt canran uwchlaw'r cyfartaledd)	Lefelau is o gytuno'n gryf (o leiaf 5 pwynt canran yn is na'r cyfartaledd)
Rydym yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant/proffesiwn	Sector: Gweinyddiaeth gyhoeddus Maint: 10-24 Maint: 25 neu fwy	Rhanbarth: Canolbarth Cymru Sector: Amaethyddiaeth/ cloddio/ chwarela Sector: Gweithgynhyrchu/ adeiladu Sector: Cyfleustodau Sector: Cyfanwerthu/adwerthu/ gwestai/bwytai
Rydym yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd	Sector: Gweinyddiaeth gyhoeddus Maint: 10-24 Maint: 25 neu fwy	Rhanbarth: Canolbarth Cymru Sector: Amaethyddiaeth/ cloddio/ chwarela Sector: Gweithgynhyrchu/ adeiladu Sector: Cyfleustodau Rhanbarth: DO Cymru Sector: Cyllid/gwasanaethau busnes
Mae'n anodd trefnu staff cyflenwi tra bo staff yn ymgymryd â hyfforddiant	Sector: Cyfanwerthu/adwerthu/ gwestai/ bwytai	Rhanbarth: Gogledd Cymru Sector: Amaethyddiaeth/ cloddio/ chwarela Sector: Cyllid/gwasanaethau busnes
Rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain		Sector: Amaethyddiaeth/ cloddio/ chwarela Sector: Cyllid/gwasanaethau busnes Rhanbarth: DO Cymru

**Tabl 56: Cyfraddau cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â chynllunio hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
<b>Rydym yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant/proffesiwn</b>														
Cytuno'n gryf	42	43	33	45	40	33	37	35	36	38	59	39	47	51
Tueddol o gytuno	31	26	35	30	34	33	30	34	32	31	27	30	32	29
Tueddol o anghytuno	9	8	12	11	7	11	12	10	9	14	4	10	7	7
Anghytuno'n gryf	5	5	8	5	5	9	7	4	8	4	1	6	4	4
<b>Rydym yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd</b>														
Cytuno'n gryf	42	46	33	45	37	19	35	30	40	36	61	38	54	57
Tueddol o gytuno	30	29	38	25	31	31	31	35	31	32	23	30	30	26
Tueddol o anghytuno	11	9	14	12	12	18	15	17	9	17	6	12	8	9
Anghytuno'n gryf	8	3	6	8	8	6	8	5	6	7	3	7	3	1



**Tabl 56: Cyfraddau cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â chynllunio hyfforddiant yn ôl rhanbarth, sector a maint y sefydliad (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
<b>Mae'n anodd trefnu staff cyflenwi tra bo staff yn ymgymryd â hyfforddiant</b>														
Cytuno'n gryf	36	31	40	39	33	30	34	37	41	25	38	36	37	32
Tueddol o gytuno	22	24	18	20	25	22	19	21	21	24	24	21	25	25
Tueddol o anghytuno	15	17	12	15	18	14	17	16	10	22	17	13	20	22
Anghytuno'n gryf	14	16	11	14	12	9	12	9	16	17	11	15	10	13
<b>Rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain</b>														
Cytuno'n gryf	22	20	24	25	16	17	21	18	24	17	24	21	24	21
Tueddol o gytuno	25	24	25	22	30	27	23	24	20	25	32	22	30	37
Tueddol o anghytuno	17	17	16	17	18	19	16	20	16	19	19	17	17	17
Anghytuno'n gryf	15	15	15	16	15	12	19	14	17	19	8	17	11	8

### 5.1.3 Y berthynas rhwng hyfforddiant/ buddsoddiad a datblygu'r busnes

Roedd cwestiwn diweddarach yn yr arolwg yn mesur lefelau cytuno neu anghytuno â chyfres o ddatganiadau pellach ynghylch yr effaith y cafodd y buddsoddiad mewn hyfforddiant ar ddatblygiad y busnes. O'r rhain, mae siart 25 yn dangos mai'r datganiad y cytunwyd ag ef fwyaf oedd 'ein staff yw ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad hwn'. Roedd dros bedwar ym mhob pump yn cytuno'n gryf (81%), ac roedd un o bob saith (14%) arall yn dueddol o gytuno. Roedd tri o bob pump yn cytuno'n gryf eu bod 'yn mynd ati i annog ein staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn ein diwydiant/proffesiwn' (60%), ac roedd chwarter arall yn dueddol o gytuno (26%).

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr hefyd yn cytuno'n gryf bod 'hyfforddi a datblygu'n staff yn hanfodol er mwyn i ni barhau'n gystadleuol' (56%) a bod 'hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff' (51%). Roedd rhyw chwarter yn cytuno â'r ddau ddatganiad hwn, ac roedd un o bob deg yn anghytuno.

Fodd bynnag, achosodd un datganiad ymateb gwahanol iawn: dim ond traean (32%) a gytunodd mewn unrhyw fodd â'r datganiad 'nid yw rhai o'n staff yn ystyried eu bod yn addas i'w hyfforddi, ac nid oes llawer y gallwn ni ei wneud am hynny'. Roedd dros draean yn anghytuno'n gryf (35%), tra bod dros ddau o bob deg (22%) arall yn dueddol o anghytuno.

Hefyd, roedd gwahaniaethau amlwg rhwng is-grwpiau yn achos pob un o'r datganiadau penodol.

Yn achos y datganiad 'mae hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff', roedd yr ymatebwyr a weithiai yn y sector cyhoeddus yn amlwg yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad (91%), ac roedd dau o bob tri (66%) yn cytuno'n gryf. Roedd hyn hefyd yn

wir yn achos y sefydliadau a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr: roedd y mwyafrif (91%) yn cytuno (63% ohonynt yn cytuno'n gryf), o'i gymharu â thri chwarter (74%) o'r sefydliadau a chanddynt hyd at 9 o weithwyr. Mae hwn yn batrwm sydd i'w weld ym mhob sector. Yn yr un modd, roedd yr ymatebwyr ym mhrif swyddfeydd sefydliadau amlsafle neu ar is-safleoedd yn fwy tueddol o gytuno (61% yn cytuno'n gryf). Roedd y rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith hefyd yn fwy tebygol o gytuno (65%). Nid oedd unrhyw batrymau amlwg yn ôl rhanbarth nac yn ôl yr amser ers sefydlu'r busnes.


Roedd patrymau tebyg yn amlwg yn achos y datganiad 'rydym yn mynd ati i annog ein staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn ein diwydiant/proffesiwn'. Unwaith eto, roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy tebygol o gytuno'n gryf (77%), fel yr oedd yr ymatebwyr ym mhrif swyddfa sefydliadau amlsafle neu ar is-safleoedd (66% yn cytuno'n gryf). Unwaith eto, cofnodwyd lefelau cytuno arwyddocaol uwch ar gyfer sefydliadau a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr (67% yn cytuno'n gryf). Serch hynny, o fewn sectorau, dim ond yn achos cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai, gweinyddiaeth gyhoeddus a'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (71%) roedd y patrwm o gofnodi lefelau cytuno uwch. Unwaith eto, nid oedd unrhyw batrymau amlwg yn ôl rhanbarth na'r amser ers sefydlu'r busnes.

Yn achos y datganiad 'nid yw rhai o'n staff yn ystyried eu bod yn addas i'w hyfforddi, ac nid oes llawer y gallwn ni ei wneud am hynny', roedd y patrymau cyfarwydd wedi'u gwrthdroi. Ar y cyfan, roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (21%) neu yn y sector cyhoeddus (25%) yn arwyddocaol lai tebygol o gytuno o gwbl. Roedd sefydliadau yn ne-orllewin Cymru ychydig yn fwy tebygol o gytuno (38%). Roedd y rhai ym mhrif swyddfa sefydliadau amlsafle neu mewn is-swyddfeydd (41%), neu'r rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith





## Siart 22: Agweddau at hyfforddiant



Sylfaen: Yr holl ymatebwyr (2,059 heb ei phwysoli, 2,059 wedi'i phwysoli). Un ymateb (y graddau y cytunir) i bob datganiad.

ac allan o'r gwaith (43%), ychydig yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf. Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn perthynas â maint y sefydliad.

Ychydig iawn o wahaniaethau arwyddocaol oedd rhwng y grwpiau mewn perthynas â'r datganiad 'ein staff yw ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad hwn'. Roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ychydig yn debycach na'r sectorau eraill o gytuno'n gryf (89%). Roedd hyn hefyd yn wir yn achos y sefydliadau hynny a chanddynt dros 10 o weithwyr (89%). Roedd y rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y

gwaith ac allan o'r gwaith ychydig yn debycach o gytuno'n gryf na'r rhai na ddarparodd yr un o'r ddau (86% o'i gymharu â 75%).

Dim ond y sefydliadau hynny yn y sector preifat a holwyd ynghylch y datganiad olaf – 'mae hyfforddi a datblygu'n staff yn hanfodol er mwyn i ni barhau'n gystadleuol'. O ganlyniad, nid oedd maint y sylfeini'n ddigon mawr i rai gwahaniaethau rhwng is-grwpiau fod yn arwyddocaol.

**Tabl 57: Cyfraddau cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad busnes – % sy'n cytuno'n gryf**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Ein staff yw ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad hwn	81	85	80	80	81	69	82	81	77	82	89	79	89	89
Rydym yn mynd ati i annog ein staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn ein diwydiant/proffesiwn	60	62	60	59	56	46	43	57	51	70	77	57	66	68
Mae hyfforddi a datblygu'n staff yn hanfodol er mwyn i ni barhau'n gystadleuol	56	61	56	54	53	36	42	46	54	65	75	51	71	75



**Tabl 57: Cyfraddau cytuno â datganiadau sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad busnes – % sy'n cytuno'n gryf (Parhad)**

Sylfaen: Yr holl sector preifat	Cyfanswm	Rhanbarth				Sector						Maint y sefydliad (nifer y gweithwyr)		
		Gogledd Cymru	Canolbarth Cymru	DDd Cymru	DO Cymru	Amaethyddiaeth/ cloddio/chwarela	Gweithgynhyrchu/ adeiladu	Cyfleustodau	Cyfanwerthu/ adwerthu/gwestai/ bwytai	Cyllid/gwasanaethau busnes	Gweinyddiaeth gyhoeddus	2-9	10-24	25 neu fwy
Heb ei phwysoli	2,059	489	280	760	441	196	393	253	446	352	419	1,005	583	471
Wedi'i phwysoli	2,059	468	291	797	436	63	312	86	729	386	482	1,535	342	182
	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%
Mae hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff	51	56	48	48	53	36	44	42	47	51	66	47	62	64
Nid yw rhai o'n staff yn ystyried eu bod yn addas i'w hyfforddi, ac nid oes llawer y gallwn ni ei wneud am hynny	12	10	11	12	16	22	14	13	15	9	6	12	12	9

Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.

## 5.2 Crynodeb

O'r datganiadau a brofwyd, cytunwyd i'r graddau helaethaf â 'Mae ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau' (79%). Y rhai yn y sector cyfanwerthu/adwerthu/gwestai/bwytai oedd yn cytuno'n gryf i'r graddau helaethaf (51%). Roedd y rhai ym mhrif swyddfeydd sefydliadau amlsafle yn fwy tebygol o anghytuno â'r datganiad (17% o'i gymharu â 12% neu lai).

Roedd ychydig dros saith ym mhob deg (73%) yn cytuno eu bod 'yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant/proffesiwn' a'u bod 'yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd' (72%). Yn y ddau achos, roedd y lefel gytuno gymedrig uchaf o lawer ymysg sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus. Roedd cyfraddau anghytuno â'r datganiad cyntaf yn uwch yn achos sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr (16% o'i gymharu ag 11% neu lai), sefydliadau un safle (17% o'i gymharu â 12% neu lai), a'r sector preifat (16% o'i gymharu â 9% neu lai). Yn achos yr olaf o'r rhain, roedd y niferoedd a gytunodd ar eu hisaf yn y sector amaethyddiaeth/cloddio/chwarela (19% o'i gymharu â 30% neu fwy).

Cytunai dau o bob tri bod 'cyfyngiadau amser yn ei gwneud yn anodd gwneud lle i hyfforddiant i staff' (66%); roedd cytuno'n gryf ar ei uchaf ymysg y rhai a chanddynt lai na 25 o weithwyr. Roedd 58% yn cytuno ei bod 'yn anodd trefnu staff cyflenwi tra bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant', ac roedd llai yn cytuno ymysg y sector cyhoeddus (37% yn anghytuno o'i gymharu â 27% yn y sector preifat) ac yn is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle (36% yn anghytuno o'i gymharu â 27% mewn mathau eraill o sefydliadau).

Roedd ychydig dan hanner yr ymatebwyr yn cytuno 'rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain' (47%) ac 'nid oes llawer yn newid

yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant' (47%). Yn achos y datganiad cyntaf o'r rhain, cytunwyd i'r graddau helaethaf ymysg sefydliadau yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus (56% o'i gymharu â 44% neu lai), y rhai a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr (54% a chanddynt 10-24, 58% a chanddynt 25 neu fwy o'i gymharu â 43% o'r sefydliadau a chanddynt 2-9 o weithwyr), a'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (53% o'i gymharu â 45% neu lai o'r rhai sy'n darparu dim ond un math o hyfforddiant). Yn achos y datganiad 'nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant', y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus oedd leiaf tebygol o gytuno (21% o'i gymharu â 38% neu fwy mewn sectorau eraill).

Roedd yn union ddau o bob pump (40%) yn cytuno y 'caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol', ac roedd ychydig yn fwy yn cytuno ymysg y rhai a ddarparodd hyfforddiant yn y gwaith yn unig (47% o'i gymharu â 38% o'r rhai a ddarparodd hyfforddiant allan o'r gwaith yn unig a 42% o'r rhai a ddarparodd y ddau). Nid yn annisgwyl, 'nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau' oedd yr un datganiad yr oedd mwy yn anghytuno ag ef nag a anghytunai (66% o'i gymharu â 27%). Anghytunwyd yn gryf i'r graddau helaethaf ymysg sefydliadau gweinyddiaeth gyhoeddus (68% o'i gymharu â 43% neu lai), sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr (67% o'i gymharu â 60% neu lai) a'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (63% o'i gymharu â 40% neu lai o'r rhai a ddarparai un math o hyfforddiant yn unig).

O'r ail set o ddatganiadau agwedd yn yr arolwg, cytunwyd i'r graddau helaethaf â'r datganiad 'ein staff yw ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad hwn' (81%). Roedd hyn ychydig yn uwch ymysg y rhai a ddarparai weinyddiaeth gyhoeddus (89% o'i gymharu â 82% neu lai) neu'r rhai



a chanddynt dros 10 o weithwyr (89% o'i gymharu â 79% i'r rhai a chanddynt 2-9 o weithwyr), yn ogystal â'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith (86% o'i gymharu â 80% neu lai i'r sefydliadau hynny a ddarparai un math o hyfforddiant yn unig).

Roedd tri o bob pump yn cytuno'n gryf eu bod 'yn mynd ati i annog ein staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn ein diwydiant/proffesiwn' (60%). Y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, sefydliadau a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr, y rhai ym mhrif neu is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle neu'r rhai sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith oedd fwyaf tebygol o roi'r ateb hwn.

Roedd mwyafrif yn cytuno'n gryf bod 'hyfforddi a datblygu'n staff yn hanfodol er mwyn i ni barhau'n gystadleuol' (56%) a bod 'hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff' (51%). Roedd y ddau'n uwch ymysg y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus,

sefydliadau a chanddynt 10 neu fwy o weithwyr, y rhai ym mhrif neu is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle neu sy'n darparu hyfforddiant yn y gwaith ac allan o'r gwaith.

Roedd bron i draean (32%) yn cytuno â'r datganiad 'nid yw rhai o'n staff yn ystyried eu bod yn addas i'w hyfforddi, ac nid oes llawer y gallwn ni ei wneud am hynny'. Roedd y rhai mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn (50% o'i gymharu â 40% neu lai mewn sectorau eraill), fel yr oedd y rhai ym mhrif neu is-swyddfeydd sefydliadau amlsafle (o leiaf 40% o'i gymharu â 32% mewn sefydliadau un safle).

### 5.3 Cyflwyniad

Mae'r wybodaeth a gasglwyd am agweddau cyflogwyr at ddysgu wedi galluogi rhannu, neu 'segmentu', poblogaeth y panel yn bum clwstwr, fel a ganlyn:

#### Clwstwr 1:

**Strwythuredig  
a threfnus**

#### Clwstwr 2:

**Amherthnasol  
i ni**

#### Clwstwr 3:

**Anelu at  
ragoriaeth**

#### Clwstwr 4:

**Y mymryn  
lleiaf**

#### Clwstwr 5:

**Cael traffeth  
dod o hyd i'r  
cydbwysedd**

### **1 Strwythuredig a threfnus**

Trosolwg: Dyma'r grŵp mwyaf yn y panel. Roedd trefniadau hyfforddi da ganddynt ac nid oeddent wedi cael anawsterau i ddod o hyd i ddarparwyr hyfforddiant. Roeddent wedi darparu ychydig yn fwy na'r cyfartaledd o hyfforddiant ar y safle ac oddi ar y safle yn y flwyddyn ddiwethaf, ac roeddent yn cytuno bod hyfforddiant yn hanfodol i'r cwmni. Fodd bynnag, roeddent yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddatblygu eu rhaglenni hyfforddiant eu hunain, ac roeddent wedi ceisio llai o gyngor ynghylch hyn na'r cyfartaledd.

### **2 Amherthnasol i ni**

Trosolwg: Y grŵp hwn ddarparodd leiaf o hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd yn dueddol o gytuno nad oedd hyfforddiant yn flaenoriaeth. Nid oeddent o reidrwydd wedi cael anhawster wrth ddod o hyd i hyfforddwyr. Fodd bynnag, gallai cyfyngiadau amser fod wedi ei gwneud yn anodd rhoi lle i hyfforddiant. Roeddent yn llawer llai tebygol o gredu bod hyfforddiant yn hanfodol i gryfder eu cwmni na'r clystyrau eraill yn y sampl. Ynghyd â Chlwstwr 4, ganddynt hwy oedd un o'r cyfraddau uchaf o sefydliadau a chanddynt hyd at 9 o weithwyr.

### **3 Anelu at ragoriaeth**

Trosolwg: Y grŵp hwn ddarparodd fwyaf o hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd ganddo strwythurau hyfforddi rhagorol yn eu lle. Nhw oedd fwyaf tebygol o ddatblygu hyfforddiant a nhw hefyd a geisiodd gyngor gan y mwyaf o ffynonellau. Nhw oedd wedi cynllunio'r nifer fwyaf o fathau o hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn y grŵp hwn roedd y gyfran uchaf o sefydliadau a chanddynt 25 neu fwy o weithwyr o'i gymharu â'r clystyrau eraill. Dyma'r clwstwr lle roedd y gyfran uchaf yn cael ei dosbarthu fel bod yn y sector cyhoeddus (42%).

### **4 Y mymryn lleiaf**

Trosolwg: Roedd y grŵp hwn wedi cynnig llai o hyfforddiant na'r cyfartaledd yn y flwyddyn ddiwethaf ac roedd ganddo lai o raglenni hyfforddiant yn yr arfaeth. Er nad oedd hyfforddiant yn flaenoriaeth, roeddent yn credu'n gryf bod staff yn cael digon o hyfforddiant am eu rolau ac y câi eu cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol. Roedd ganddynt strwythurau hyfforddiant yn eu lle ond, wrth roi lle i hyfforddiant, roeddent wedi cael rhai anawsterau o ran cyfyngiadau amser a chyflenwi staff. Roeddent yn debycach na'r cyfartaledd o gytuno bod rhai aelodau o staff yn ystyried nad oeddent yn addas i'w hyfforddi. Ynghyd â Chlwstwr 2, yn y grŵp hwn roedd y nifer fwyaf o sefydliadau a chanddynt hyd at 9 o weithwyr. Nodwyd bod dros hanner (52%) y clwstwr hwn yn y dosbarth cyfanwerthu/adwerthu/gwestai a bwytai.

### **5 Cael trafferth dod o hyd i'r cydbwysedd**


Trosolwg: Dyma'r grŵp lleiaf yn y sampl. Roeddent wedi darparu mwy o hyfforddiant na'r cyfartaledd yn y flwyddyn ddiwethaf, ac roeddent wedi cynllunio mwy na'r cyfartaledd am y flwyddyn nesaf. Nhw oedd y grŵp a gafodd fwyaf o anawsterau i ddod o hyd i hyfforddwr priodol, ac roeddent hefyd wedi cael mwy o anawsterau na'r cyfartaledd o ran cyfyngiadau amser ac i gyflenwi staff yn ystod hyfforddiant. Roeddent wedi ceisio cyngor ynghylch hyfforddiant gan fwy o ffynonellau na'r cyfartaledd. Roedd cyfran uwch o sefydliadau yn y grŵp hwn yn y dosbarth 'sector gwirfoddol' na chlystyrau eraill.





Mae'r siart isod yn adlewyrchu cyfran y sefydliadau ym mhob grŵp. Mae'n dangos bod maint y clystyrau'n gymharol gyfartal, ac mai 'Clwstwr 1: Strwythuredig a threfnus' oedd y mwyaf a 'Clwstwr 5: Cael trafferth dod o hyd i'r cydbwysedd' oedd y lleiaf.

### Siart 23: Dadansoddiad o'r Clystyrau



Nodyn: Cwestiwn un ymateb. Ni ddangosir 'Ddim yn gwybod' nac 'Arall'.

### Clwstwr 1: Strwythuredig a threfnus

**Proffil y Sefydliadau:** Ar y cyfan, roedd y sefydliadau yn y grŵp hwn yn rhai canolig eu maint a chanddynt 15.07 o weithwyr ar gyfartaledd. Roeddent yn rhan o sefydliad amlsafle ond heb fod yn brif swyddfa (39%). Ar y cyfan, roedd y grŵp hwn yn cynnwys sefydliadau sector preifat (74%). Fodd bynnag, roedd hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o sefydliadau sector cyhoeddus (17%). Roedd y mwyafrif yn sefydliadau â ffocws ar y defnyddiwr ac a oedd yn arbennig o debygol o gyflogi staff mewn galwedigaethau gwerthu/gwasanaeth cwsmeriaid (29%).

**Darparu hyfforddiant:** Darparai'r mwyafrif o'r sefydliadau hyn hyfforddiant yn y gwaith (86%) ac allan o'r gwaith (74%) i'w gweithwyr. Nid oedd y sefydliadau hyn wedi cael unrhyw anhawster wrth ddod o hyd i hyfforddwr priodol i ddiwallu eu hanghenion yn y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd agwedd y grŵp hwn at hyfforddiant yn dueddol o fod yn gadarnhaol. Roedd y mwyafrif:

- Yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd (76%)
- Yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol (72%)
- Yn cytuno bod eu 'staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau' (78%)
- Yn anghytuno â'r datganiad 'nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau' (85%)

### Agweddau at hyfforddiant:

Roedd agweddau'r grŵp hwn o sefydliadau at eu staff a darpariaeth hyfforddiant yn gadarnhaol iawn. Roeddent yn cydnabod bod hyfforddiant yn bwysig er mwyn i'w busnes lwyddo. Roedd y mwyafrif yn cytuno:

- Mai eu staff oedd ased mwyaf gwerthfawr eu cwmni (97%)
- Bod hyfforddi a datblygu eu staff yn hanfodol er mwyn parhau'n gystadleuol (94%)
- Eu bod yn mynd ati i annog staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn eu diwydiant/proffesiwn (92%)
- Bod hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff (84%)

Roedd y mwyafrif (71%) yn anghytuno bod rhai o'u staff yn ystyried nad oeddent yn addas i'w hyfforddi ac nad oedd llawer y gallant wneud ynghylch hynny.

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

Dywedodd un o bob deg (10%) o'r sefydliadau hyn nad oeddent yn bwriadu darparu unrhyw

hyfforddiant i'w gweithwyr yn y flwyddyn nesaf. Roedd o leiaf bedwar o bob deg yn bwriadu darparu hyfforddiant sgiliau technegol/ymarferol eraill (50%), sgiliau gweithio mewn tîm (46%), sgiliau trin cwsmeriaid (45%) a sgiliau cyfathrebu (44%).

## Clwstwr 2: Amherthnasol i ni

**Proffil y Sefydliadau:** Roedd y clwstwr hwn yn cynnwys sefydliadau llai a chanddynt 6.54 o weithwyr ar gyfartaledd. Roedd y sefydliadau, gan mwyaf, yn rhai un safle (83%) ac yn y sector preifat (88%). Roeddent yn debygol o fod yn gymharol statig o ran twf, ac yn fwy tebygol (39%) na'r mwyafrif o'r grwpiau eraill (ac eithrio'r rhai yng nghlwstwr Y mymryn lleiaf, sef 34%) o fod wedi aros tua'r un peth o ran trosiant/cyllideb ariannol a nifer y gweithwyr.

O ran mathau o weithwyr, roedd y sefydliadau hyn yn fwy tebygol na'r rhai yn y clystyrau Strwythuredig a threfnus, Amherthnasol i ni, a Cael traferth dod o hyd i'r cydbwysedd o gynnwys rheolwyr ac uwchreolwyr (27%) a galwedigaethau crefftau medrus (13%). Roeddent hefyd yn fwy tebygol (12%) na'r rhai yn y clystyrau Strwythuredig a threfnus (10%), Y mymryn lleiaf (8%) neu Cael traferth dod o hyd i'r cydbwysedd (9%) o gynnwys galwedigaethau gweinyddol/ysgrifenyddol.

**Darparu hyfforddiant:** Yn y math hwn o sefydliad, ni ymddengys y caiff hyfforddiant ei gymryd o ddifrif, ac ni chafodd y mwyafrif o'r gweithwyr unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf (yn y gwaith, 68% ac allan o'r gwaith, 80%). O'r nifer fechan o sefydliadau yn y grŵp a ddarparodd hyfforddiant, nododd dros bedwar o bob deg (42%) nad ydynt yn gwario unrhyw ran o'u trosiant ar hyfforddiant ac roedd dros eu hanner (52%) yn gwario'r un faint ar hyfforddiant y pen ag y gwnaethant dair blynedd yn ôl. Ni chafodd y mwyafrif llethol (84%) a ddarparodd hyfforddiant unrhyw gymorth ariannol am unrhyw fathau roeddent

wedi eu cyflwyno yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y grŵp hwn o sefydliadau'n dueddol o fod yn ddifater iawn tuag at hyfforddiant, ac atebodd nifer sylweddol gyda naill ai 'ddim yn gwybod' neu 'ddim yn berthnasol' pan ofynnwyd iddynt am eu hagweddau at hyfforddiant. Er enghraifft:

- Atebodd tri o bob deg gyda 'ddim yn gwybod' neu 'ddim yn berthnasol' i'r datganiad 'caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol' (28%)
- Roedd tri chwarter yn cytuno â'r datganiad 'nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant' (74%)
- Roedd dau o bob tri yn cytuno â'r datganiad 'nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau' (67%)

Nhw oedd y lleiaf rhagweithiol o ran datblygu eu rhaglenni hyfforddiant eu hunain (46% yn anghytuno â'r datganiad 'rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain') neu chwilio am gyngor (45% yn anghytuno â'r datganiad 'rydym yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i'n diwydiant neu broffesiwn).

Y grŵp hwn o sefydliadau (43%) oedd fwyaf tebygol o adrodd nad oeddent wedi defnyddio'r un o'r ffynonellau a awgrymwyd ar gyfer help a chngor ar fynediad at hyfforddiant i'w staff. Nhw hefyd yw'r mwyafrif tebygol o adrodd na fu ganddynt unrhyw gysylltiad ag unrhyw un o'r darparwyr hyfforddiant yn eu hardal (41%).

**Agweddau at hyfforddiant:** Nid oedd y sefydliadau yn y clwstwr hwn yn gweld bod hyfforddiant yn berthnasol i'w busnes. Nhw oedd y mwyafrif tebygol o anghytuno:

- Eu bod yn mynd ati i annog staff i ddyysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau (25%)
- Bod hyfforddi a datblygu eu staff yn hanfodol





er mwyn iddynt barhau'n gystadleuol (40%)

- Bod hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff (33%)

Er eu bod yn ystyried bod eu staff yn bwysig, roedden nhw'n llai tebygol na'r holl glystyrau eraill o gytuno'n gryf mai eu staff oedd ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad (64%). Roeddent hefyd yn debycach o adrodd nad oedd eu staff yn ystyried eu bod yn addas i'w hyfforddi ac nad oedd llawer y gallant ei wneud ynghylch hynny (40%).

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:** Y sefydliadau hyn hefyd oedd fwyaf tebygol (40%) o adrodd nad oeddent yn cynllunio darparu unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn nesaf..

### Clwstwr 3: Anelu at ragoriaeth

**Proffil y Sefydliadau:** Roedd y grŵp hwn yn dueddol o gynnwys sefydliadau mwy a chanddynt 26.28 o weithwyr ar gyfartaledd. Roedd y sefydliadau'n dueddol o fod yn un o sawl safle (44%) ac er bod y clwstwr, gan mwyaf, yn cynnwys sefydliadau sector preifath (63%), roedd hefyd yn cynnwys cyfran uchel o sefydliadau sector cyhoeddus (27%). Roeddent yn debycach na'r gweddill o gynhyrchu nwyddau a/neu gynnig gwasanaethau i rannau eraill o'r sefydliad roedden nhw'n perthyn iddo (21%). Roeddent yn fwy tebygol (38%) na'r rhai yn y clystyrau Strwythuredig a threfnus (28%), Amherthnasol i ni (15%) ac Y mymryn lleiaf (11%) o fod wedi cynyddu nifer y gweithwyr yn y flwyddyn ddiwethaf.

**Darparu dysgu:** Roedd y clwstwr hwn yn rhoi mwy o bwys ar hyfforddiant na'r holl glystyrau eraill, ac roedd y mwyafrif helaeth o'r gweithwyr yn cael hyfforddiant yn y gwaith (91%) a/neu hyfforddiant allan o'r gwaith (84%). Roedd y sefydliadau hyn yn dueddol o ganolbwyntio ar y ffordd ymlaen, ac wedi pennu amcanion er mwyn cyflawni nodau a thargedau yn y dyfodol.

Roedd y grŵp hwn yn fwy tebygol na'r clystyrau Strwythuredig a threfnus, Amherthnasol i ni neu Y mymryn lleiaf o ddymuno:

- Ymdrin â lefelau sgiliau'r gweithle (88%)
- Cyflwyno arferion gwaith newydd (79%)
- Cyflwyno technoleg newydd yn y flwyddyn nesaf (67%)
- Sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol (54%)
- Lleihau trosiant staff (48%)

Y grŵp hwn oedd leiaf tebygol o fod heb gael anawsterau i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol i ddiwallu eu hanghenion (96%). Nhw hefyd oedd yr ail fwyaf tebygol (ar ôl Cael trafferth dod o hyd i'r cydbwysedd) o fod yn buddsoddi mwy y pen mewn hyfforddiant nag yr oeddent 3 blynedd yn ôl (51%). Yn yr un modd, nhw oedd yr ail fwyaf tebygol (ar ôl Cael trafferth dod o hyd i'r cydbwysedd) o fod wedi cael cymorth ariannol (41%).

Roedd y sefydliadau hyn yn dueddol o fod yn egniol ac o weithio mewn amgylchedd newidiol. Roeddent yn chwarae rôl weithgar mewn datblygu eu staff ac mewn trefnu hyfforddiant priodol; mae'r rhestr ganlynol yn manylu ar y cyfrannau a roddodd ymatebion cadarnhaol i ddatganiadau allweddol ynghylch hyfforddiant:

- Roedd datblygu staff yn flaenoriaeth (80%)
- Nid oedd llawer wedi newid yn eu sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nod oedd angen mawr am hyfforddiant (75% yn anghytuno)
- Roeddent yn gweithio gyda darparwyr i lunio rhaglen hyfforddiant (79% yn cytuno)
- Roeddent yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth a oedd yn berthnasol iddyn nhw (93% yn cytuno)
- Roeddent yn asesu sgiliau eu staff yn ffurfiol yn rheolaidd (69% yn cytuno'n gryf)

Y sefydliadau hyn oedd fwyaf tebygol o fod â chysylltiad â'r darparwyr hyfforddiant yn eu hardal leol. Er enghraifft, roeddent wedi:

- Anfon staff ar gyrsiau hyfforddi gyda'r darparwr (61%)
- Rhoi adborth am hyfforddiant/cynnwys cwrs (60%)
- Wedi cael ymweliadau gan gynrychiolwyr (63%)
- Wedi trefnu lleoliadau yn eu sefydliadau i fyfyrwyr o golegau lleol (56%)
- Wedi eistedd ar Fwrdd coleg lleol (15%)

**Agweddau at ddysgu:** Roedd agwedd y grŵp hwn at hyfforddiant yn gadarnhaol iawn. Roeddent yn deall y byddai eu busnes yn tyfu o ganlyniad i annog a hyfforddi eu staff. Y clwstwr hwn, ar y cyd â'r clwstwr Cael trafferth dod o hyd i'r cydbwysedd, oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf â'r datganiadau canlynol:

- Ein staff yw ased mwyaf gwerthfawr y sefydliad hwn (92%)
- Mae hyfforddi a datblygu'n staff yn hanfodol er mwyn i ni barhau'n gystadleuol (86%)
- Rydym yn mynd ati i annog ein staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn ein diwydiant/proffesiwn (85%)
- Mae hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i hybu hyder staff (78%)

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:** Ar y cyfan, roedd y math hwn o sefydliad yn bwriadu darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant i'w gweithwyr yn ystod y flwyddyn nesaf; yn wir, roeddent yn cynllunio mwy o hyfforddiant nag unrhyw glwstwr arall.

#### **Clwstwr 4: Y mymryn lleiaf**

**Proffil y Sefydliadau:** Roedd y sefydliadau hyn yn dueddol o fod yn llai na'r cyfartaledd, a chanddynt 7.45 o weithwyr ar gyfartaledd. Roeddent yn cynnwys, gan mwyaf, sefydliadau sector preifat (88%) a sefydliadau un safle (77%). Y disgrifiad o'u prif weithgaredd busnes

oedd cynhyrchu nwyddau/cynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr (85%). O fewn y grŵp hwn, roedd ymraniad cytbwys rhwng nifer y sefydliadau a oedd wedi cynyddu eu trosiant/cyllideb ariannol (35%) a'r rhai a oedd wedi aros yr un peth yn fras (74%) i'r mwyafrif.

**Darparu dysgu:** Y clwstwr hwn oedd yr ail fwyaf tebygol o beidio â darparu hyfforddiant yn y gwaith (57%) nac allan o'r gwaith (76%). Ni chawsant unrhyw anawsterau o ran dod o hyd i ddarparwr priodol i ddiwallu eu hanghenion, ac adroddodd rhyw un o bob pump (22%) na chawsant unrhyw anawsterau am nad oeddent wedi cynllunio unrhyw hyfforddiant yn y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y clwstwr hwn yn fwy tebygol na'r holl gystyrau eraill, ac eithrio'r rhai yn y clwstwr Amherthnasol i ni, o nodi eu bod yn gwario tua'r un faint y pen ar hyfforddiant â 3 blynedd yn ôl (48%). Eto, ar y cyd â'r clwstwr Amherthnasol i ni, y sefydliadau hyn oedd fwyaf tebygol o fod heb gael unrhyw gymorth ariannol am unrhyw hyfforddiant roeddent wedi ei gyflwyno (79%).

Roedd y grŵp hwn yn darparu hyfforddiant i'w staff, ond nid oeddent yn ei ystyried yn hanfodol. Roeddent yn gweithio gyda darparwyr, ond roeddent yn darparu hyfforddiant gorfodol gan mwyaf. Er enghraifft, mae'r canlynol yn rhoi manylion y gyfran sy'n cytuno â datganiadau allweddol ynghylch gweithgarwch hyfforddi:

- Mae ein staff yn cael tua'r hyfforddiant sy'n briodol am eu rolau (88%)
- Nid oes llawer yn newid yn ein sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nid oes angen mawr am hyfforddiant (76%)
- Rydym yn asesu sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd (76%)
- Nid yw hyfforddiant yn un o'n blaenoriaethau (48%)



- Rydym yn dueddol o weithio gyda darparwyr i ddatblygu'n rhaglenni hyfforddiant ein hunain (58%)
- Rydym yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant sy'n berthnasol i ni (79%)
- Caiff y rhan fwyaf o'n cyllideb hyfforddiant ei gwario ar hyfforddiant gorfodol (57%)

Y clwstwr hwn a'r clwstwr Cael traferth dod o hyd i'r cydbwysedd oedd fwyaf tebygol o gytuno'n gryf eu bod wedi cael anawsterau'n trefnu staff cyflenwi tra bod staff yn ymgymryd â hyfforddiant (50% a 58% yn y drefn honno).

**Agweddau at ddysgu:** Yn gyffredinol, yn unol â'r holl glystyrau eraill, roedd y mwyafrif o'r sefydliadau yn y clwstwr hwn yn cytuno'n gryf mai eu staff oedd ased mwyaf gwerthfawr eu sefydliad (82%). Fodd bynnag, nhw oedd fwyaf tebygol o nodi bod rhai o'u staff yn ystyried nad oeddent yn addas i'w hyfforddi, ac nad oedd llawer y gallant ei wneud ynghylch hynny (52%).

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:** Cynlluniwyd ystod eang o hyfforddiant am y flwyddyn nesaf yn achos y mwyafrif o gwmnïau. Fodd bynnag, y grŵp hwn o sefydliadau oedd yr ail fwyaf tebygol (ar ôl Amherthnasol i ni) o nodi nad oeddent yn bwriadu darparu unrhyw hyfforddiant i'w gweithwyr yn y flwyddyn nesaf (29%).

### Clwstwr 5: Cael traferth dod o hyd i'r cydbwysedd

**Proffil y Sefydliadau:** Roedd y grŵp hwn yn cynnwys sefydliadau mwy na'r cyfartaledd (gyda chymedr o 20 o weithwyr). Er mai dim ond nifer fach oedd, roedd y grŵp hwn yn cynnwys cyfran uwch o sefydliadau elusennol (12%) na'r holl grwpiau eraill. Roedd trosiant/cyllideb ariannol un o bob tri (34%) o'r sefydliadau yn y grŵp hwn rhwng £250K a £5 miliwn. Roedd bron i hanner (47%)

y sefydliadau yn y grŵp hwn wedi gweld cynnydd yn eu trosiant/cyllideb ariannol dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Darparu dysgu a chyngor:** Roedd y grŵp hwn wedi darparu hyfforddiant yn y gwaith (80%) ac allan o'r gwaith (76%) i'w staff. O ran yr amcanion roeddent wedi eu pennu, roedd y grŵp hwn yn debyg i'r clwstwr Anelu at agoriaeth. Roeddent yn dymuno:

- Mynd i'r afael â lefelau sgiliau eu gweithlu (83%)
- Cyflwyno arferion gwaith newydd (72%)
- Sicrhau cyllid ychwanegol (59%)
- Lleihau trosiant staff (47%)

Y grŵp hwn a gafodd yr anhawster mwyaf yn y flwyddyn ddiwethaf i ddod o hyd i ddarparwr hyfforddiant priodol i ddiwallu eu hanghenion (100%). Fodd bynnag, nhw oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael cymorth ariannol am hyfforddiant roeddent wedi ei gyflwyno yn y flwyddyn ddiwethaf (46%). Yn yr un modd, nhw oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod wedi cynyddu faint maent yn ei fuddsoddi y pen mewn hyfforddiant (56%). Roedd gan y clwstwr hwn y mathau canlynol o gysylltiad â darparwyr hyfforddiant yn eu hardal leol:

- Wedi cael gwybodaeth drwy'r post/dros y ffôn (80%)
- Wedi anfon staff ar gyrsiau hyfforddi gyda'r darparwr (53%)
- Wedi mynychu digwyddiadau rhwydweithio a drefnwyd gan y darparwr (45%)
- Wedi rhoi adborth am hyfforddiant/cynnwys cwrs (49%)
- Wedi trefnu lleoliadau yn y sefydliad i fyfyrwyr o golegau lleol (43%)
- Wedi cael ymweliadau gan gynrychiolwyr (41%)

Roedd y grŵp hwn yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd hyfforddiant. Roeddent yn gadarnhaol ynghylch y manteision a allai ddod yn ei sgil ac roeddent yn ceisio darparu hyfforddiant i staff. Fodd bynnag, nhw oedd fwyaf tebygol o deimlo nad oedd eu staff yn cael digon o hyfforddiant am eu rolau (30%). Nhw hefyd oedd yr ail fwyaf tebygol o anghytuno nad oedd hyfforddiant yn un o'u blaenoriaethau (89%).

Roedd y grŵp hwn yn cytuno eu bod:

- Yn asesu lefelau sgiliau pobl yn ffurfiol yn rheolaidd (79%)
- Yn mynd ati i chwilio am gyngor neu wybodaeth am hyfforddiant a oedd yn berthnasol iddyn nhw (90%)
- Yn dueddol o weithio â darparwyr i ddatblygu eu rhaglenni hyfforddiant eu hunain (54%)

Roeddent yn anghytuno:

- Nad oedd llawer wedi newid yn eu sefydliad felly, ac eithrio hyfforddi staff newydd, nad oedd angen llawer mwy (66%)
- Y câi'r rhan fwyaf o'r gyllideb ei gwario ar hyfforddiant gorfodol (49%)
- Nad oedd hyfforddiant yn un o'u blaenoriaethau (89%)

Fodd bynnag, yn gyffredinol, y clwstwr hwn oedd fwyaf tebygol o gael anhawster yn darparu hyfforddiant oherwydd cyfyngiadau amser (77%) ac anhawster trefnu i gyflenwi (77%).

**Agweddau at ddysgu:** This group of establishments had a positive attitude towards learning, and they saw their staff as the most valuable asset of their organisation (92% strongly agreed). This cluster was the second most likely to indicate that they strongly agreed:

- Bod hyfforddi a datblygu eu staff yn hanfodol er mwyn iddynt barhau'n gystadleuol (79%)
- Eu bod yn mynd ati i annog staff i ddysgu'r diweddaraf am ddatblygiadau yn eu diwydiant/proffesiwn (74%)
- Bod hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau'n helpu i gynyddu hyder staff (71%)

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:**

Roedd y grŵp hwn o sefydliadau'n bwriadu darparu amrywiaeth eang o hyfforddiant i'w gweithwyr yn y flwyddyn nesaf.

## ATODIAD A: DEHONGLI'R DATA A RHESTR TERMAU



Pwysolwyd sampl arolwg y Panel Cyflogwyr yn ystod y cam dadansoddi er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli sefydliadau yn ôl sector a nifer y gweithwyr:

### Matrics pwysoli

Sector Diwydiant <sup>^</sup>	Nifer y gweithwyr		
	2 i 9 o weithwyr	10 i 49 o weithwyr	50 o weithwyr neu fwy
	%	%	%
Amaethyddiaeth	2.8	0.1	0.1
Cynhyrchu	5.0	2.2	1.1
Adeiladu	5.9	1.0	0.2
Masnachau adwerthu/cyfanwerthu/modur	20.1	4.7	0.7
Gwestai/bwytai/arlwyo	7.8	1.8	0.2
Trafnidiaeth/cyfathrebu	3.1	0.9	0.3
Cyllid/gwasanaethau busnes	15.6	2.6	0.5
Gweinyddiaeth gyhoeddus/addysg/iechyd	14.4	7.2	1.8

Nodyn: <sup>^</sup> mae'r sectorau diwydiant yn cyfateb i'r rhaniad safonol a ddefnyddir yn y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, a oedd yn ffynhonnell i'r cyfrifiadau o'r boblogaeth at ddibenion pwysoli. Mae'r trawstoriadau sector yn yr adroddiad yn defnyddio rhaniad ychydig yn wahanol o'r sectorau.

Mae cywirdeb yr amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata'r arolwg yn dibynnu ar ddau beth: yn gyntaf, maint y sampl; yn ail, canlyniad gwirioneddol yr arolwg. Er enghraifft, ar sail 2,059 o gyfweiliadau, mae gan ganfyddiad 50% lwfans cyfeiliornad o +/- 2.2%. Felly, os yw 50% o'r ymatebwyr yn yr arolwg yn cytuno y gwariwyd y rhan fwyaf o'u cyllideb ar hyfforddiant gorfodol, byddai'r gwir ffigur am y boblogaeth gyffredinol rhwng 47.8% a 52.2%. Roedd y lwfansau cyfeiliornad yn fwy yng nghanol y raddfa (h.y. yn achos canlyniadau o amgylch 50% o'r marc) ac yn llai ar ben uchaf ac isaf y raddfa. Roedd gan ganfyddiad o 10% (neu ganfyddiad o 90%) lwfans cyfeiliornad o +/- 1.3. Felly, os oedd 90% o'r ymatebwyr yn cytuno y gwariwyd y rhan fwyaf o'u cyllideb ar hyfforddiant gorfodol, roedd y gwir ganfyddiad yn y boblogaeth rhwng 88.7% a 91.3%.

Nid yw'n ddoeth dadansoddi is-grwpiau sy'n cynnwys llai na 100 o ymatebwyr. Y rheswm am hyn yw am mai'r lwfans cyfeiliornad ar sampl heb ei phwysoli sy'n cynnwys llai na 100 oedd +/- 10% neu fwy, a fyddai, ar y cyfan, yn rhy fawr i'w ddefnyddio fel amcangyfrif dibynadwy ar gyfer sefydliadau yn yr is-grŵp hwnnw.

## RHESTR TERMAU

**Clwstwr** – fel rhan o ddadansoddiad Segmentu, ceisiwn ddod o hyd i grwpiau o ymatebwyr sy'n dangos patrymau tebyg o ran y newidynnau a fesurir. Bydd y penderfyniad am ba newidynnau i'w defnyddio, a sawl un, yn effeithio ar ganlyniadau'r clystyrau. Egwyddor clystyru da yw y dylai fod pellter mawr rhwng y clystyrau, ond y dylai aelodau pob clwstwr fod yn agos at ei gilydd. Yn achos y Panel Unigolion, mae'r segmentu'n seiliedig ar agwedd yr unigolyn at ddysgu a datblygu.

**Segmentu** – modd ystadegol o ddeall poblogaeth drwy archwilio'r gwahaniaethau mewn agweddau rhwng grwpiau yn y boblogaeth honno. Defnyddir y dechneg hon yn fynych er mwyn targedu negeseuon marchnata.

**Pwysoli** – wedi pwysoli/heb bwysoli  
Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos sylfeini heb eu pwysoli ac wedi'u pwysoli. Y sylfaen wedi'i phwysoli yw nifer y cyfweiliadau wedi'i phwysoli i gyd-fynd â phroffil cyflogwyr Cymru. Y sylfaen heb ei phwysoli yw gwir nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda'r grŵp hwn o ymatebwyr. Mae'r holl ganrannau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn yn rhai a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r sylfaen wedi'i phwysoli, felly mae'r data'n cyd-fynd â phroffil cyflogwyr Cymru. Fodd bynnag, os ydych chi'n dyfynnu/dangos maint sylfaen (mewn cyflwyniad er enghraifft), mae'n arfer gorau dyfynnu'r sylfaen heb ei phwysoli h.y. gwir nifer yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwnnw.